# Canllaw Tiwtoriaid Ymarfer

TAR-23J: Tystysgrif Addysg i Raddedigion

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 6

**Eich rôl fel Tiwtor Ymarfer** 7

Gweledigaeth Partneriaeth Y Brifysgol Agored ar gyfer addysg effeithiol i athrawon 11

**Diben a strwythur y deunyddiau canllaw** 15

**Trosolwg o'r rhaglenni** 17

Y ddau lwybr tuag at TAR 17

Elfennau'r cwrs 20

Deunyddiau Ar-lein 21

**Ymarfer dysgu ac addysgu** 22

Llwybr rhan-amser 22

Llwybr cyflogedig 23

**Trosolwg o'r rôl a'r cyfrifoldebau allweddol** 23

**Rôl Tiwtor Ymarfer Arweiniol** 25

Sut beth yw bod yn Diwtor Ymarfer? 25

Datblygu fel Tiwtor Ymarfer 26

Ymweliadau rhithiol Tiwtoriaid Ymarfer 27

Arsylwi'r darpar athro 28

Tiwtor ymarfer fel hyfforddwr 29

Helpu'r myfyriwr i gysylltu damcaniaeth ac ymarfer 30

Astudiaeth Gwers 30

Yr astudiaethau a'r ymchwil ar raddfa fach ym Mlwyddyn 2 (TAR 3) 33

**Asesu 34**

Dwy ran yr asesiad myfyrwyr 34

Rhan 1 Tasgau asesu academaidd 34

Rhan 2 yr e-Bortffolio 34

Sut y gallaf arsylwi ar ymarfer fy darpar athro er mwyn cefnogi fy asesiad? 37

Sut i gwblhau'r ffurflen arsylwad gwers 37

Sut y gallaf adrodd ar gynnydd fy darpar athro mewn perthynas â'r safonau? 38

Sut y gallaf gwblhau'r adroddiad? 39

Defnyddio'r Fframwaith Asesu Safonau 40

Barn am gynnydd 40

Sut y gallaf asesu datblygiad sgiliau Cymraeg fy darpar athro? 41

**Lles 43**

Rhoi gwybod am bryderon 44

**Trosolwg o'r ymweliad ymarfer 46**

Diben yr ymweliad 46

Cynnal sesiwn adfyfyrio beirniadol a deialog strwythuredig gyda'r myfyriwr 47

Adfyfyrio beirniadol a deialog strwythuredig gyda'r Mentor 48

Arsylwi gwersi 49

Sicrhau ansawdd 50

Cwblhau adroddiad yr ymweliad ymarfer dysgu 51

**Adborth a gwella ansawdd 51**

**Atodiad 1 52**

Rhestr geirfa 52

**Atodiad 2 57**

Y gwahaniaethau rhwng hyfforddi a mentora 57

**Atodiad 3 60**

Archwiliad o sgiliau Tiwtor Ymarfer 60

**Atodiad 4 63**

Cyrsiau Hyfforddi 63

**Atodiad 5 66**

Graddau ymchwil ôl-raddedig 66

**Atodiad 6 67**

Fframwaith asesu ymarfer dysgu 67

**Addysgeg: Mireinio addysgu – tuag at ymarfer parhaus effeithiol iawn 67**

Addysgeg: Datblygu dysgu - Drwy gymhwyso gwybodaeth bynciol a disgyblaeth yn effeithiol 72

Addysgeg: Dylanwadu ar ddysgwyr - creu tueddiadau cadarnhaol gan ddysgwyr 78

Cydweithio - sicrhau bod addysgeg effeithiol yn cael ei rhannu 82

Dysgu proffesiynol - mynd ag addysgeg effeithiol yn ddyfnach 85

Arloesedd - datblygu addysgeg 88

Arweinyddiaeth - helpu i ddatblygu addysgeg effeithiol 90

**Atodiad 7 93**

Pennu targedau CAMPUS 93

**Atodiad 8 98**

Cwestiynau a awgrymir ar gyfer cyfarfodydd â myfyrwyr 98

**Atodiad 9 110**

Cwestiynau a awgrymir ar gyfer cyfarfodydd hyfforddi 110

**Atodiad 10 112**

Canllawiau E-portffolio 112

# Cyflwyniad

Croeso i Bartneriaeth AGA y Brifysgol Agored. Ein gweledigaeth yw y byddwn, gyda'n gilydd, yn gweithio mewn partneriaeth, i cael gwared ar rwystrau i gyfranogi er mwyn darparu llwybr hyblyg i ddatblygu athrawon rhagorol sy’n gweld mynediad i lwybrau traddodiadol yn anoddach. Wrth wneud hynny, rydym yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a chymunedau ledled Cymru. Diolch am gytuno i fod yn Diwtor Ymarfer ar y llwybr amgen i addysgu.

Fel Tiwtor Ymarfer, rydych yn rhan o dîm proffesiynol sy'n cysylltu'r brifysgol, consortia rhanbarthol, ysgolion a'r myfyriwr. Bydd gennych rôl hanfodol yn y gwaith o ddatblygu'r darpar athrawon rydych yn gyfrifol amdanynt ac wrth gefnogi'r Mentor yn datblygu ei rôl yn yr ysgol. Bydd gan Diwtoriaid Ymarfer brofiadau a chyfrifoldebau amrywiol iawn oherwydd bydd pob myfyriwr a chydberthynas rhwng myfyriwr a Mentor yn amrywio. Bydd angen i chi ddefnyddio ystod eang o wybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol er mwyn atgyfnerthu'r broses o ddatblygu pob darpar athro yn eich gofal a'r aelodau o staff sy'n eu cefnogi. Fel ymarferydd rhagorol, byddwch hefyd yn weithiwr proffesiynol sy'n datblygu, sy'n agored i wella sgiliau ymhellach, ac mae'n siŵr y byddwch wrthi'n paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eich gyrfa a'ch rôl. Bydd y profiadau a gewch fel Tiwtor Ymarfer yn sicr yn eich helpu i ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau. Fel Tiwtor Ymarfer, byddwch hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr eraill a thrwy hynny yn cyfrannu at eu twf proffesiynol ac felly at ddatblygiad cyffredinol yr ysgol.

Mae'r dulliau a amlinellir yn y canllaw hwn a'r adnoddau cysylltiedig wedi'u cynllunio i gefnogi tiwtoriaid ymarfer i ddefnyddio addysgeg addysg athrawon effeithiol.

# Eich rôl fel Tiwtor Ymarfer

Mae'r Tiwtor Ymarfer yn ymarferydd profiadol o ansawdd uchel cyflogwyd yn uniongyrchol gan y Brifysgol Agored. Mae rôl y Tiwtor Ymarfer yn debyg mewn rhai ffyrdd i diwtor y Brifysgol ar raglen wyneb yn wyneb yn yr ystyr bod y rôl hon yn dod â chyfuniad o ddysgu trwy brofiad ac yn helpu'r myfyriwr i gysylltu damcaniaeth ac ymarfer. Maent yn cynnal pedwar ymweliad rhithiol â phob myfyriwr yn eu clwstwr ar draws dwy flynedd y rhaglen. Mae'r Tiwtor Ymarfer yn cynnal asesiad o fyfyrwyr mewn perthynas â disgfrifwyr SAC o'r Safonau Proffesiynol. Maent yn rhan hanfodol o'r gadwyn gyfathrebu rhwng myfyrwyr, Mentoriaid a'r tiwtoriaid cwricwlwm yn y Brifysgol. Mae tiwtoriaid ymarfer yn darparu cefnogaeth ac ymyrraeth ychwanegol yn unol â'r Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr. Yn ogystal, mae tiwtoriaid ymarfer yn cefnogi datblygu Mentora effeithiol o ansawdd uchel trwy sesiynau hyfforddi gyda Mentoriaid yn ystod eu hymweliadau.

Mae nifer o elfennau i'r rôl, sy'n cynnwys:

- Mentora, hyfforddi ac arwain darpar athrawon i gefnogi eu cynnydd tuag at fodloni disgfrifwyr SAC o'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, gan gynnwys darparu cefnogaeth ac ymyrraeth ychwanegol lle nodir hynny.

- Hyfforddi Mentoriaid ar draws ysgolion a darparu cefnogaeth ar gyfer Mentora effeithiol.
- Asesu'r darpar athro mewn perthynas â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.
- Goruchwylio a sicrhau ansawdd asesu profiad ymarfer dysgu darpar athrawon.
- Rhannu arfer gorau o fewn rhwydwaith y Tiwtoriaid Ymarfer, ar draws ysgolion Partneriaeth a thu hwnt.

Er mwyn cyflawni elfennau allweddol o'r rôl, rydych chi'n debygol o ymgymryd â nifer o gyfrifoldebau penodol. Bydd angen i Diwtoriaid Ymarfer :

- Arsylwi ymarfer darpar athrawon ddwywaith ym mlwyddyn 1 a dwywaith ym mlwyddyn 2 fel rhan o'r asesiad o gynnydd tuag at Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth, a darparu adborth crynodol ar gynnydd y darpar athro.
- Adolygu cynnydd yr darpar athro tuag at fodloni'r Safonau Addysgu a thystiolaeth ymarfer dysgu mewn perthynas â SAC sydd wedi'i storio yn ei e-bortffolio.
- Darparu arsylwi/ymyrraeth ychwanegol os oes angen yn unol â'r Fframwaith Cefnogi Myfyrwyr.
- Darparu adborth ffurfiannol i'r darpar athro sy'n cefnogi, herio ac yn arwain hi/fe i fyfyrio'n feirniadol ar ei gynnydd fel ymarferwr.
- Cynhyrchu adroddiad ysgrifenedig trwy e-bortffolio'r darpar athro ddwywaith bob modiwl.

- Cwrdd â Mentoriaid ysgol i ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant ar gyfer Mentora darpar athrawon yn effeithiol.
- Cefnogi sicrwydd ansawdd yr asesiad o ymarfer dysgu trwy gymedroli barnau ar draws y Bartneriaeth a chymryd rhan mewn gweithgaredd safoni.
- Cyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio dulliau ar-lein i sefydlu a chynnal perthnasoedd gyda myfyrwyr a Mentoriaid yn eich clwstwr.
- Gwneud defnydd effeithiol o adnoddau'r bartneriaeth, gan gynnwys IRIS a gwefan y Bartneriaeth, gan gadw i fyny â gwybodaeth a chyfathrebiad rheolaidd.
- Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o weledigaeth Partneriaeth y Brifysgol Agored ar gyfer darpar athrawon a bod yn gyfarwydd â dulliau allweddol, yn ogystal â phrosesau angenrheidiol, fel yr amlinellir yn y Canllaw i Diwtoriaid Ymarfer.
- Ymgymryd â hyfforddiant a chymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol y Bartneriaeth i'ch cefnogi i gyflawni'ch rôl yn effeithiol.
- Rhannu arfer gorau o fewn y rhwydwaith Tiwtoriaid Ymarfer ar lefel clwstwr, yn ogystal ag ar draws ysgolion partner ledled Cymru.
- Gweithio gyda'r Bartneriaeth i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu mewn darpariaeth rhaglen sy'n ymwneud ag ymarfer darpar athrawon a Mentora effeithiol.

Wedi cael ei ddewis i gyflawni'r rôl hon, disgwylir y Tiwtor Ymarfer yn gallu dangos ystod o sgiliau a phrofiad er mwyn eich cefnogi chi i gyflawni'r rôl. Mae'r sgiliau a'r profiad a ystyrir isod:

**Hanfodol**

- Athro cymwys, profiadol yn y cyfnod Cynradd neu Uwchradd sy'n dal SAC
- Profiad ymarferydd o ansawdd uchel cyfredol neu ddiweddar (3 -5 mlynedd) gyda dealltwriaeth ddiogel o addysgeg effeithiol a chyd-destun ysgol Gymraeg Cymhwyster ôl-raddedig (ee Meistr) mewn pwnc sy'n canolbwyntio ar addysg neu brofiad uwch cymesur
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion Addysg Gychwynnol Athrawon (gan gynnwys diwygio AGA yng Nghymru) a dealltwriaeth o sut mae oedolion yn dysgu
- Gwybodaeth a dealltwriaeth amlwg o Gwricwlwm Cymru a sut i gynorthwyo darpar athrawon i ddatblygu dull cyfannol, pwrpasol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'r gallu i gymhwyso integreiddio theori i'ch ymarfer eich hun
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o gymhwyso Safonau Proffesiynol Cymru ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth
- Profiad o fentora myfyrwyr AGA a dealltwriaeth gref o egwyddorion Mentora a hyfforddi effeithiol
- Sgiliau cyfathrebu da, yn gallu gwrando a gyda'r gallu i ddarparu adborth effeithiol i gydweithwyr ar wahanol gamau o'r continwwm dysgu proffesiynol
- Y gallu i ymgysylltu ag ystod o offer dysgu o bell i gefnogi ac asesu'r darpar-athro a Mentoriaid yn effeithiol

**Dymunol**

- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar ffurf lafar ac ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg (dymunol iawn) Profiad uwch arweinydd mewn lleoliad ysgol

- Y gallu neu'r potensial i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n agos at ymarfer ac i gefnogi'r Bartneriaeth AGA i hyrwyddo a datblygu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a thrwy gymryd rhan mewn gweithgaredd ymchwil ac ysgolheictod i hyrwyddo addysgu a dysgu effeithiol.

## Gweledigaeth Partneriaeth Y Brifysgol Agored ar gyfer addysg effeithiol i athrawon

Mae gweledigaeth partneriaeth Y Brifysgol Agored o addysg effeithiol i athrawon yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

1. Mae'r myfyrwyr yn cyd-adeiladu eu gwybodaeth broffesiynol mewn dwy ffordd sy'n cynnig y dysgu mwyaf effeithiol pan fyddant yn rhyngblethu. Maent yn dysgu drwy:

- astudio'r deunyddiau ar-lein ac ymarfer proffesiynol mewn modd adfyfyriol a chysylltiedig mewn ysgol lle gallant archwilio'r syniadau damcaniaethol a gymhwysir at ymarfer a chymhwyso ymarfer at astudio syniadau damcaniaethol.
- rhyngweithio rhwng y myfyriwr a'r staff proffesiynol sy'n ei gefnogi, ei Fentor ac aelodau eraill o staff mewn ysgolion, ei diwtor cwricwlwm, cyd-fyfyrwyr a thiwtor ymarfer; a thrwy eu rhyngweithio parhaus â disgyblion. Mae pob aelod o'r gymuned gefnogol hon yn cynnig safbwynt gwahanol sy'n defnyddio ffurfiau gwahanol o dystiolaeth a dealltwriaeth.

2. Mae dysgu'r darpar athro yn broses gymhleth ac unigryw a gaiff ei datblygu gan y gymuned rydych yn gweithio ynddi, yn cynnwys y gymuned ar-lein.
3. Wrth weithio gydag darpar athrawon, bydd y gymuned ei hun hefyd yn dysgu ac yn datblygu.

Mae gwaith y myfyriwr a'i Fentor yn canolbwyntio ar gynllunio ac addysgu gwersi gan roi ystyriaeth fanwl i ddysgu o safbwynt y disgyblion. Yn ein rhaglen, caiff hyn hefyd ei gefnogi a'i atgyfnerthu gan y deunyddiau astudio, Mentoriaid, aelodau eraill o staff yn yr ysgol, tiwtoriaid ymarfer a thiwtoriaid cwricwlwm. Dylid meithrin dysgu a datblygiad proffesiynol myfyrwyr er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu'n llwyddiannus drwy'r cwrs, er enghraifft: dylid adeiladu'n raddol at addysgu gwersi unigol ym Mlwyddyn 1 (TAR 1 a 2) a dim ond pan fydd y myfyriwr yn barod yn TAR 3 y dylai addysgu yn ymreolaethol. Caiff gwydnwch a hunaneffeithlonrwydd eu meithrin drwy brofiad llwyddiannus a gefnogir.

Caiff y 'sylfaen gwybodaeth' ar gyfer addysgu ei adeiladu drwy ymarfer, wedi'i ategu gan wybodaeth o ddamcaniaeth berthnasol, a phroses o archwilio gwybodaeth ar waith a gwybodaeth am ymarfer gyda Mentoriaid ac aelodau eraill o staff sy'n cefnogi'r myfyriwr. Bydd y myfyriwr yn dod yn rhan o 'gymunedau ymarfer' yn ei leoliadau ysgol, a'r tu allan iddynt, a lunnir gan y gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi eu datblygiad a chan y garfan o fyfyrwyr. Bydd y cymunedau hyn yn cynnal dysgu proffesiynol y myfyriwr gan ei alluogi i gysylltu damcaniaeth ac ymarfer, gan ddyfnhau ei ddealltwriaeth ei hun a datblygu ei ymarfer proffesiynol. Mae cydweithredu ac adfyfyrio yn elfennau allweddol o'r gymuned ymarfer sy'n gorfod cael eu ffurfio o amgylch y myfyriwr.

Mae gwybodaeth athrawon am y pwnc yn dylanwadu ar y ffordd maent yn ei addysgu, ac mae athrawon sy'n gwybod mwy am Faes Dysgu a Phrofiad yn debygol o fod yn fwy anturus yn eu strategaethau addysgegol ac, o ganlyniad, yn fwy effeithiol. Mae Mentoriaid a thiwtoriaid cwricwlwm yn chwarae rôl yn ehangu gwybodaeth y myfyriwr am y pwnc yn ystod y cwrs. Caiff targedau a nodir ar Gynllun Dysgu Unigol y myfyriwr eu hadolygu'n rheolaidd a chaiff myfyrwyr eu cyfeirio at adnoddau i gefnogi'r broses o feithrin eu gwybodaeth am y pwnc fel sy'n briodol. Caiff myfyrwyr cynradd eu harchwilio ym MDPhau Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu a Mathemateg a rhifedd.

Cydnabyddir bod addysgeg yn brif elfen yn y pum maes Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Mae addysgu yn cynnwys gwybod am ffyrdd o gynrychioli a llunio agweddau ar y MDPh fel bod dysgwyr yn ymgysylltu ac yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth. Mae 'gwybodaeth addysgegol' yn awgrymu dull creadigol iawn o addysgu a dysgu, gwerthfawrogiad o sut i ennyn diddordeb dysgwyr mewn gwersi wedi'i ysgogi gan ddealltwriaeth o'r ffordd y mae plant yn dysgu. Mae'r her sy'n cynyddu'n raddol yn y rhaglen wrth iddi symud ar draws dwy flynedd yn galluogi pawb sy'n cymryd rhan i fynd i'r afael â gwybodaeth broffesiynol allweddol gyda dyfnder cynyddol.

Mae pob ysgol yn sefydliad dysgu – cymunedau proffesiynol â'u hethos nodedig eu hunain a'u dull o ymarfer – ac mae'n bwysig i ddarpar athro ddeall nodweddion unigryw pob ysgol y maent yn ei mynychu yn ystod eu hymarfer dysgu. Drwy ryngweithio o fewn dwy ysgol byddant yn cael profiadau ymarfer dysgu ynddynt, bydd y myfyriwr yn dysgu i ddefnyddio gwybodaeth am y pwnc a gwybodaeth addysgegol mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y disgybl a'r ffordd

mae'n dysgu, a'r ffordd y mae'r disgyblion yn dysgu yn y cyd-destun cymdeithasol penodol hwnnw a thu hwnt i hynny. 'Gwybodaeth am yr ysgol' yw hyn. Mae'n rhaid i'r cwricwlwm ym mhob MDPh gael ei newid, ei addasu a'i ailstrwythuro er mwyn gallu ei addysgu i ddisgyblion a sicrhau ei fod yn hygyrch iddynt. Drwy wybodaeth am y plentyn a'i anghenion a thrwy eu gwaith gyda MDPh i'w wneud yn hygyrch i ddysgwyr, mae darpar athrawon yn datblygu math penodol o wybodaeth e.e. 'mathemateg ysgolion' neu 'hanes ysgolion'. Caiff y ddealltwriaeth hon o agweddau ar bob MDPh, a'r gydberthynas â 'phedwar diben' y cwricwlwm yng Nghymru, ei datblygu gan y gwaith â'r Mentor ac eraill yn ystod y profiad ymarfer dysgu, drwy astudio ar-lein a thrwy seminarau ar-lein.

Mae'n rhaid i'r darpar athro ddatblygu ei hunaniaeth ei hun fel athro sy'n adlewyrchu ei werthoedd ei hun. Ni fydd yn efelychu ei Fentor. Mae hon yn broses ddynamig o ddysgu'r agweddau gwahanol ar wybodaeth broffesiynol a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gwybodaeth flaenorol, eu profiadau nhw o ddysgu, eu safbwynt personol ynghylch beth yw addysgu 'da' a chred ynghylch beth yw dibenion y MDPh a pham y cânt eu haddysgu. Yn ystod ei ddwy flynedd ar y cwrs TAR, rhaid i'r darpar athro ddarganfod, mynegi, profi ac ailbrofi ei strwythur addysgu personol wrth iddo symud drwy gamau'r rhaglen a chael profiad. Mae hunaniaeth athro yn parhau i newid drwy gydol ei yrfa wrth iddo ymateb i arloesedd o ran addysgu a datblygiadau i'r cwricwlwm, ond gofynnir i darpar athro wynebu anghytgord gwybyddol bron bob dydd. Gall y ffaith y bydd yn cael ei gwestiynu'n barhaus am ei gredoau personol ynghylch yr hyn mae'n ei addysgu a'r ffordd mae'n addysgu ysgogi ymateb emosiynol y bydd angen iddo ymdrin ag ef gyda'i Fentor.

Yn gryno, yng ngweledigaeth Partneriaeth Y Brifysgol Agored, mae'r darpar athro yn dysgu drwy:

- gefnogaeth a her, mae dysgu yn cael ei ystyried yn gymunedau ymarfer yr ymunir â hwy, lle mae eu hunaniaeth unigol fel athro yn addas ac yn cael ei gynnal;
- dechrau'n araf, sy'n meithrin gwydnwch a hunaneffeithlonrwydd drwy brofiad llwyddiannus ac sy'n annog agwedd adfyfyriol;
- deall sut mae damcaniaeth yn llywio ymarfer a sut mae ymarfer yn llywio damcaniaeth;
- dysgu sut mae dysgu yn datblygu drwy arsylwi a rhoi hyn ar waith mewn ystafelloedd dosbarth;
- meithrin cydberthnasau dysgu da drwy'r gydberthynas rhwng y Mentor a'r myfyriwr ac arsylwi ar y cydberthnasau hynny a'u rhoi ar waith yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan.

# Diben a strwythur y deunyddiau canllaw

Mae saith diben allweddol i'r canllaw hwn a'r adnoddau cysylltiedig:

1. rhoi trosolwg o strwythur y ddarpariaeth ran amser a'r ddarpariaeth gyflogedig ar gyfer addysg athrawon;
2. nodi gwybodaeth allweddol sy'n ofynnol gan Diwtoriaid Ymarfer ar gyfer cefnogi myfyrwyr;

3. rhoi cyfle i Diwtoriaid Ymarfer  archwilio eu hanghenion datblygu, adfyfyrio arnynt a'u datblygu mewn perthynas â sgiliau Mentora a hyfforddi ac addysgeg addysg athrawon;
4. egluro'r fframwaith cysyniadol sy'n sail i strwythur y cwrs;
5. nodi'r elfennau allweddol sy'n rhoi enghreifftiau o ymarfer hyfforddi effeithiol a'r cysylltiadau â dysgu proffesiynol;
6. cyfeirio at adnoddau perthnasol a all helpu cydweithwyr mewn ysgolion i gefnogi myfyrwyr drwy'r cwrs TAR;
7. cyfeirio at adnoddau ychwanegol a all helpu i feithrin sgiliau proffesiynol ymhellach ar gyfer tiwtoriaid ymarfer, Mentoriaid a myfyrwyr.

Bwriedir iddynt gael eu defnyddio gennych:

- chi, fel Tiwtor Ymarfer

Bydd hefyd yn berthnasol i:

- Eich Tiwtor Ymarfer Arweiniol
- Gydlynwyr ysgolion
- Tiwtoriaid Cwricwlwm
- Cydlynwyr yr Iaith Gymraeg
- Consortia Rhanbarthol

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i fod yn hawdd ei ddefnyddio a cheir dolenni drwyddi draw sy'n rhoi mynediad i adrannau, dogfennau ac adnoddau perthnasol. Gellir ei lawrlwytho a'i argraffu er mwyn gallu cyfeirio'n rhwydd ato. Mae pob adnodd arall ar gael ar-lein a gellir ei lawrlwytho fel sy'n ofynnol. Ceir crynodeb o dermau yn Atodiad 1.

# Trosolwg o'r rhaglenni

## Y ddau lwybr tuag at TAR

Ar ôl graddio, bydd myfyrwyr ar y cwrs hwn yn ennill 'Statws Athro Cymwysedig' (SAC) ynghyd â Thystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg Cynradd neu Uwchradd gyda 60 credyd ar lefel Israddedig a 60 credyd ar lefel Meistr.

Mae dau lwybr ar gael: rhan amser neu gyflogedig. Nod y ddau lwybr mewn i addysgu yw cynnig opsiwn amgen i ddarpariaeth TAR amser llawn traddodiadol sy'n para blwyddyn. Mae'r ddau lwybr wedi'u cynllunio i alluogi darpar athrawon i barhau â'u hymrwymiadau personol i ryw raddau wrth astudio i fod yn athro, yn cynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ac incwm. Nodwch fod rhywfaint o addysgu amser llawn yn orfodol yn ystod TAR 3 (Blwyddyn 2).

Bydd y rhaglen hon sy'n hollol ddwyieithog yn galluogi myfyrwyr i ymgymryd â lleoliadau ymarfer dysgu yn eu cymuned leol. Caiff profiad o'r fath ei ategu gan ddamcaniaeth ac ymchwil ac mae disgwyliad y bydd myfyrwyr yn rhyngweithio â darlithwyr a chyd-fyfyrwyr drwy sesiynau ar-lein.

Caiff pob myfyriwr ei gefnogi'n uniongyrchol gan **Fentor** ym mhob ysgol, **Cydlynydd Ysgol, Tiwtor Ymarfer, Tiwtor Cwricwlwm** a **Chydlynydd y Gymraeg**. Bydd pob un o'r rolau hyn yn gweithredu mewn modd cydweithredol er mwyn hwyluso cynnydd myfyrwyr tuag at gyflawni'r Safonau Proffesiynol.

- Mae'r Mentor yn aelod profiadol iawn o staff a fydd, ynghyd â chydlynydd yr ysgol, yn datblygu amserlen ymarfer dysgu a bod yn gyfrifol am gefnogi pob darpar athro unigol o ddydd i ddydd, gan

gynllunio ac arsylwi ar y cyd a rhoi cymorth drwy sesiynau Mentor rheolaidd.

- Bydd Cydlynydd Ysgol yn uwch aelod o staff a fydd yn cefnogi gwaith y Mentor, yn cynnal o leiaf dau arsylwad y flwyddyn ac yn rhan o'r cydgysylltu rhwng y Mentor, y Tiwtor Ymarfer a'r Tiwtor Cwricwlwm.
- Bydd y Tiwtor Ymarfer yn arsylwi ar addysgu'r myfyriwr gan ddefnyddio technoleg IRIS bedair gwaith ar draws dwy flynedd y cwrs (dwywaith yn ystod Blwyddyn 1 (TAR 1 a 2) a dwywaith yn ystod Blwyddyn 2 (TAR 3).
- Cyflogir y Tiwtor Cwricwlwm gan Y Brifysgol Agored. Mae'n cynnal seminarau ar-lein ar gyfer myfyrwyr yn eu pwnc neu mewn grwpiau tiwtor ar gyfer y llwybr Cynradd. Mae'n gyfrifol am asesu aseiniadau ysgrifenedig myfyrwyr ac am sicrhau eu bod wedi'u cwblhau'n llwyddiannus ar ddiwedd pob modiwl.
- Bydd Cydlynydd y Gymraeg yn cefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau a hyder Iaith Gymraeg yn unol â'r Archwiliad Sgiliau Cymraeg. Bydd yn helpu'r myfyrwyr a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder eu hunain a sgiliau a hyder eu disgyblion.

Gan weithio mewn partneriaeth, bydd academyddion/staff Y Brifysgol Agored a chydweithwyr mewn ysgolion fel y nodir uchod yn helpu'r myfyrwyr i astudio'r cymhwyster drwy nifer o elfennau (gweler ffigur 1):




**Ffig. 1** Elfennau'r cwrs

Fel y gwelir o drosolwg y cwrs, mae'r cwrs yn ddatblygol wrth i fyfyrwyr symud o Ymgyfarwyddo i Atgyfnerthu (ym Mlwyddyn 1) ac yn olaf i Ymreolaeth (ym Mlwyddyn 2). Mae gan y patrwm hwn oblygiadau i'r myfyrwyr, Mentoriaid a Thiwtoriaid Ymarfer.




**Ffig. 2** Trosolwg o strwythur y cwrs ar gyfer y ddau lwybr

## Elfennau'r cwrs

Caiff gwybodaeth am y pwnc, hyfedredd yn y Gymraeg ynghyd â Chymhwysedd Digidol eu harchwilio ar ddechrau'r cwrs gan y myfyriwr a chaiff Cynllun Dysgu Unigol ei ddatblygu gyda help y Mentor a'r Tiwtor Cwricwlwm. Cyflwynir archwiliadau llythrennedd a rhifedd ar gyfer y darpar athrawon sydd ar y llwybr uwchradd. Caiff cynnydd ei fonitro a'i asesu gan Fentoriaid ochr yn ochr â'r Tiwtor Ymarfer, Cydlynydd Ysgol, Cydlynydd y Gymraeg a'r Tiwtor Cwricwlwm.

Caiff sgiliau Cymraeg eu hasesu yn erbyn chwe lefel cymhwysedd. Yn ystod y cwrs, disgwylir i'r myfyriwr ddatblygu ei allu i gyfathrebu yn Gymraeg, ni waeth beth fo'i lefel gychwynnol.

Mae'r TAR yn defnyddio adnodd PDP y CGA i gofnodi tystiolaeth ac adfyfyrio yn erbyn y Safonau Proffesiynol. Gall myfyrwyr ddewis rhannu dolen â hyn gyda'u Tiwtor Ymarfer (mae'r Llyfr Gwaith Safonau o ddiddordeb arbennig ac yn

berthnasol i'r rôl Tiwtor Ymarfer) ond gallwch ofyn i'ch myfyriwr eich arwain drwy ei Llyfr Gwaith Safonau pan fyddwch yn cwrdd â nhw ar-lein. Yn ogystal â'r PDP, disgwylir i fyfyrwyr sefydlu Ffolder Addysgu Personol lle byddant yn storio mwy o dystiolaeth o ddydd i ddydd.

Bydd dolen i hyn yn cael ei rhannu gyda'r Tiwtor Ymarfer gan y myfyriwr.

## Deunyddiau Ar-lein

Rhaglen astudio integredig yw'r deunyddiau ar-lein sy'n cyfuno astudiaethau craidd a gwybodaeth broffesiynol ac addysgegol yn chwe llinyn datblygiad darpar athrawon. Un o nodweddion pwysig y cwrs hwn yw yr ystyrir bod astudiaethau proffesiynol wedi'u hintegreiddio'n llwyr ag astudiaethau craidd. Felly, nid oes disgwyliad y bydd sesiynau wedi'u haddysgu yn yr ysgol. Yn hytrach, bydd Mentoriaid a chydlynwyr ysgol, gyda chefnogaeth tiwtoriaid ymarfer, yn helpu'r myfyriwr i gwblhau gweithgareddau ymarfer dysgu.

Ar gyfer astudio rhan amser, bydd myfyrwyr yn cwblhau eu hastudiaeth ofynnol ar gyfer pob modiwl **cyn** ymgymryd â'r tasgau ymarfer dysgu ar gyfer y modiwl hwnnw. Fodd bynnag, rydym yn argymell yn gryf i bob myfyriwr rhan amser dreulio cyfnod o bum niwrnod mewn ysgolion cyn dechrau ar y rhaglen TAR er mwyn ei helpu i gyd-destunoli ei astudiaethau. Ar gyfer myfyrwyr cyflogedig, rhaid neilltuo amser fel rhan o'u hamserlen wythnosol ar gyfer astudio modiwl. Mae hyn yn amrywio rhwng hanner i ddiwrnod llawn o amser astudio ar-lein.

# Ymarfer dysgu ac addysgu

Mae ymarfer dysgu yn ddatblygol ac yn cysylltu addysgu a datblygiad proffesiynol myfyrwyr â'u hastudiaethau modiwl ar-lein. Caiff ei gefnogi gan y 'Canllaw Ymarfer Dysgu' sy'n cynnwys y gofynion addysgu a'r gweithgareddau i gael eu cynnal yn yr ysgol. Drwy gymryd rhan yn y gweithgareddau, caiff y myfyrwyr gyfleoedd i lunio'r cysyniadau a'r theorïau a astudiwyd ganddynt yn y deunyddiau er mwyn deall sut maent yn *cymhwyso yn ymarferol* yn yr ysgol – gan gysylltu â'r fframwaith cysyniadol. Pan fyddwch yn cynnal eich ymweliad rhithwir, bydd myfyrwyr am drafod rhai o'r gweithgareddau â chi. Mae rhagor o fanylion am natur yr addysgu a wneir ar bob lefel i'w gweld yn adran 'Disgwyliadau Ymarfer Dysgu' yn y Canllaw Ymarfer Dysgu sydd i'w weld yn wefan y Bartneriaeth.

Bydd myfyrwyr rhan amser yn ymgymryd ag ymarfer dysgu mewn dwy ysgol wahanol.

Bydd myfyrwyr cyflogedig yn cael profiad mewn ail ysgol mewn ffordd sy'n gweithio i'r ddwy ysgol dan sylw. Mae'r ail gyfnod hwn o ymarfer dysgu'n para o leiaf chwe wythnos sy'n digwydd ar ôl hanner tymor yn nhymor yr Haf ym Mlwyddyn 1.

## Llwybr rhan-amser

Caiff ymarfer dysgu ei wneud am o leiaf dri diwrnod yr wythnos ym Mlwyddyn 1 (TAR 1 a 2), gyda'r myfyriwr yn cwblhau 60 diwrnod o ymarfer dysgu. Ym Mlwyddyn 2 (TAR 3), mae myfyrwyr yn cwblhau 60 diwrnod arall o ymarfer dysgu,

gyda’r disgwyliad bod o leiaf 30 diwrnod o'r profiad ymarfer dysgu ei ymgymryd mewn bloc parhaus, amser llawn.

### Llwybr cyflogedig

Dylai amserlen y myfyrwyr gynyddu'n raddol gyda'r myfyrwyr yn ymgymryd â mwy o ddosbarthiadau/addysgu drwy gydol Blwyddyn 1. Ym Mlwyddyn 2, bydd myfyrwyr yn adeiladu hyd at uchafswm o 70% o ymrwymiad ar yr amserlen. *Rhaid* ymgorffori amser astudio wedi'i neilltuo yn amserlenni myfyrwyr. 3 Eich rôl fel Tiwtor Ymarfer

# Trosolwg o'r rôl a'r cyfrifoldebau allweddol

Neilltuir Tiwtor Ymarfer ar gyfer pob myfyriwr. Rydych yn aelodau o staff yr ysgol sydd ag arbenigedd mewn addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Byddwch yn ymgymryd â chyfres o ymweliadau rhithiol â thua 4 myfyriwr. Mae'r rôl hon yn debyg i rôl tiwtor prifysgol ar raglen wyneb yn wyneb. Mae gennych brofiad yn arsylwi ac yn addysgu mewn cyd-destunau gwahanol a'ch rôl yw cefnogi'r myfyriwr a'r Mentor i gysylltu damcaniaeth ac ymarfer, a deall y 'darlun mawr'. Nid oes gofyniad arnoch i addysgu o fewn yr un Maes Dysgu a Phrofiad â'r myfyrwyr rydych yn eu tiwtora.

Byddwch yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, yn cynnwys:

- cynnal pedwar arsylwad o wersi ar y cyd ynghyd â'r Mentor/Cydlynydd Ysgol dros y rhaglen dwy flynedd;

- rhoi adborth adeiladol i'r darpar athro a'r aelodau o staff sy'n ei gefnogi;
- sicrhau deialog feirniadol, adfyfyriol â rhanddeiliaid eraill;
- cwblhau adroddiadau gwerthuso ar ôl cynnal arsylwadau o wersi ac ymweliadau rhithiol;
- cyfrannu at asesiad terfynol y myfyrwyr ar bob modiwl mewn perthynas â chyflawni'r safonau SAC;
- cyfrannu at sicrhau ansawdd ymarfer dysgu yn gyffredinol.

Fel ymarferwyr ardderchog eich hun, byddwch yn ymgymryd ag arsylwad wers eich myfyriwr. Yna, ceir deialog strwythuredig, adfyfyriol â'r myfyriwr a'r Mentor neu/a’r Cydlynydd Ysgol am gynnydd y myfyriwr. Mae'r bartneriaeth yn ystyried bod y dull cydweithredol hwn o arsylwi ar fyfyrwyr ar y cyd a'r ddeialog feirniadol ac adfyfyriol rhwng y Tiwtor Ymarfer a'r Mentor/Cydlynydd Ysgol yn gyfle dysgu proffesiynol i'r ddau unigolyn. Mae pob un yn aelodau o staff ysgol a all fod o ysgolion gwahanol, sy'n golygu y gellir rhannu arferion gorau a chyfnewid syniadau ynghylch datblygu AGA. Mae ystyried bod y rôl yn fath o hyfforddi’n ffordd ddefnyddiol o ddeall y gwahaniaeth rhwng swyddogaethau'r Mentor a'r Tiwtor Ymarfer (gweler Atodiad 2).

Mae hefyd gennych rôl allweddol i'w chwarae yn asesiad terfynol y myfyriwr mewn perthynas â chyflawni disgrifyddion SAC y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Mae mwy o wybodaeth yn Adran 4. Rydych yn rhan hanfodol o'r gadwyn gyfathrebu rhwng myfyrwyr, Mentoriaid a Thiwtoriaid Cwricwlwm. Os bydd myfyriwr yn cael anawsterau mewn perthynas â bodloni gofynion y rhaglen, neu o ran ei gydberthnasau yn yr ysgol, byddwch chi, drwy

gysylltu (ar-lein) â'r Tiwtor Cwricwlwm, yn cefnogi'r myfyriwr drwy'r Fframwaith Cymorth Myfyrwyr (gweler Adran 5).

# Rôl Tiwtor Ymarfer Arweiniol

Mae pob Tiwtor Ymarfer yn cael ei neilltuo i grŵp bach neu glwstwr o Diwtoriaid Ymarfer , dan arweiniad Tiwtor Ymarfer Arweiniol. Mae'r Tiwtor Ymarfer Arweiniol yn aelod staff profiadol ac uwch yn un o'n Ysgolion Partner Arweiniol. Mae eich PT Arweiniol yn gyfrifol am:

- Arwain ar y trefniadau asesu dysgu ymarfer ar gyfer darpar athrawon yn eu clwstwr
- Darparu goruchwyliaeth ac yn sicrhau ansawdd asesiad o brofiad ymarfer dysgu'r darpar athrawon mewn perthynas â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth
- Mewn partneriaeth ag arweinwyr academaidd y Brifysgol Agored i arwain clwstwr o Diwtoriaid Ymarfer
- Rhannu arfer gorau o fewn y rhwydwaith Tiwtor Ymarfer, ar draws ysgolion Partneriaeth a thu hwnt

Gallwch ddisgwyl cwrdd â'ch Tiwtor Ymarfer Arweiniol yn ein digwyddiad sefydlu a digwyddiadau datblygu proffesiynol dilynol ar draws y flwyddyn. Byddant hefyd yn darparu arweiniad a chefnogaeth i chi drwy e-bost a'r ffôn.

## Sut beth yw bod yn Diwtor Ymarfer?

Bydd pob Tiwtor Ymarfer yn rhan o glwstwr dan arweiniad Tiwtor Ymarfer Arweiniol o un o'n Ysgolion Partner Arweiniol.

Bydd tiwtoriaid ymarfer yn ymweld â phob darpar athro bedair gwaith dros gyfnod y rhaglen.

Fel Tiwtor Ymarfer yn cefnogi myfyrwyr ar y llwybrau Brifysgol Agored, byddwch yn cael hyfforddiant a fydd yn eich helpu i wella eich ymarfer eich hun ac yn cefnogi eich rôl fel athro, addysgwr a hyfforddwr. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys digwyddiad sefydlu yn ogystal â sesiynau ar-lein â'r staff TAR a’ch Tiwtor Ymarfer Arweiniol yn ystod y rhaglen.

## Datblygu fel Tiwtor Ymarfer

Fel Tiwtor Ymarfer, disgwylir i chi ystyried ffyrdd y gallwch ddatblygu eich sgiliau a'ch dysgu proffesiynol eich hun. Fel rhan o'r broses hon, rydym wedi cynnwys archwiliad o sgiliau Tiwtoriaid Ymarfer (Atodiad 3) y gellir ei ddefnyddio i nodi'r sgiliau sydd gennych ar hyn o bryd ac amlygu unrhyw anghenion o ran hyfforddiant a'r adnoddau hynny y gallech eu defnyddio i feithrin sgiliau ymhellach.

Er mwyn eich galluogi i ymgymryd yn effeithiol ag agweddau gwahanol ar eich rôl, gallwch ddefnyddio rhaglen OpenLearn o fodiwlau ar-lein sy'n hyblyg ac yn rhad ac am ddim. Ceir manylion cyrsiau am ddim a allai fod yn ddefnyddiol i chi yn Atodiad 4. Byddwch yn cael Tystysgrif Cwblhau ar ddiwedd pob modiwl dysgu ar-lein y gallwch ei chwblhau a gallwch ei defnyddio wedyn i gefnogi eich tystiolaeth ar gyfer datblygu ymarfer effeithiol yn barhaus o fewn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ar gyfer eich Pasbort Dysgu Proffesiynol. Mae manylion y graddau ymchwil a gynigir gan Y Brifysgol Agored i'w gweld yn Atodiad 5.

Bydd y cyrsiau hyn yn eich helpu i ddeall y prif wahaniaethau rhwng unrhyw brofiadau blaenorol fel Mentor, â'ch rôl fel Tiwtor Ymarfer, ond maent hefyd yn bwysig i'ch helpu i ddatblygu eich rôl fel hyfforddwr i'r Mentoriaid rydych chi'n gweithio gyda nhw.

## Ymweliadau rhithiol Tiwtoriaid Ymarfer

Y rhan fwyaf gweledol o rôl y Tiwtor Ymarfer yw eich ymweliad rhithiol â'r myfyrwyr er mwyn arsylwi arnynt yn addysgu. Mae'n rhaid i'r myfyriwr gael cyfle i feithrin ei ddysgu proffesiynol drwy'r cwrs a dylid dwyn yr agweddau gwahanol sy'n cyfrannu at hyn ynghyd yn y cyfarfod deialog broffesiynol ar ôl arsylwi'r wers a chynnal y sesiwn adborth. Dylid cynnal y cyfarfod hwn o fewn cyfnod o amser wedi'i neilltuo.

An important aspect when engaging in discussion is the need to listen – encouraging the student to lead any evaluation and use questioning as a prompt for further critical reflection by the student (Estyn, 2018).

Er mwyn cynnal ymweliadau rhithiol effeithiol fel Tiwtor Ymarfer, bydd angen i chi wneud y canlynol:

- arsylwi ar ffilm o addysgu'r myfyriwr mae'r Mentor/Cydlynydd Ysgol wedi'i arsylwi ac yna gynnal sesiwn adborth ac adolygu ffurfiol;
- ymgymryd â deialog feirniadol ac adfyfyriol â'r Mentor, yn yr un modd ag hyfforddwr.
- ymgymryd â deialog feirniadol ac adfyfyriol â'r myfyriwr;
- ymgymryd â deialog feirniadol ac adfyfyriol â chydlynydd yr ysgol;

- cwblhewch ffurflen adolygu ymarfer (ar gyfer eich ymweliad hanner ffordd drwy'r flwyddyn ysgol) neu adroddiad ymarfer dysgu (ar gyfer eich ymweliad ar ddiwedd y flwyddyn ysgol) ar gyfer y myfyriwr;
- cwblhau 'ffurflen monitro ymarfer dysgu' ar ôl pob ymweliad rhithiol, gan gadarnhau bod y myfyrwyr yn gallu manteisio ar y profiadau dysgu sydd eu hangen arnynt.

Caiff yr adroddiad adolygu ymarfer ac adroddiad ymarfer dysgu eu rhannu â'r myfyriwr, y Mentor, Cydlynydd Ysgol a'r Tiwtor Cwricwlwm. Pan fydd angen cymorth ac ymyrraeth ychwanegol ar fyfyriwr, gall fod angen i'r Tiwtor Ymarfer gynnal ymweliadau ychwanegol (gweler Adran 5).

Dylid dychwelyd y ffurflen monitro ymarfer dysgu i'r Brifysgol Agored yng Nghymru gan ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein yma https://forms.office.com/e/J9P46VTQab.

Ceir rhagor o fanylion ar gynnal yr ymweliad ymarfer yn Adran 6.

## Arsylwi'r darpar athro

Mae arsylwi yn elfen allweddol o ddatblygu dysgu proffesiynol a rhoi cyfleoedd i adfyfyrio'n feirniadol. Ymhellach, drwy arsylwi gwersi'r darpar athro, ceir tystiolaeth ar gyfer ei asesiad ffurfiannol a chrynodol.

Byddwch yn cynnal pedwar arsylwad ffurfiol dros gyfnod y rhaglen, yn defnyddio IRIS (ar-lein). Gallwch ddewis cofnodi eich sylwadau arsylwi yn uniongyrchol i IRIS neu efallai y byddai'n well gennych lawrlwytho templed arsylwi gwersi gwag o'n gwefan Partneriaeth.

Dylid defnyddio'r disgrifyddion SAC ar gyfer y safonau proffesiynol perthnasol wrth asesu'r arsylwadau hyn. Rhaid asesu'r broses o feithrin gallu'r myfyriwr yn y Gymraeg, ei ddefnydd o lythrennedd a rhifedd mewn gwersi a chymhwysedd digidol hefyd fel sy'n briodol yn erbyn ei archwiliadau a'i Gynllun Dysgu Unigol. Gellir gweld copi o'n Fframwaith Asesu Dysgu Ymarfer yn Atodiad 6.

## Tiwtor ymarfer fel hyfforddwr

Rydych yn rhan hanfodol o'r broses o sicrhau ansawdd sy'n rhoi sicrwydd i randdeiliaid bod dyfarniad SAC a TAR yn golygu bod myfyriwr wedi cyrraedd safonau cyffredin. Fodd bynnag, nid fel aseswr y caiff rôl y Tiwtor Ymarfer ar gyfer y llwybr hwn i TAR ei hystyried ond yn hytrach fel rhywun sy'n dangos esiampl ac sy'n lledaenu arferion da drwy ddeialog feirniadol â chyfranogwyr yn yr ysgol sy'n rhan o'r ymweliad adolygu ymarfer.

Er mwyn cyflawni'r rôl hon, fe'ch anogir i ystyried eich hun yn hyfforddwr. Mae hyfforddi'n 'broses strwythuredig, gyson ar gyfer galluogi datblygu agwedd benodol ar arfer dysgwr proffesiynol' (Bargen Newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gweithlu Addysg – Hyfforddi a Mentora 2015). Fel hyfforddwr, byddwch yn dangos esiampl o'r syniadau ynghylch hyfforddi effeithiol wrth i chi ryngweithio â Mentoriaid ac eraill yn eich ysgol. Drwy ystyried eich hun yn hyfforddwr, byddwch yn gallu cyflawni eich cyfrifoldeb o annog y broses o feithrin ymarfer hyfforddi o ansawdd uchel ymysg y Mentoriaid. Ceir rhagor o wybodaeth am rai o'r gwahaniaethau rhwng hyfforddwr a Mentor yn Atodiad 2.

Mae Atodiad 4 ac Atodiad 5 yn cynnwys manylion cyrsiau a fydd yn eich helpu i feithrin eich sgiliau hyfforddi.

## Helpu'r myfyriwr i gysylltu damcaniaeth ac ymarfer

Nod y rhan hon o'r canllaw yw rhoi cymorth adeiladol i chi i ehangu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ddamcaniaeth ac ymarfer ac i gefnogi ymholiad yn y gweithle. Mae dau brif gyfrwng yn y TAR sy'n gweithio'n benodol i gysylltu damcaniaeth ac ymarfer, er bod y TAR wedi'i gynllunio i ofyn i'r myfyriwr adfyfyrio ar unrhyw syniadau damcaniaethol a ddefnyddir yn ymarferol ac adfyfyrio ar y ffordd y mae ymarfer yn llywio damcaniaeth. Y cyntaf yw'r defnydd o broses Astudiaeth Gwers yn ystod Blwyddyn 1 (TAR 1 a 2) a'r ail yw'r gofyniad i gynnal proses astudio ar raddfa fach yn ystod Blwyddyn 2 (TAR 3).

## Astudiaeth Gwers

Astudiaeth Gwers yw dull strwythuredig o gynllunio ac arsylwi cydweithredol. Mae'n cynnwys dadansoddi dysgu yn fanwl o safbwynt dysgwyr gwahanol a chaiff ei gynnal gan grŵp o weithwyr proffesiynol yn cydweithio yn yr un amgylchedd, er mwyn cefnogi dysgu proffesiynol yn yr ysgol. Caiff darpar athrawon y cyfle i gymryd rhan mewn proses Astudiaeth Gwers gyda'u Mentor neu athro arall yn yr ysgol. Darperir canllawiau ar Astudio Gwersi yn y Canllaw ar gyfer Ymarfer Dysgu, ac yng Ngweithgareddau Ymarfer Dysgu y Myfyrwyr ar gyfer pob modiwl. Bydd hyn yn dechrau proses o gydgynllunio, gan asesu syniadau o waith ymchwil perthnasol a gyhoeddwyd, arsylwadau ar y cyd a dadansoddiadau cydweithredol o wersi yn yr ysgol rhwng y Mentor ac aelodau eraill o'r staff a'r darpar athro.

Fel arfer, caiff proses Astudiaeth Gwers ei chynnal gan y myfyriwr a'i Fentor ond gall gynnwys un neu ddau athro arall. Bydd yn cynnwys cynllunio ac addysgu un wers ar y cyd gan ganolbwyntio ar fater addysgu a dysgu penodol, gan

ddefnyddio syniadau o waith ymchwil a gallai fod yn rhywbeth y mae'r Mentor am weithio arno. Fel arfer, bydd dau berson yn addysgu'r wers a gynlluniwyd. I ddechrau, bydd un person (naill ai'r Mentor, y myfyriwr neu aelod arall o'r grŵp) yn addysgu'r wers fel y'i cynlluniwyd a bydd y gweddill yn arsylwi ar hyn. Yna caiff cynllun y wers ei asesu gan ganolbwyntio ar yr hyn y mae'r disgyblion wedi'i ddysgu. Caiff addasiadau mewn addysgeg er mwyn cynyddu'r hyn y mae'r disgyblion yn ei ddysgu eu trafod a chaiff gwers ddilynol ei chynllunio a'i haddysgu. Mae dadansoddiad terfynol yn cwblhau'r cylch gan arwain at ddysgu ar y cyd a dysgu cydweithredol i bawb dan sylw.

Daw cryfder y broses hon drwy ffocws cryf ar fater a nodwyd ar y cyd, sy'n gysylltiedig â dysgu disgyblion. Caiff gwaith ymchwil a gyhoeddwyd wedyn ei ddefnyddio i lunio gwers sy'n mynd i'r afael â'r mater.




**Ffigur 3** Cymorth ar y cyd i fyfyrwyr ar gyfer Astudiaeth Gwers

Mae Astudiaeth Gwers yn broses bwerus gan ei bod yn helpu'r holl athrawon, myfyrwyr, Mentoriaid a gweithwyr proffesiynol eraill, i:

- arsylwi ar y disgyblion yn dysgu yn llawer manylach na'r hyn sy'n bosibl fel arfer;
- nodi'r bylchau rhwng yr hyn maent yn tybio sy'n digwydd a'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd;
- canfod sut i gynllunio dysgu sy'n cyfateb yn well i anghenion y disgyblion;
- dysgu yng nghyd-destun cymuned addysgu a dysgu gefnogol sydd ag ymrwymiad cryf i helpu disgyblion i ddysgu;
- ymgorffori'r dysgu yn uniongyrchol yn yr addysgu.




**Ffigur 4** Cylch astudiaeth gwers

## Yr astudiaethau a'r ymchwil ar raddfa fach ym Mlwyddyn 2 (TAR 3)

Yn ystod TAR 3, bydd yn ofynnol i fyfyrwyr gynnal astudiaeth ar raddfa fach i agwedd ar eu hymarfer. Bydd astudiaeth ar raddfa fach sydd wedi'i chynllunio'n dda yn rhoi arweiniad ac ysbrydoliaeth i fyfyrwyr a'r ymarferwyr sy'n eu cefnogi. Gall dewis beth i'w astudio a sut i gynnal eu hastudiaeth fod yn rhan o sgwrs y byddwch chi, fel Tiwtor Ymarfer, yn ei chael wrth gynnal eich ymweliad yn ystod yr ail flwyddyn. Caiff y myfyriwr ei annog i ddewis mater sy'n berthnasol i'w addysgu ei hun ond gall fod o fantais iddo fod yn fater sy'n berthnasol i gynlluniau datblygu'r adran neu'r ysgol.

Mae'r ymholiad sy'n rhan o gynnal astudiaeth ar raddfa fach yn gyfle dysgu proffesiynol gwych a fydd o gymorth i'r myfyriwr fanteisio ar waith ymchwil a gyhoeddwyd ac adfyfyrio ar ei ymarfer ei hun a'i wella. Gall hefyd helpu ysgolion i roi blaenoriaethau ar waith a gwerthuso effaith.

Gall cynnydd darpar athrawon gydag Astudio Gwers a / neu'r astudiaeth ar raddfa fach fod yn rhan o'r ddeialog broffesiynol rydych chi'n ei chynnal yn ystod ymweliad y Tiwtor Ymarfer.

# Asesu

## Dwy ran yr asesiad myfyrwyr

Mae'r asesiad yn cynnwys dwy elfen ar gyfer pob modiwl - cwblhau'r e-Bortffolio (h.y Proffil Datblygiad Proffesiynol a'r Ffolder Addysgu Personol) a chyflwyno cyfuniad o dasgau yn cynnwys ysgrifennu academaidd.

## Rhan 1 Tasgau asesu academaidd

Ym Mlwyddyn 1 (TAR 1 a 2), mae'r myfyriwr yn cwblhau tasgau asesu a gaiff eu hasesu yn erbyn deilliannau dysgu cymhwyster Lefel 6. Ym Mlwyddyn 2 (TAR 3), mae'r myfyriwr yn cwblhau tasgau asesu estynedig yn erbyn deilliannau dysgu cymhwyster Lefel 7.

## Rhan 2 yr e-Bortffolio

- Adroddiadau a ysgrifennwyd gan y Tiwtor Ymarfer, yn ogystal â Mentor yr ysgol neu Gydlynydd yr ysgol.
- Tystiolaeth yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.
- Tystiolaeth i gefnogi'r broses o ddatblygu llythrennedd a rhifedd y myfyriwr.
- Tystiolaeth i gefnogi'r broses o ddatblygu gwybodaeth y myfyriwr am y pwnc.
- Tystiolaeth i gefnogi'r broses o ddatblygu gallu'r myfyriwr yn y Gymraeg.
- Canlyniadau archwilio galluedd a thystiolaeth o gynnydd.

- Manylion profiad ymarfer dysgu'r myfyrwyr.
- Cynllun Dysgu Unigol y myfyriwr.

Bydd tystiolaeth o gynnydd yn dod o ffurflenni adolygu ymarfer, adroddiadau ymarfer dysgu, ffurflenni arsylwi gwersi, cynlluniau a gwerthusiadau gwersi ac enghreifftiau o adnoddau ategol.

Fel Tiwtor Ymarfer, byddwch yn cyfrannu darn allweddol o dystiolaeth i e-Bortffolio darpar athrawon trwy rannu eich asesiad o'u ymarfer dysgu (ffurflen adolygu ymarfer a ffurflen ymarfer dysgu).

Wrth fesur cynnydd darpar athro, mae'n bwysig ystyried y safonau mewn modd cyfannol, gan gysylltu'r disgrifyddion â'i gilydd a symud o safon i safon i wneud cysylltiadau mewn ymarfer proffesiynol, yn hytrach na defnyddio'r disgrifyddion fesul un. Gellir defnyddio'r disgrifyddion fel ffordd o archwilio safon ac i gefnogi deialog adfyfyriol â'r darpar athro (Llywodraeth Cymru, 2019a).

Mae'r safonau'n cynnwys pum maes (gweler Ffigur 5), a gallwch ddysgu mwy am bob maes drwy ddilyn y ddolen: Hwb: Safonau proffesiynol




**Ffigur 5** Y pum safon proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2019b)

Mae'r gwerthoedd a'r tueddiadau y mae'n ofynnol i darpar athro eu hymgorffori wrth ddatblygu fel athro yn ategu pob un o feysydd y safonau (gweler Ffigur 5). Dylai'r rhain greu cefnlen wrth i chi ystyried cynnydd yr darpar athro mewn perthynas â phob maes. Mae pob maes yn adlewyrchu ymarfer a fydd yn cefnogi'r darpar athro.




**Ffigur 6** Y gwerthoedd a'r tueddiadau cyffredinol sy'n dangos safonau proffesiynol uchel mewn ymarfer (Llywodraeth Cymru, 2019b)

## Sut y gallaf arsylwi ar ymarfer fy darpar athro er mwyn cefnogi fy asesiad?

Mae arsylwi yn elfen allweddol o ddatblygu dysgu proffesiynol a rhoi cyfleoedd i adfyfyrio'n feirniadol. Ymhellach, drwy arsylwi gwersi'r darpar athro, ceir tystiolaeth ar gyfer ei asesiad ffurfiannol a chrynodol. Felly, dylid gwneud cysylltiadau yn yr arsylwadau ar y disgrifyddion SAC ar gyfer y safonau proffesiynol perthnasol ochr yn ochr â datblygu sgiliau Cymraeg, y fframwaith llythrennedd a rhifedd, a chymhwysedd digidol, fel sy'n briodol.

Gofynnir i Fentoriaid a Chydlynwyr Ysgol gwblhau o leiaf dau arsylwad gwers ffurfiol bob blwyddyn ar y rhaglen. Gellir lawrlwytho'r ffurflen arsylwi gwersi o wefan y Bartneriaeth. Fodd bynnag, rydym hefyd yn annog myfyrwyr i ofyn i athrawon eraill yn eu hadran/lleoliad arsylwi arnynt ac efallai y bydd Mentoriaid a Chydlynwyr Ysgolion am wneud sylwadau mwy ffurfiol os hoffent wneud hynny.

Mae'r Tiwtor Ymarfer yn gwneud dau arsylwad y flwyddyn gan ddefnyddio IRIS Connect. Gellir dod o hyd i ganllawiau ar sut i ddefnyddio'r platfform hwn ar wefan y Bartneriaeth a gallwch hefyd gael mwy o fanylion yma: **IRIS Connect | CPD & Professional Development For Teachers**. Dylid gwneud hyn fel cyd-arsylwad gyda'r Mentor neu Gydlynydd Ysgol, h.y. rydym yn golygu y dylech chi adolygu gwers gan ddefnyddio IRIS a welwyd yn bersonol gan y Mentor neu'r Cydlynydd Ysgol.

## Sut i gwblhau'r ffurflen arsylwad gwers

Gallwch ddod o hyd i arweiniad llawn ar sut i ddefnyddio IRIS ar wefan y Bartneriaeth. Gallwch ddewis defnyddio'r gweithrediad deialog o fewn IRIS i

gofnodi eich adborth ar gyfer eich myfyriwr neu efallai y byddai'n well gennych ddefnyddio un o'n ffurflenni arsylwi gwersi (gellir dod o hyd i gopi gwag ohonynt ar wefan y Bartneriaeth).

Wrth lenwi'r ffurflen efallai yr hoffech ystyried y nodiadau canlynol i'w llenwi.

1. **Yr Iaith Gymraeg, cymhwysedd digidol, ac ati:** A yw eich arsylwad yn canolbwyntio ar rhywbeth benodol?
2. **Nodiadau arsylwad gwers:** Gallwch nodi digwyddiadau allweddol, amseroedd a chwestiynau sy'n codi y gallech fod am eu trafod â'r myfyriwr. Bydd hyn yn eich helpu i ddadansoddi'r wers ac i drafod ar ôl hynny.
3. **Targedau**: Pa weithgarwch y gallai eich myfyriwr ei wneud i alluogi ei gynnydd?
4. **Y camau nesaf:** Dylech rannu cyngor ac arweiniad sy'n cyfeirio myfyrwyr tuag at ddysgu pellach. Gallai hyn gynnwys ymgysylltu â damcaniaeth, neu ddysgu oddi wrth athrawon eraill. Dylai gyfrannu at y sesiynau Mentora sydd gan fyfyrwyr gyda'u Mentor.

## Sut y gallaf adrodd ar gynnydd fy darpar athro mewn perthynas â'r safonau?

Ar gyfer pob modiwl, byddwch yn cynnal ymweliad ymarfer dysgu â'ch darpar athro. Yn dilyn yr ymweliad hwn, dylech gwblhau adroddiad (ar gael yn yr e-Bortffolio) sy'n rhoi trosolwg o'ch ymweliad i'r darpar athro ac asesiad o'i ymarfer, a wneir drwy arsylwad ar y cyd â'r Mentor/cydlynydd yr ysgol. Dylech ddefnyddio'r fframwaith asesu ymarfer dysgu (gweler Atodiad 6) i'ch cefnogi.

## Sut y gallaf gwblhau'r adroddiad?

Wrth gwblhau'r adroddiad, efallai y byddwch am ystyried y cyngor canlynol a rannwyd gan staff mewn ysgolion partner:

- Ceisiwch osgoi defnyddio termau goddrychol fel da, ardderchog, digonol, ac ati, i ddisgrifio'r ymarfer. Cysylltwch eich sylwadau â'r Fframwaith Asesu, a defnyddiwch 'oherwydd' i egluro pam.
- Tynnwch sylw at rinweddau cadarnhaol pwysig a ddangosir gan yr darpar athro. Lluniwch sylwadau yn seiliedig ar gamau gweithredu yn hytrach na phersonoliaeth a chydberthynas bersonol, gan gysylltu â'r disgrifyddion er mwyn rhoi ffocws ychwanegol.
- Ystyriwch sawl targed y byddwch yn ei roi i darpar athro. Mae'n bwysig bod targedau yn ddatblygiadol eu natur ac nad ydynt yn llethu'r darpar athro â gormod o gamau gweithredu. Mae targedau CAMPUS yn ffordd arbennig o effeithiol o nodi'r camau nesaf i'w cymryd.
- Cofiwch fod dau ddiben i'r ffurflen. Mae angen iddi roi adborth effeithiol i'r darpar athro, ond mae hefyd yn gofnod pwysig o gynnydd yr darpar athro tuag at gyrraedd y safonau.

Awgrymiadau eraill i'w hystyried:

- Dylech gyfarch y myfyriwr yn uniongyrchol drwy ddefnyddio 'ti' neu 'chi' yn hytrach na'i enw neu 'yr darpar athro'.
- Ceisiwch ddefnyddio arddull cryno ond dylech sicrhau eich bod yn cynnwys digon o fanylion ar gyfer cynulleidfa ehangach at ddibenion asesu (e.e. Tiwtor Cwricwlwm).

- Sicrhewch fod eich adroddiad wedi'i ysgrifennu mewn da bryd i gael ei gynnwys ym mhortffolio'r darpar athro erbyn y dyddiad cyflwyno. Heb hyn, nid ystyrir bod portffolios darpar athrawon yn gyflawn ac ni ellir eu hasesu.
- Cofiwch gysylltu eich sylwadau mewn modd cyfannol â'r safonau, gan ganolbwyntio ar gryfderau ac anghenion datblygu eich myfyriwr. Ceisiwch osgoi cynnig 'datrysiadau' penodol iawn a chul. Yn hytrach, ystyriwch gyfeirio at ffyrdd ehangach y gall eich darpar athro geisio datrysiad.

## Defnyddio'r Fframwaith Asesu Safonau

Mae'r adroddiadau yn ei gwneud yn ofynnol i fentoriaid, cydlynwyr ysgolion a thiwtoriaid ymarfer asesu cynnydd darpar athro. Er mwyn cefnogi eich barn, cyfeiriwch at y grid yn Atodiad 6 i'ch helpu i lunio'r farn orau ar y cam hwn o ddatblygiad yr darpar athro.

## Barn am gynnydd

Ar gyfer pob maes o'r safonau a chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd ehangach, nodwch a yw'r **cynnydd cyffredinol a wnaed tuag at** gyrraedd y safon ddisgwyliedig gan ddefnyddio'r canllawiau canlynol yn:

**Rhagori ar Ddisgwyliadau (EE)** Mae'r dangosyddion yn gryf a chadarn iawn, a'r gwaith eisoes ar lefel uwch na'r disgwyl ar gyfer SAC.

**Ar y Trywydd Iawn gyda Sawl Maes Cryfder (OTwS)** Mae'r dangosyddion yn gryf a chadarn, a'r gwaith eisoes yn dangos cryfderau mewn sawl maes.

Mae datblygiad parhaus yn debygol o arwain at gyrraedd safon sy'n well na'r disgwyl ar gyfer SAC.

**Ar y Trywydd Iawn (OT)** Mae'r dangosyddion yn gadarnhaol. Mae datblygiad parhaus yn debygol o arwain at gyrraedd y safon ddisgwyliedig ar gyfer SAC.

**Ddim ar y Trywydd Iawn Eto (NYOT)/Gall fod yn Achos Pryder (CfC)** Nid yw rhai agweddau wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar gyfer SAC eto ac mae angen mynd i'r afael â nhw. Gall fod achos pryder lle y bydd angen datblygiad a gwelliant *sylweddol* er mwyn cyflawni lefel ddisgwyliedig ar gyfer SAC.

**Noder:** Dim ond os byddwch yn credu bod eich darpar athro yn wynebu risg o beidio â gwneud y cynnydd gofynnol a bod angen rhagor o ymyriad a chymorth arno y dylech ddewis NYOT neu CfC. **Bydd asesiad NYOT ar gyfer myfyriwr yn sefydlu'r Fframwaith Cymorth Myfyrwyr** neu gall olygu na all eich myfyriwr basio elfen ymarfer dysgu ei ADM.

## Sut y gallaf asesu datblygiad sgiliau Cymraeg fy darpar athro?

Drwy gydol y rhaglen, bydd angen i'ch darpar athro ddatblygu ei sgiliau Cymraeg, yn ogystal â'i ddulliau addysgegol o helpu disgyblion i ddysgu neu wella eu Cymraeg.

Bydd cydlynydd iaith Gymraeg Y Brifysgol Agored yn monitro hynt eich darpar athro wrth iddo gwblhau e-fodiwl perthnasol y Coleg Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg. Bydd y cydlynydd yn rhoi cymorth i fentoriaid a thiwtoriaid

ymarfer ar ffurf sesiynau datblygu ar-lein yn ystod pob modiwl. Bydd yn rhoi cyngor ac arweiniad ar ffyrdd o helpu eich darpar athro yn y maes hwn, a ffyrdd o asesu cymhwysedd eich darpar athro yn y Gymraeg.

Bydd angen i chi adrodd ar gynnydd yr darpar athro, gan ddefnyddio Fframwaith Cymhwysedd y Gymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (sydd ar gael yn ardal adnoddau y safle we). Dylai hon fod yn farn 'orau' yn seiliedig ar:

- eich arsylwad rheolaidd o ymarfer yr darpar athro
- deialog â'r darpar athro yn adfyfyrio ar ei hunanwerthusiad o sgiliau yn ei awdit o'r Gymraeg.

Gofynnir i chi asesu dwy agwedd:

- cymhwysedd yr darpar athro yn y Gymraeg
- dulliau gweithredu addysgegol yr darpar athro i helpu disgyblion i ddysgu Cymraeg.

Dylid defnyddio'r Fframwaith i ysgogi adfyfyrio beirniadol gyda'r darpar athro. Mae'n cyd-fynd ag awdit y Gymraeg y mae darpar athrawon yn ei ddefnyddio i olrhain eu cynnydd yn y maes hwn.

Bydd angen i chi asesu sgiliau gwrando, darllen, ysgrifennu a llafaredd darpar athrawon, yn unol â'r lefelau sgiliau a ddangosir isod.

A1 Mynediad

A2 Sylfaen

B1 Canolradd

B2 Uwch

C1 Hyfedredd

Defnyddiwch y Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg i gefnogi eich barn ym mhob maes.

# Lles

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd lles. Fel y nodwyd yn y Cyflwyniad i MDPh Iechyd a Lles, cydnabyddir bod iechyd da a lles yn ffactor allweddol sy'n hwyluso dysgu llwyddiannus (Llywodraeth Cymru, 2019b). Mae'r Brifysgol Agored, ynghyd â'i phartneriaid yn y rhaglen, yn ymrwymedig i helpu pob darpar athro ac aelod o staff sy'n rhan o'r rhaglen i reoli ei lesiant ei hun a chyfrannu at lesiant pobl eraill yn eu gofal. Mae'r ymrwymiad hwn yn ymestyn i'r sawl sy'n rhan o'r gwaith o gefnogi darpar athrawon yn cynnwys tiwtoriaid ymarfer a Mentoriaid.

Rhaid i'r dull o gefnogi lles darpar athrawon fod yn amlochrog. Yn yr ysgol, mae'r Mentor yn allweddol yn helpu'r darpar athro o ddydd i ddydd, yn enwedig yn ystod camau cynnar hanfodol Ymgyfarwyddo. Drwy ddeialog barhaus a sensitif, dylid helpu'r darpar athro wrth iddo ymgymryd â'i weithgareddau ymarfer dysgu. Dylai allu cysylltu â chydlynydd yr ysgol yn ogystal â'r Mentor os bydd o'r farn yr hoffai drafod unrhyw bryderon ag unigolyn arall ac mae'n bwysig bod darpar athrawon yn ymwybodol o hyn o'r dechrau'n deg.

Fel Tiwtor Ymarfer, bydd gennych rôl yn sicrhau bod y myfyriwr yn cael ei gefnogi a'i fod yn gwybod ble i gael cymorth pellach os a phan fydd ei angen arno.

Mae'r Brifysgol Agored yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i'w holl fyfyrwyr ar-lein neu dros y ffôn. Mae'r manylion cyswllt ar wefan Y Brifysgol Agored. Un o

ffynonellau eraill cymorth i darpar athrawon yw'r Together All gwasanaeth iechyd meddwl a lles.

## Rhoi gwybod am bryderon

Y Mentor sydd yn y sefyllfa orau i nodi unrhyw bryderon a godir fel rhan o'r broses ymarfer dysgu. Dylid trafod unrhyw faterion â'r darpar athro yn y lle cyntaf, a chofnodi hynny ar y cofnod o'r sesiwn Mentora gan ddefnyddio "ar y trywydd iawn" neu "ddim ar y trywydd iawn". Os caiff "ddim ar y trywydd iawn" ei gofnodi dros gyfnod estynedig, yna caiff y Fframwaith Cymorth Myfyrwyr ei sefydlu. Yna, dylai'r Mentor drafod y pryderon hyn â chydlynydd yr ysgol os na chaiff y pryderon eu datrys yn hawdd neu'n gyflym. Mae'n bosibl y bydd Cydlynydd Ysgol a'r Tiwtor Ymarfer yn nodi pryderon yn annibynnol fel rhan o'u harsylwadau. Dylid hefyd gofnodi unrhyw bryderon o'r fath ar y ffurflen briodol ar ôl eu trafod â'r myfyriwr. Dylai Cydlynydd Ysgol neu'r Tiwtor Ymarfer gysylltu â'r Cyfarwyddwr AGA yng Nghymru i drafod y camau priodol i'w cymryd. Bydd y Cyfarwyddwr AGA yn galw cyfarfod adolygu ar gyfer y myfyriwr i asesu ei anghenion a'i gynghori ynghylch camau addas i'w cymryd.

Dangosir y prosesau dan sylw i roi gwybod am bryderon a mynd i'r afael â nhw yn Ffigur 7:




**Ffigur 7** Siart llif yn dangos y llwybr i fynd i'r afael â phryderon.

# Trosolwg o'r ymweliad ymarfer

## Diben yr ymweliad

Mae sawl diben i'ch ymweliad, sef:

- arsylwi ar yr darpar athro yn addysgu ochr yn ochr â'r Mentor (gweler adran 4)
- cynnal deialog feirniadol â'r myfyriwr a'r Mentor ar y wers yr arsylwyd arni
- sicrhau bod y myfyriwr yn cael adborth ar ei addysgu a thargedau CAMPUS (gweler Atodiad 7) ar gyfer gwelliant
- adolygu cynnydd y myfyriwr o ran ei astudio a'r gweithgareddau ymarfer dysgu
- cynnal sesiwn adfyfyrio beirniadol a choetsio gyda'r Mentor
- cynnal sesiwn adfyfyrio beirniadol a deialog strwythuredig gyda'r myfyriwr
- cadarnhau a yw'r Mentor wedi asesu cynnydd y myfyriwr tuag at SAC ai peidio
- darparu tystiolaeth i'w chofnodi ar yr adroddiad o'r ymweliad ymarfer
- dechrau'r broses o ddefnyddio'r Fframwaith Cymorth Myfyrwyr o bosibl.
- cyflawni swyddogaeth sicrhau ansawdd drwy gwblhau 'ffurflen monitro ymarfer dysgu', gan gadarnhau bod y myfyrwyr yn gallu manteisio ar brofiadau dysgu sydd eu hangen arnynt.

Dylid rhoi ystyriaeth i'r holl ddibenion hyn pan gaiff yr ymweliad ei drefnu. Mae'n bosibl y gallwch gynnal y sesiynau adfyfyrio beirniadol gyda'r myfyriwr a'r Mentor ynghyd â rhoi adborth a phennu targedau CAMPUS ond ni ellir cymryd hyn yn ganiataol. Os byddwch yn gweld bod angen i chi gynnal sesiwn goetsio gyda'r Mentor ar sgìl penodol, dylid penderfynu a yw'n briodol gwneud hyn yng nghwmni'r myfyriwr. Dylech neilltuo digon o amser i sicrhau y gallwch fynd i'r afael â'r hyn y byddwch yn ei ganfod mewn modd sensitif a phriodol.

Dylech drefnu unrhyw ymweliadau pellach fydd eu hangen cyn i chi adael, yn enwedig yr ail ymweliad ar gyfer TAR 3.

## Cynnal sesiwn adfyfyrio beirniadol a deialog strwythuredig gyda'r myfyriwr

"Proses gwneud synnwyr" yw'r sesiwn adfyfyrio beirniadol sy'n helpu i bennu nodau, defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn y gorffennol a llywio camau ar gyfer y dyfodol. Dyma'r cysylltiad rhwng meddwl a gwneud, a gall fod yn drawsnewidiol pan fydd wedi'i chynnal yn effeithiol. Mae ymgymryd â sesiwn adfyfyrio beirniadol yn helpu'r myfyrwyr i fynegi cwestiynau, wynebu rhagfarn, archwilio achosiaeth, cymharu damcaniaeth ag ymarfer a nodi materion systemataidd, sy'n eu helpu i werthuso'n feirniadol a throsglwyddo gwybodaeth. Efallai y bydd adfyfyrio beirniadol yn dod yn haws i rai myfyrwyr nag eraill, ond mae'n sgìl y gellir ei ddysgu drwy ymarfer ac adborth.

Mae deialog strwythuredig adfyfyriol feirniadol (CRSD-Critical Reflective Structured Dialogue) yn hyrwyddo diwylliant cynhwysol, lle na ddisgwylir i hunaniaeth, gwerthoedd nac egwyddorion neb gael eu cyfaddawdu. Mae'n

gwahodd pobl i gydnabod "man cyffredin" ac yn archwilio ffyrdd o drawsnewid a datblygu.

Mae elfen "adfyfyriol" CRSD yn cyfeirio at yr angen i annog adfyfyrio. Mae adfyfyrio yn golygu y gellir arafu prosesau meddwl, nodi'r hyn a ddigwyddodd mewn gwers mewn gwirionedd, cyflwyno gwerthoedd ac egwyddorion, a deall pam y cafwyd problemau a beth oedd canlyniad y problemau hynny. Mae adfyfyrio yn rhwystro'r math o "herwgipio emosiynol" a all ddigwydd pan fydd pobl yn cael eu herio neu eu bygwth gan bethau y bydd pobl eraill yn eu dweud neu'n eu gwneud.

Mae elfen "strwythuredig" CRSD yn cyfeirio at y strwythurau sgyrsiol a ddefnyddir i greu gofod diogel, lle gellir ystyried anghenion datblygu yn hytrach na chwilio am feiau. Mae'r strwythurau hyn yn dibynnu ar siarad agored, meddylgar a gwrando'n astud.

Mae cwestiynau a awgrymir ar gyfer sesiwn gyda myfyriwr ar gael yn Atodiad 8.

## Adfyfyrio beirniadol a deialog strwythuredig gyda'r Mentor

Bydd defnyddio adfyfyrio beirniadol a deialog strwythuredig gyda'r Mentor yn dilyn patrwm tebyg i'r hyn a ddefnyddiwyd gyda'r myfyriwr. Byddwch yn annog y Mentor i ddweud ei stori, beth sy'n gweithio gyda'r myfyriwr yn ei farn ef ac unrhyw broblemau neu gymhlethdodau a gafwyd. Yna, drwy archwilio gwerthoedd a chredoau am y rôl, byddwch yn helpu'r Mentor i sefydlu ble y mae angen iddo ddatblygu ei ymarfer. Bydd meddwl am y gwahaniaethau rhwng Mentora a choetsio yn ddefnyddiol yma.

Mae cwestiynau a awgrymir ar gael yn Atodiad 9.

## Arsylwi gwersi

Mae arsylwi yn ganolog i'ch rôl ac yn rhoi cyfle i chi wybod pa ddatblygiad proffesiynol sydd ei angen ar y myfyriwr. Mae'n eich galluogi i ddeall lefel yr her y dylid ei chynnwys mewn unrhyw dargedau er mwyn ysgogi'r myfyriwr a meithrin twf proffesiynol. Drwy wylio'r wers a bod yn bresennol mewn adolygiad dilynol a sesiwn adborth byddwch hefyd yn gallu cael cipolwg ar sgiliau'r Mentor yn ei rôl a bydd yn eich helpu i ddeall sut i'w helpu i barhau i dyfu.

Bydd myfyrwyr yn rhannu profiad addysgu wedi'i ffilmio gyda chi trwy IRIS. Bydd hyn yn amrywio o ran hyd a chynnwys yn dibynnu ar gynnydd y myfyriwr drwy'r rhaglen, er enghraifft gweithgareddau grŵp ar gyfer TAR1 a phortffolio o ymgysylltiadau dosbarth cyfan, grŵp ac unigol ar gyfer TAR3. Ar ôl arsylwi'r fideo, byddwch yn llenwi ffurflen arsylwi gwers i roi adborth yn uniongyrchol i'r myfyriwr.

Mae'n anochel y caiff arsylwadau ar wersi gennych chi fel Tiwtor Ymarfer eu hystyried fel asesiad crynodol, ac mae'n debygol y bydd yr darpar athro yn teimlo y gallai basio neu fethu'r cwrs cyfan os bydd pethau'n mynd o chwith yn y wers y byddwch yn arsylwi arni. Bydd angen i chi weithio'n galed i'w helpu i weld eich bod yn llunio barn gyfannol gan ystyried barn y Mentor a'r hyn, yn eich barn chi, a fydd yn cynnwys llawer mwy na'r digwyddiad a aeth o chwith ym marn y myfyriwr.

Dylech egluro:

- na fyddwch yn llunio rhagdybiaethau
- eich bod yno i ddysgu a rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r tu allan i'r ysgol

- eich bod am i'r trafodaethau fod yn ddwyochrog – rydych am wrando yn ogystal â chynnig syniadau
- y byddwch yn canolbwyntio ar yr hyn a gyflawnwyd a sut i gefnogi'r myfyriwr i gyflawni mwy.
- y byddwch yn gwylio ac yn gwrando ar y myfyriwr

Mae'n rhaid i chi lunio barn ar ymarfer y myfyriwr a'r Mentor. Dylech sicrhau nad yw eich barn yn ymddangos yn fympwyol ond ei bod wedi'i seilio'n glir ar Safonau Addysgu Cymru ac ar waith ymchwil.

Fodd bynnag, eich rôl chi yw cyflwyno profiad amgen a ffyrdd o wneud pethau. Os na fydd yn ymddangos y gall y myfyriwr a'r Mentor symud ymlaen gyda'i gilydd, byddwch yn sylwi ar hynny. Byddwch yn barod gydag awgrymiadau i helpu'r ddau i wneud cynnydd. Er enghraifft, gallech awgrymu Astudiaeth Gwers, triadau addysgu neu weithgareddau hyfforddi cymheiriaid neu weithgareddau dysgu proffesiynol eraill gan gynnwys myfyrwyr eraill sydd yn yr ysgol neu athro arall neu chi eich hun efallai, fel bod y cydberthnasau dysgu yn cael eu dyfnhau neu eu hehangu fel sy'n briodol.

## Sicrhau ansawdd

Fel rhan o'n proses sicrhau ansawdd, rydym yn gofyn i bob Tiwtor Ymarfer lenwi a dychwelyd ffurflen monitro ymarfer dysgu ar ôl pob ymweliad ymarfer dysgu sy'n cadarnhau bod y myfyrwyr yn cael y profiadau dysgu sydd eu hangen arnynt i wneud cynnydd da a phasio'r cwrs. Dylid ei dychwelyd at y tîm TAR dros e-bost. Mae copi o'r ffurflen ar gael yn eBortffolio y myfyrwyr. Dylid llenwi'r ffurflen a'i chwblhau ar-lein a gellir ei chyrchu yma https://forms.office.com/e/J9P46VTQab

### Cwblhau adroddiad yr ymweliad ymarfer dysgu

Ym mhob ymweliad ymarfer dysgu, dylech gwblhau adroddiad yr ymweliad ymarfer dysgu ar gael yn yr eBortffolio. Caiff copïau enghreifftiol o adroddiadau a gwblhawyd eu llwytho i ardal y fforwm tiwtoriaid ymarfer o'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir a gallwch ddisgwyl trafod y rhain gyda'r Tiwtor Cwricwlwm, fel rhan o'ch datblygiad proffesiynol parhaus, cyn eich ymweliad ymarfer dysgu cyntaf.

# Adborth a gwella ansawdd

Fel aelod gwerthfawr o'n tîm, rydym yn croesawu eich adborth yn fawr – boed hynny'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Fel aelod o staff addysgu yn un o'n hysgolion Partner Arweiniol, bydd eich ysgol eisoes yn cyfrannu at y broses o redeg y Bartneriaeth drwy ein Pwyllgor Partneriaeth a'n his-bwyllgorau. Dylech deimlo y gallwch roi materion ar agenda'r pwyllgor perthnasol os byddwch o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol i aelodau eraill y Bartneriaeth eu trafod. Cysylltwch â'r Cyfarwyddwr AGA i wneud hynny.

Yn anffurfiol, rydym yn croesawu adborth ar ein deunyddiau, yn ogystal â phrofiad y myfyriwr a'r Tiwtor Ymarfer, naill ai drwy roi neges ar y fforwm i Diwtoriaid Ymarfer , neu drwy e-bostio'r Tiwtor Cwricwlwm.

# Atodiad 1

## Rhestr geirfa

| | |
|---|---|
| Archwiliad gwybodaeth bynciol | Mae hwn yn Gynradd neu Uwchradd-benodol, er mwyn helpu myfyrwyr i nodi meysydd o'u gwybodaeth bynciol sy'n gryf a'r rhai y mae angen eu datblygu ymhellach, fel y gallant addysgu'r pwnc mewn ysgolion. Adolygir cynnydd a thargedau gyda'r Mentor drwy gydol gwaith ymarfer dysgu ac adroddir arnynt ar ddiwedd pob modiwl. (Gweler Canllaw’r Rhaglen, Adran 4.) |
| Asesiad-diwedd-modiwl | Y tasgau asesu a'r e-Bortffolio a gyflwynir drwy system TMA/EMA y Brifysgol Agored ar ddiwedd TAR 1, TAR 2 a TAR 3. |
| Awdit cymhwysedd digidol | Awdit a gwblheir ar ddechrau’r rhaglen TAR i nodi meysydd i'w datblygu. (Gweler Canllaw'r Rhaglen, Adran 4.) |
| Awdit yr iaith Gymraeg | Archwiliad a gaiff ei gwblhau ar ddechrau’r rhaglen TAR i nodi targedau ar gyfer datblygiad |
| Canllaw Ymarfer Dysgu a gweithgareddau ymarfer dysgu | Adnodd o weithgareddau i'r myfyrwyr eu cwblhau yn yr ysgol, sydd wedi'u cynllunio i adeiladu ar y syniadau a'r cysyniadau a archwiliwyd yn ystod gwaith astudio a seminarau ar-lein, yn ogystal â chynnig arweiniad ynghylch pob lleoliad ac asesiad. |

| | |
|---|---|
| Canllaw'r Rhaglen | Dogfen a leolir ar y wefan TAR sy'n rhoi trosolwg o'r rhaglen, rolau a chyfrifoldebau. |
| Cydlynydd AGA'r ysgol | Uwch-aelod o staff yr ysgol sy'n cefnogi'r myfyriwr a'r Mentor yn ystod y lleoliad ymarfer dysgu. (Gweler Canllaw'r Rhaglen, Adran 7.) |
| Cydlynydd y Gymraeg | Tiwtor Y Brifysgol Agored a fydd yn cefnogi myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg eu hunain a'u gallu i gefnogi disgyblion i ddatblygu sgiliau Cymraeg. (Gweler Canllaw'r Rhaglen, Adran 4.) |
| Cynllun dysgu unigol | Ar ddechrau'r rhaglen, bydd y myfyrwyr yn dechrau datblygu cynllun dysgu unigol (CDU). Mae hwn yn dod â'ch targedau datblygu ym maes gwybodaeth bynciol, cymhwysedd digidol, defnyddio'r Gymraeg (gweler Archwiliadau Iaith Gymraeg) a chyrraedd y safonau addysgu ynghyd. |
| e-Bortffolio | Ar ddiwedd pob modiwl, bydd y myfyrwyr yn cyflwyno e-Bortffolio o dystiolaeth i ddangos cynnydd tuag at ddeilliannau rhaglen TAR. Mae Mentoriaid, cydlynwyr ysgol a thiwtoriaid ymarfer hefyd yn cwblhau rhannau o'r e-Bortffolio i nodi cynnydd a gosod targedau ar gyfer astudio ac ymarfer parhaus. (Gweler Canllaw'r Rhaglen, Adran 6, a'r Canllaw Asesu.) |
| Fforymau ar-lein | Fforymau ar-lein, anghydamseredig lle y bydd myfyrwyr yn gallu cwblhau gweithgareddau, yn gallu |

| | |
|---|---|
| | rhannu profiadau, yn gofyn i'w gilydd a'r Tiwtor Cwricwlwm am gyngor, ac yn rhannu adnoddau. (Gweler Canllaw'r Rhaglen, Adran 3.) |
| Mentor | Aelod profiadol o staff yn y pwnc/cyfnod. Bydd Mentoriaid yn cefnogi ac yn cynghori myfyrwyr i ddatblygu ymarfer addysgu ac yn eu cyflwyno i gyd-destun ehangach a staff yr ysgolion. (Gweler Canllaw'r Rhaglen, Adran 7.) |
| Modiwlau | Mae tri modiwl: TAR 1, TAR 2 a TAR 3. Mae'n rhaid i fyfyrwyr lwyddo yn yr asesiadau academaidd a bodloni'r gofynion ymarfer dysgu i lwyddo ym mhob modiwl ac felly llwyddo yn y cymhwyster. |
| Partneriaeth (Y Bartneriaeth) | Y partneriaid yw'r Brifysgol Agored, Consortia Rhanbarthol ac ysgolion Partner Arweiniol gyda Llywodraeth Cymru. |
| Seminarau ar-lein | Seminarau pwnc-benodol a chyfnod-benodol a arweinir gan y Tiwtor Cwricwlwm. Mae'r rhain yn seminarau rhyngweithiol 'byw' sy'n cysylltu myfyrwyr ledled Cymru. Cânt eu recordio os bydd myfyrwyr yn dymuno ystyried y pwyntiau a wnaed ymhellach. (Gweler Canllaw'r Rhaglen, Adran 3.) |
| Tasg asesu | Tasg ysgrifenedig a gwblheir fel rhan o bob asesiad diwedd modiwl (Gweler Adran 6 o Ganllaw'r Rhaglen a'r Canllaw Asesu). |

| | |
|---|---|
| Tiwtor cwricwlwm | Cyflogir gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru. Yr unigolyn hwn yw eich cyswllt allweddol â'r Brifysgol Agored. Mae'n hwyluso seminarau ar-lein, yn cymedroli fforymau ac yn asesu eich asesiad diwedd modiwl. (Gweler Canllaw'r Rhaglen, Adran 7.) |
| Tiwtor ymarfer | Uwch-athro a fydd yn ymweld ag ymwelwyr unwaith yn ystod TAR 1, unwaith yn ystod TAR 2 a dwywaith yn ystod TAR 3 er mwyn cefnogi'r myfyriwr a'r Mentor (Gweler Canllaw'r Rhaglen, Adran 7.) |
| Uned | Bloc unedig o waith astudio ar-lein. Mae chwe llinyn neu thema a phob un wedi'i chynnwys ym mhob modiwl: mae; – 18 uned ar draws yr holl raglen; o 1A i 3F. (Gweler Canllaw'r Rhaglen, Adran 3.) |
| Unedau astudio ar-lein | Mae gan y llwybrau Cynradd ac Uwchradd chwe uned astudio yr un ar-lein gyda deunyddiau astudio, gweithgareddau, seminarau ar-lein a gweithgareddau ymarfer dysgu i'w hastudio a'u cwblhau. Os bydd myfyrwyr ar y llwybr TAR rhan amser, byddant yn cwblhau'r astudiaeth ar-lein ym mhob modiwl cyn ymgymryd â'u lleoliad ymarfer dysgu. Bydd myfyrwyr ar y TAR cyflogedig yn cael amser wedi'i neilltuo yn yr ysgol i gwblhau astudiaeth ar-lein a gweithgareddau ymarfer dysgu. (Gweler Canllaw'r Rhaglen, Adran 3.) |

| | |
|---|---|
| Ymarfer Dysgu | Amser a dreulir yn yr ysgol wedi'i neilltuo i gwblhau gweithgareddau TAR a datblygu gwaith addysgu. (Gweler Canllaw'r Rhaglen, Adran 5.) |
| Ysgol Bartner Arweiniol | Ysgolion sy'n aelodau o'r Pwyllgor Partneriaeth. Maent yn darparu mewnbwn strategol i'r rhaglen ac maent yn safleoedd dysgu allweddol i fyfyrwyr ar lwybrau cyflogedig a rhan-amser. Mae ysgolion partner arweiniol yn cefnogi myfyrwyr o ysgolion Cyswllt ac ysgolion Cyflogi eraill yn ystod yr ail leoliad ymarfer dysgu. |
| Ysgol Bartner Gyswllt | Ysgolion sy'n cefnogi myfyriwr addysg gychwynnol i athrawon (AGA) ar y llwybr rhan-amser. |
| Ysgol Gyflogi | Ar gyfer y llwybr cyflogedig, yr ysgol lle y caiff myfyriwr addysg gychwynnol i athrawon ei gyflogi. Caiff darpar athrawon eu cyflogi ar gyfradd athro heb gymhwyso am ddwy flynedd. |

# Atodiad 2

## Y gwahaniaethau rhwng hyfforddi a mentora

| **Pwnc** | **Hyfforddi** | **Mentora** |
|---|---|---|
| Amserlen | Y berthynas yn fwy tebygol o fod yn y *tymor byr* (hyd at 6 mis neu flwyddyn) gyda chanlyniad penodol mewn golwg. Fodd bynnag, gallai'r berthynas bara'n hirach, yn dibynnu ar y nodau a gyflawnir. | Y berthynas yn tueddu i fod yn fwy *tymor hir*, yn para blwyddyn neu ddwy, a hyd yn oed yn hirach. |
| Ffocws | Mae hyfforddi'n cael ei yrru'n fwy gan *berfformiad*, wedi'i gynllunio i wella perfformiad y gweithiwr yn y gwaith. | Mae Mentora yn cael ei yrru'n fwy gan *ddatblygiad*, gan edrych nid yn unig ar swyddogaeth swydd bresennol y gweithiwr proffesiynol ond y tu hwnt, gan gymryd agwedd fwy cyfannol tuag at ddatblygu gyrfa. |
| Strwythur | Yn draddodiadol yn fwy *strwythuredig*, gyda chyfarfodydd rheolaidd wedi'u trefnu, e.e. yn wythnosol, bob yn ail wythnos neu'n fisol. | Yn gyffredinol, mae cyfarfodydd yn tueddu i fod yn fwy *anffurfiol*, yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan y Mentorai. |

| | | |
|---|---|---|
| Arbenigedd | Mae hyfforddwr yn cael ei gyflogi am ei *arbenigedd* mewn maes penodol, un lle mae'r un sy'n cael ei goetsio yn dymuno gwella. Enghreifftiau: sgiliau cyflwyno, arweinyddiaeth, cyfathrebu rhyngbersonol, gwerthu. | O fewn rhaglenni Mentora sefydliadau, mae gan fentoriaid fwy o *arbenigedd* mewn maes penodol na Mentoreion. Mae'r Mentorai yn dysgu o brofiad y Mentor ac yn cael ei ysbrydoli ganddo. |
| Agenda | Mae'r hyfforddwr a'r un sy'n cael ei goetsio yn *cyd-greu'r* agenda hyfforddi er mwyn diwallu anghenion penodol yr un sy'n cael ei goetsio. | Gosodir yr agenda fentora gan y *Mentorai*. Mae'r Mentor yn cefnogi'r agenda. |
| Cwestiynu | Mae gofyn *cwestiynau sy'n ysgogi'r meddwl* yn offeryn hollbwysig i'r hyfforddwr, ac mae'n helpu'r un sy'n cael ei goetsio i wneud penderfyniadau pwysig, yn cydnabod newidiadau mewn ymddygiad a gweithredu. | Yn y berthynas fentora, mae'r *Mentorai yn fwy tebygol o ofyn mwy o gwestiynau*, gan fanteisio ar arbenigedd y Mentor. |
| Deilliannau | Mae deilliant o gytundeb hyfforddi yn *benodol ac yn fesuradwy*, gan ddangos arwyddion o welliant neu newid | Gall deilliant o berthynas fentora newid dros amser. Mae llai o ddiddordeb mewn canlyniadau penodol, |

| | | |
|---|---|---|
| | cadarnhaol yn y maes perfformiad a ddymunir. | mesuradwy neu newid ymddygiad a *mwy o ddiddordeb yn natblygiad cyfan y Mentorai.* |

# Atodiad 3

## Archwiliad o sgiliau Tiwtor Ymarfer

Yn seiliedig yn rhannol ar y meini prawf ar gyfer 'Mae'r Mentoriaid mwyaf effeithiol' yn 'Y continwwm dysgu proffesiynol: Mentora mewn addysg gychwynnol athrawon (Estyn, 2018)

| Sgìl | Coch | | | Oren | | | Gwyrdd | | | Anghenion hyfforddiant wedi eu hadnabod | Adnoddau hyfforddiant i'w defnyddio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | **3** | **1** | **2** | **3** | **1** | **2** | **3** | | |
| Rwy'n ymarferydd cryf | | | | | | | | | | | |
| Rwy'n deall addysgeg addysg athrawon | | | | | | | | | | | |
| Mae gennyf ddealltwriaeth o egwyddorion hyfforddi a Mentora. | | | | | | | | | | | |
| Gallaf gefnogi a herio eraill wrth wella eu hymarfer proffesiynol. | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n defnyddio'r disgrifyddion SAC i helpu darpar athrawon i gael barn gyfannol ar addysgu. | | | | | | | | | | | |
| Rwy'n gallu gwrando, cwestiynu a herio eraill i adfyfyrio yn feirniadol | | | | | | | | | | | |
| Rwy'n gallu helpu eraill i fanteisio ar eu hysbrydoliaeth eu hunain drwy wrando'n weithredol neu ddefnyddio distawrwydd yn ôl yr angen. | | | | | | | | | | | |
| Rwy'n gallu egluro ffyrdd o feddwl a nodau eraill. | | | | | | | | | | | |
| Mae gennyf ddealltwriaeth dda o ymchwil ystafell ddosbarth ac rwy'n ymwneud ag ymchwil ac yn cynnal ymchwil. | | | | | | | | | | | |
| Rwy'n gyfarwydd â gofynion y brifysgol ac yn gallu helpu'r myfyrwyr i gysylltu damcaniaeth ac ymarfer. | | | | | | | | | | | |
| Rwy'n rhoi adborth ysgrifenedig ac ar lafar sy'n gywir ac yn deg ac sy'n helpu darpar athrawon i gael safbwynt cyfannol o'u cynnydd. | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae gennyf sgiliau TG da ac rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio llwyfan ar-lein i fanteisio ar hyfforddiant, deunyddiau rhaglenni a chwblhau dogfennau ar-lein. | | | | | | | | | | | |
| Rwy'n cymryd fy natblygiad proffesiynol o ddifrif ac rwy'n gosod esiampl dda i eraill. | | | | | | | | | | | |
| Rwy'n amrywio fy null o goetsio i ddiwallu anghenion y sawl sy'n cael eu hyfforddi. | | | | | | | | | | | |
| Rwy'n datblygu fy sgiliau ymchwil fy hun er mwyn archwilio'r cysylltiadau rhwng damcaniaeth ac ymarfer. | | | | | | | | | | | |
| Rwy'n gallu creu awyrgylch lle mae eraill yn hyderus i gymryd risgiau ac arbrofi wrth ymarfer. | | | | | | | | | | | |
| Mae gennyf sgiliau rhyngbersonol ardderchog, rwy'n gallu rhoi adborth adeiladol a rheoli cydberthnasau heriol. | | | | | | | | | | | |
| Rwy'n gallu cyfeirio eraill at adnoddau i gefnogi eu dysgu. | | | | | | | | | | | |

# Atodiad 4

## Cyrsiau Hyfforddi

Mae'r cyrsiau canlynol ar gael am ddim ar lwyfannau OpenLearn ac OpenLearn Create. Mae 'datganiad o gyfranogiad' ar gael i'r sawl sy'n cwblhau'r cyrsiau hyn.

### Archwilio Mentora ac Hyfforddi gyrfaol

Mae'r cwrs hwn yn archwilio'r hyn y mae Mentoriaid a Hyfforddwyr yn ei wneud ac yn archwilio sgiliau pwysig sy'n ymwneud, er enghraifft, â gofyn y cwestiynau cywir a herio rhagdybiaethau y gellir eu cymhwyso mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau er mwyn canfod atebion effeithiol. Mae ar gael drwy'r ddolen isod:

OpenLearn: Exploring career mentoring and coaching

### Meddylfryd Mentora

Bydd y cwrs rhad ac am ddim hwn, Meddylfryd mentora, yn cefnogi unrhyw un sydd wedi'i leoli mewn lleoliad addysg i ddatblygu dealltwriaeth o fentora athrawon newydd yn effeithiol yn y cyfnodau addysg gychwynnol athrawon a'r cyfnodau newydd gymhwyso.

Ar ôl astudio'r cwrs hwn, dylech allu:

- deall egwyddorion mentora effeithiol mewn athrawon cychwynnol
- addysg a rôl y Mentor fel addysgwr athrawon o fewn
- cyd-destun ysgol
- deall bod mentora yn gontinwwm sydd hefyd yn cynnwys
- hyfforddi

- cymhwyso damcaniaethau mentora a hyfforddi o fewn ymarfer athrawon
- wrth gefnogi athrawon dechreuol
- deall mentora fel cyfle dysgu proffesiynol ar gyfer
- datblygiad addysgu ac arweinyddiaeth bersonol
- datblygiad

Gellir cyrchu'r cwrs trwy ddefnyddio'r ddolen hon: [A mentoring mindset (Meddylfryd mentora) - OpenLearn - Open University]()

**Dysgu i addysgu: cyflwyniad i ymchwil dosbarth**

Ar ôl astudio'r cwrs hwn, dylech allu gwneud y canlynol:

- Gwybod sut i fynd ati i ddylunio darn o waith ymchwil
- Deall dwy fethodoleg benodol: astudiaeth achos a gwaith ymchwil gweithredol
- Deall rhai o'r materion sy'n gysylltiedig â chasglu a dadansoddi data
- Ystyried y ffordd orau o rannu eich gwaith.

Mae'r cwrs ar gael drwy'r ddolen isod:Start of Box

OpenLearn: Learning to teach: an introduction to classroom research

**Coetsio eraill i goetsio**

Mae'r cwrs hwn yn ymrwymedig i ddatblygu'r bobl sy'n datblygu'r hyfforddwyr.Byddwch yn cwmpasu pynciau sy'n archwilio:

- Sut mae hyfforddwyr yn dysgu,
- Pam y mae'n bwysig meithrin cydberthnasau effeithiol,
- Sut i ofyn cwestiynau da a gwrando'n weithredol,

- Sut y gall eich statws ddylanwadu ar y broses o ddysgu
- Y sgìl o arsylwi a rhoi adborth i hyfforddwyr.

Mae'r cwrs ar gael drwy'r ddolen isod:

OpenLearn: Coaching others to coach

# Atodiad 5

## Graddau ymchwil ôl-raddedig

Yn Y Brifysgol Agored, rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd ôl-raddedig:

- Modiwlau unigol. e.e. Dysgu yn y gweithle gyda choetsio a Mentora (30 credyd)
- Tystysgrif Astudiaethau Addysg Proffesiynol i Raddedigion
- Diploma Astudiaethau Addysg Proffesiynol i Raddedigion
- Graddau Meistr mewn Addysg (MEd)
- Doethuriaeth mewn Addysg (EdD)
- PhD ym meysydd Addysg neu Dechnoleg Addysg.

# Atodiad 6

## Fframwaith asesu ymarfer dysgu

### Addysgeg: Mireinio addysgu – tuag at ymarfer parhaus effeithiol iawn

| Elfennau | Disgrifyddion SAC | Disgrifiad o ymarfer a all fod yn Rhagori ar Ddisgwyliadau | Disgrifiad o ymarfer a all fod Ar y Trywydd iawn gyda sawl maes cryfder | Disgrifiad o ymarfer a all fod Ar y Trywydd iawn |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli'r amgylchedd dysgu | Mae'r darpar athro yn deall pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu, ac yn dangos ei waith sefydlu effeithiol a'i waith rheoli parhaus, o ran hybu arferion ac ymddygiadau dysgu cadarnhaol sy'n cyflawni'r pedwar diben ac y cânt eu deall gan ddysgwyr yn y cyd-destun hwnnw. | Sefydlu cydberthnasau rhagorol â bron pob un o'r dysgwyr, ar lefel unigol ac ar lefel ystafell ddosbarth, yn cynnwys disgyblion mwy swil a mwy heriol.<br><br>Gallu ymateb yn briodol ar unwaith i anghenion emosiynol, ymddygiadol a gwybyddol bron pob un o'r dysgwyr, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o sgiliau wedi'u gwreiddio.<br><br>Dangos gwybodaeth wedi'i gwreiddio am strategaethau rheoli ymddygiad, a | Meithrin cydberthnasau effeithiol iawn â'r rhan fwyaf o'r dysgwyr, ar lefel unigol ac ar lefel ystafell ddosbarth, yn cynnwys disgyblion mwy swil a mwy heriol.<br><br>Gallu ymateb yn briodol i anghenion emosiynol, ymddygiadol a gwybyddol y rhan fwyaf o'r dysgwyr, gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau wedi'u gwreiddio. | Dechrau meithrin cydberthnasau effeithiol â'r rhan fwyaf o'r dysgwyr, ar lefel unigol ac ar lefel ystafell ddosbarth, yn cynnwys disgyblion mwy swil a mwy heriol.<br><br>Mewn rhai achosion, gallu ymateb yn briodol i anghenion emosiynol, ymddygiadol a gwybyddol rhai o'r dysgwyr, gan ddefnyddio sgiliau sy'n dod i'r amlwg.<br><br>Dangos gwybodaeth briodol am strategaethau rheoli ymddygiad, |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gallu cymhwyso'r rhain mewn amrywiaeth o gyd-destunau er mwyn sicrhau dysgu effeithiol.<br><br>Gwneud defnydd rhagorol o'r amser a'r gofod sydd ar gael: er enghraifft, gallu cwblhau gwers fel y'i cynlluniwyd, a gwneud defnydd effeithiol iawn o ardaloedd gwahanol yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored. | Dangos gwybodaeth sefydledig am strategaethau rheoli ymddygiad, a gallu cymhwyso'r rhain mewn amrywiaeth o gyd-destunau er mwyn sicrhau dysgu effeithiol.<br><br>Gwneud defnydd effeithiol iawn o'r amser a'r gofod sydd ar gael, yn cynnwys gofod dan do ac yn yr awyr agored. | a gallu cymhwyso'r rhain mewn amrywiaeth o gyd-destunau er mwyn sicrhau dysgu effeithiol.<br><br>Gwneud defnydd priodol o'r amser a'r gofod sydd ar gael: er enghraifft, gwneud defnydd effeithiol o ardaloedd chwarae rôl. |
| Asesu | Caiff yr amrywiaeth o ddibenion ac arferion asesu eu deall a'u harddel. | Gallu gweithredu amrywiaeth eang o arferion asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth.<br><br>Gallu ymholi yn effeithiol, gan ddefnyddio cwestiynau agored a chaeedig, a rheoli'r ddeialog yn fedrus â'r dosbarth cyfan.<br><br>Deall sut i asesu gwybodaeth flaenorol, mynd i'r afael â chamsyniadau ac asesu cynnydd yn ystod y wers, a nodi'r camau nesaf ar gyfer bron pob un o'r | Gallu gweithredu amrywiaeth o arferion asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth.<br><br>Gallu ymholi yn effeithiol a rheoli'r ddeialog yn fedrus â'r dosbarth cyfan.<br><br>Deall sut i asesu gwybodaeth flaenorol, mynd i'r afael â chamsyniadau ac asesu cynnydd yn ystod y wers, a nodi'r camau nesaf ar gyfer y rhan fwyaf o'r | Gallu gweithredu arferion asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth.<br><br>Dechrau ymholi yn effeithiol a rheoli'r ddeialog â'r dosbarth cyfan.<br><br>Dechrau deall sut i asesu gwybodaeth flaenorol, mynd i'r afael â chamsyniadau ac asesu cynnydd yn ystod y wers, a nodi'r camau nesaf ar gyfer y rhan fwyaf |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | dysgwyr drwy olrhain cynnydd y disgyblion yn gyson.<br><br>Sicrhau bod dadansoddiad beirniadol o asesiad blaenorol yn llywio gwaith cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn gyson, e.e. cynnwys gwahaniaethu effeithiol i helpu a herio unigolion yn briodol.<br><br>Creu amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgwyr hunanasesu ac asesu cymheiriaid yn gyson ac yn effeithiol ar ddiwedd tasgau neu yn ystod y sesiwn gloi. Caiff dulliau hunanasesu ac asesu cymheiriaid eu cysylltu'n glir â meini prawf llwyddiant y cytunwyd arnynt. | dysgwyr drwy olrhain cynnydd y disgyblion yn rheolaidd.<br><br>Sicrhau bod dadansoddiad o asesiad blaenorol yn llywio gwaith cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, e.e. cynnwys gwahaniaethu effeithiol i helpu a herio grwpiau o ddisgyblion o alluoedd gwahanol.<br><br>Creu amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr hunanasesu ac asesu cymheiriaid yn effeithiol ar ddiwedd tasgau neu yn ystod y sesiwn gloi. Anelu at gysylltu hunanasesiadau ac asesiadau cymheiriaid â meini prawf llwyddiant. | o'r dysgwyr, e.e. drwy olrhain cynnydd y disgyblion.<br><br>Dechrau cynllunio gweithgareddau dysgu wedi'u llywio gan asesiadau blaenorol yn cynnwys gwahaniaethu i gefnogi cynnydd disgyblion.<br><br>Creu sawl cyfle i ddysgwyr hunanasesu ac asesu cymheiriaid ar ddiwedd tasgau neu yn ystod y sesiwn gloi. |
| Gwahaniaethu | Mae'r darpar athro yn dangos gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad o ddisgwyliadau uchel ac ymarfer effeithiol wrth ddiwallu anghenion pob un o'r dysgwyr, beth bynnag fo'u hanghenion gwahanol. | Cynllunio a chynnal gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb ac yn herio bron pob un o'r dysgwyr.<br><br>Cysylltu eu gwaith o gynllunio gweithgareddau yn gyson â | Cynllunio a chynnal gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb ac yn herio'r rhan fwyaf o'r dysgwyr.<br><br>Cysylltu eu gwaith o gynllunio gweithgareddau â deilliannau | Dechrau cynllunio a chynnal gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb ac yn herio llawer o'r dysgwyr.<br><br>Mewn rhai achosion, cysylltu eu gwaith o gynllunio |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | deilliannau blaenorol y dysgwyr a data perfformiad yr ysgol.<br><br>Addasu deunyddiau dysgu i sicrhau bod y cwricwlwm ar gael i bob un o'r dysgwyr.<br><br>Cynllunio a chynnal gweithgareddau sy'n ehangu ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth i ddisgyblion Mwy Abl a Thalentog. | blaenorol y dysgwyr a data perfformiad yr ysgol.<br><br>Addasu deunyddiau dysgu i sicrhau bod y cwricwlwm ar gael i'r rhan fwyaf o'r dysgwyr.<br><br>Cynllunio a chynnal gweithgareddau yn rheolaidd i ehangu'r ddarpariaeth i ddisgyblion Mwy Abl a Thalentog. | gweithgareddau â deilliannau blaenorol y dysgwyr a data perfformiad yr ysgol.<br><br>Weithiau, addasu deunyddiau dysgu i sicrhau bod y cwricwlwm ar gael i'r rhan fwyaf o'r dysgwyr.<br><br>Weithiau, cynllunio a chynnal gweithgareddau i ehangu'r ddarpariaeth i ddisgyblion Mwy Abl a Thalentog. |
| Cofnodi ac Adrodd | Mae'r darpar athro yn creu cofnodion priodol, amserol a chywir, ac yn adrodd ac yn rhoi adborth er mwyn hwyluso dealltwriaeth ddyfnach o'r dysgu a gwella'r profiad dysgu. | Cofnodi data cyrhaeddiad yn gywir ac yn gyson yn unol â pholisi'r ysgol.<br><br>Rhoi adborth ysgrifenedig rhagorol.<br><br>Gwneud defnydd beirniadol o ddata crynodol er mwyn cynllunio'n effeithiol, yn y byrdymor a'r hirdymor.<br><br>Gwneud cyfraniadau arwyddocaol i adroddiadau i rieni/gofalwyr. | Cofnodi data cyrhaeddiad yn gywir yn unol â pholisi'r ysgol.<br><br>Rhoi adborth ysgrifenedig da<br><br>Gwneud defnydd da o ddata crynodol er mwyn cynllunio'n effeithiol, yn y byrdymor a'r hirdymor.<br><br>Gwneud cyfraniadau da i adroddiadau i rieni/gofalwyr. | Dangos tystiolaeth o gofnodi data cyrhaeddiad yn unol â pholisi'r ysgol.<br><br>Rhoi adborth ysgrifenedig priodol.<br><br>Gwneud digon o ddefnydd priodol o ddata crynodol i gynllunio dysgu.<br><br>Gwneud cyfraniad priodol wrth adrodd i rieni/gofalwyr. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynnwys partneriaid yn y dysgu | Pwysigrwydd cynnwys rhieni/gofalwyr a phartneriaid mewn modd cadarnhaol yn cael ei ddeall, a manteisio ar gyfleoedd i arsylwi ar brosesau a'u gwerthuso. | Dangos dealltwriaeth wedi'i gwreiddio o'r modd y gall rhieni a phartneriaid allanol gyfrannu at ddysgu effeithiol a datblygu'r pedwar diben.<br><br>Gweithio gydag asiantaethau allanol, e.e. nyrs ysgol, seicolegydd addysg, gweithwyr cefnogi ymddygiad, gwasanaethau cymdeithasol.<br><br>Arsylwi ar y dulliau o gyfathrebu â rhieni/gofalwyr ac eraill, eu gwerthuso'n feirniadol a'u deall. | Dangos dealltwriaeth sefydledig o'r modd y gall rhieni a phartneriaid allanol gyfrannu at ddysgu effeithiol gyfrannu at ddysgu effeithiol a datblygu'r pedwar diben.<br><br>Arsylwi ar waith gydag asiantaethau allanol, e.e. nyrs ysgol, seicolegydd addysg, gweithwyr cefnogi ymddygiad, gwasanaethau cymdeithasol.<br><br>Arsylwi ar y dulliau o gyfathrebu â rhieni/gofalwyr ac eraill, eu gwerthuso a'u deall. | Dangos dealltwriaeth newydd o'r modd y gall rhieni a phartneriaid allanol gyfrannu at ddysgu effeithiol.<br><br>Dechrau arsylwi ar gyfarfodydd ag asiantaethau allanol lle y bo'n briodol, e.e. nyrs ysgol, seicolegydd addysg, gweithwyr cefnogi ymddygiad, gwasanaethau cymdeithasol.<br><br>Arsylwi ar y dulliau o gyfathrebu â rhieni/gofalwyr ac eraill. |

# Addysgeg: Datblygu dysgu - Drwy gymhwyso gwybodaeth bynciol a disgyblaeth yn effeithiol

| Elfennau | Disgrifyddion SAC | Disgrifiad o ymarfer a all fod yn 'Rhagori ar Ddisgwyliadau' | Disgrifiad o ymarfer a all fod 'Ar y Trywydd Iawn gyda Sawl Maes Cryfder' | Disgrifiad o ymarfer a all fod 'Ar y Trywydd Iawn' |
|---|---|---|---|---|
| Pedwar diben i ddysgwyr | Mae'r darpar athro yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion pob un o'r dysgwyr wrth gynllunio, paratoi ac addysgu, gan sicrhau mai'r pedwar diben sy'n ysgogi profiadau'r dysgwyr. | Sicrhau bod y dysgwyr yn gwneud cynnydd ardderchog o fewn y pedwar diben dros gyfres o wersi.<br><br>Dangos dealltwriaeth wedi'i gwreiddio o oblygiadau'r pedwar diben ar gyfer cynnwys y pwnc, oedran a chyrhaeddiad blaenorol y dysgwyr.<br><br>Dangos dealltwriaeth wedi'i gwreiddio o'r modd y gall addysgegau gwahanol hwyluso'r gwaith o ddatblygu'r Pedwar Diben, e.e. meithrin sgiliau meddwl lefel uwch, defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu ar gyfer dysgu effeithiol a rhoi llais i'r disgyblion. | Sicrhau bod y dysgwyr yn gwneud cynnydd da o fewn y pedwar diben dros gyfres o wersi.<br><br>Dangos dealltwriaeth sefydledig o oblygiadau'r pedwar diben ar gyfer cynnwys y pwnc, oedran a chyrhaeddiad blaenorol y dysgwyr.<br><br>Dangos dealltwriaeth sefydledig o'r modd y gall addysgegau gwahanol hwyluso'r gwaith o ddatblygu'r Pedwar Diben, e.e. defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu ar gyfer dysgu effeithiol a rhoi llais i'r disgyblion.<br><br>Deall perthnasedd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau i'r pedwar diben. | Sicrhau bod y dysgwyr yn gwneud cynnydd priodol o fewn y pedwar diben dros gyfres o wersi.<br><br>Dangos dealltwriaeth newydd o oblygiadau'r pedwar diben ar gyfer cynnwys y pwnc, oedran a chyrhaeddiad blaenorol y dysgwyr.<br><br>Dangos dealltwriaeth newydd o'r modd y gall addysgegau gwahanol hwyluso'r gwaith o ddatblygu'r pedwar diben, e.e. rhoi llais i'r disgyblion.<br><br>Deall perthnasedd rhai o'r gweithgareddau i'r pedwar diben. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Deall perthnasedd holl gynnwys y cwricwlwm i'r pedwar diben. | | |
| Defnyddio disgyblaethau'r pwnc mewn MDPh. | Mae'r darpar athro yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o addysgegau a disgyblaethau perthnasol o fewn ac ar draws cynnwys pwnc, meysydd dysgu a themâu trawsgwricwlaidd, a chynllunio'n briodol. | Cynllunio gwersi ardderchog a chyfres o wersi sy'n cyflawni'r pedwar diben.<br><br>Dangos dealltwriaeth wedi'i gwreiddio o gynnwys y pwnc.<br><br>Deall, cynllunio a gweithredu amrywiaeth wedi'i gwreiddio o addysgegau.<br><br>Dangos dealltwriaeth wedi'i gwreiddio o leoliad topig mewn MDPh a/neu bwnc penodol.<br><br>Cynllunio gweithgareddau ardderchog yn gyson sy'n datblygu cymhwysedd digidol, sgiliau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr ar draws y cwricwlwm. | Cynllunio gwersi da a chyfres o wersi sy'n cyflawni'r pedwar diben.<br><br>Dangos dealltwriaeth sefydledig o gynnwys y pwnc.<br><br>Deall, cynllunio a gweithredu amrywiaeth sefydledig o addysgegau.<br><br>Dangos dealltwriaeth sefydledig o leoliad topig mewn MDPh a/neu bwnc penodol.<br><br>Cynllunio gweithgareddau difyr sy'n datblygu cymhwysedd digidol, sgiliau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr ar draws y cwricwlwm. | Cynllunio gwersi boddhaol sy'n cyflawni'r pedwar diben.<br><br>Dangos dealltwriaeth newydd o gynnwys y pwnc.<br><br>Deall, cynllunio a gweithredu amrywiaeth newydd o addysgegau.<br><br>Dangos dealltwriaeth newydd o leoliad topig mewn MDPh a/neu bwnc penodol.<br><br>Cynllunio gweithgareddau priodol sy'n datblygu cymhwysedd digidol, sgiliau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr ar draws y cwricwlwm. |
| Profiadau dysgu cyfunol | Mae'r darpar athro yn deall y broses o ddethol, defnyddio a chyfiawnhau | Mabwysiadu amrywiaeth eang o addysgegau ac amgylcheddau | Mabwysiadu amrywiaeth dda o addysgegau ac amgylcheddau | Mabwysiadu amrywiaeth briodol o addysgegau ac amgylcheddau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | amrywiaeth o ddulliau addysgu creadigol er budd pob dysgwr. | dysgu effeithiol, yn cynnwys, er enghraifft, gwaith grŵp, chwarae rôl, dysgu seiliedig ar broblemau, gweithgareddau ar y rhyngrwyd, ymweliadau oddi ar y safle, ardaloedd awyr agored, amgylcheddau dysgu rhithwir, ac ati.<br><br>Llunio a chyflwyno amrywiaeth wedi'i gwreiddio o adnoddau dysgu arloesol: er enghraifft, modelau, taflenni gwaith, gweithgareddau trefnu cardiau, gemau electronig, gwisgoedd, ac ati. | dysgu effeithiol, yn cynnwys, er enghraifft, gwaith grŵp, chwarae rôl, dysgu seiliedig ar broblemau, gweithgareddau ar y rhyngrwyd, ymweliadau oddi ar y safle, ardaloedd awyr agored, amgylcheddau dysgu rhithwir, ac ati.<br><br>Llunio a chyflwyno amrywiaeth sefydledig o adnoddau dysgu arloesol: er enghraifft, modelau, taflenni gwaith, gweithgareddau trefnu cardiau, gemau electronig, gwisgoedd, ac ati. | dysgu effeithiol, yn cynnwys, er enghraifft, gwaith grŵp, chwarae rôl, dysgu seiliedig ar broblemau, gweithgareddau ar y rhyngrwyd, ymweliadau oddi ar y safle, ardaloedd awyr agored, amgylcheddau dysgu rhithwir, ac ati.<br><br>Cyflwyno amrywiaeth newydd o adnoddau dysgu arloesol: er enghraifft modelau, taflenni gwaith, gweithgareddau trefnu, gemau electronig, gwisgoedd, ac ati. |
| Cyd-destunau dilys, go iawn | Mae'r darpar athro yn dangos dealltwriaeth o'r modd y defnyddir cyd-destunau dilys, go iawn ar gyfer dysgu fel rhan naturiol o'r profiad dysgu. Mae hyn yn ehangu profiad diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd gymdeithasol y dysgwr, ac yn dangos y modd y caiff | Cyflwyno cyd-destun y cwricwlwm yn gyson mewn cyd-destunau creadigol, perthnasol a dilys sy'n pwysleisio cysylltiadau â'r byd go iawn.<br><br>Meithrin holl wybodaeth y dysgwyr am Gymru a diwylliant Cymru drwy | Cyflwyno cynnwys y cwricwlwm yn rheolaidd mewn cyd-destunau perthnasol a dilys sy'n pwysleisio cysylltiadau â'r byd go iawn.<br><br>Meithrin gwybodaeth y rhan fwyaf o'r dysgwyr am Gymru a diwylliant Cymru drwy weithgareddau | Dechrau cyflwyno cynnwys y cwricwlwm mewn cyd-destunau sy'n cysylltu â'r byd go iawn.<br><br>Meithrin gwybodaeth rhywfaint o'r dysgwyr am Gymru a diwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cysyniadau a chrynodebau eu cymhwyso yn ymarferol. | weithgareddau ystyrlon, llawn cyd-destun ar draws y cwricwlwm.<br><br>Dealltwriaeth wedi'i gwreiddio o'r modd y gall cyd-destun wella a meithrin sgiliau gwybyddol pob dysgwr, e.e. drwy ddefnyddio caneuon, gemau a gweithgareddau ymarferol.<br><br>Dangos dealltwriaeth wedi'i gwreiddio o rôl cyd-destun wrth ddatblygu cymhwysedd digidol, llythrennedd a rhifedd y dysgwyr. | ystyrlon, llawn cyd-destun ar draws y cwricwlwm.<br><br>Dealltwriaeth sefydledig o'r modd y gall cyd-destun wella a meithrin sgiliau gwybyddol pob dysgwr, e.e. drwy ddefnyddio caneuon, gemau a gweithgareddau ymarferol.<br><br>Dangos dealltwriaeth sefydledig o rôl cyd-destun wrth ddatblygu cymhwysedd digidol, llythrennedd a rhifedd y dysgwyr. | Dealltwriaeth newydd o'r modd y gall cyd-destun wella a meithrin sgiliau gwybyddol pob dysgwr, e.e. drwy ddefnyddio caneuon, gemau a gweithgareddau ymarferol.<br><br>Dangos dealltwriaeth newydd o rôl cyd-destun wrth ddatblygu cymhwysedd digidol, llythrennedd a rhifedd y dysgwyr. |
| Cynnydd wrth ddysgu | Mae'r darpar athro yn dangos dealltwriaeth o'r modd y mae dysgu yn datblygu yn raddol ac yn dangiadol, gan adeiladu ar brofiad a dysgu blaenorol, a chynllunio ar gyfer gwneud cynnydd wrth ddysgu yn seiliedig ar hyn. | Dangos dealltwriaeth wedi'i gwreiddio o ofynion y cwricwlwm mewn camau dysgu blaenorol a dilynol, h.y. y flwyddyn neu'r cyfnod is neu uwch.<br><br>Dangos dealltwriaeth wedi'i gwreiddio o'r modd y gall gwybodaeth am ddysgu blaenorol a chynllunio amcanion dysgu dilys hwyluso cynnydd dysgwr, e.e. drwy | Dangos dealltwriaeth sefydledig o ofynion y cwricwlwm mewn camau dysgu blaenorol a dilynol, h.y. y flwyddyn neu'r cyfnod is neu uwch.<br><br>Dangos dealltwriaeth sefydledig o'r modd y gall gwybodaeth am ddysgu blaenorol a chynllunio amcanion dysgu dilys hwyluso cynnydd dysgwr, e.e. drwy | Dangos gwybodaeth newydd am ofynion y cwricwlwm mewn camau dysgu blaenorol a dilynol, h.y. y flwyddyn neu'r cyfnod is neu uwch.<br><br>Dangos gwybodaeth newydd am y modd y gall dysgu blaenorol a rhannu amcanion y wers hwyluso cynnydd dysgwr, e.e. drwy ofyn am ddysgu blaenorol a rhannu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | alluogi'r dysgwyr i benderfynu ar amcan dysgu.<br><br>Gallu cynllunio gwersi a/neu weithgareddau ardderchog sy'n datblygu'r hyn y mae dysgwyr ag ADY yn ei ddysgu yn sylweddol. | benderfynu ar amcan dysgu â'r disgyblion.<br><br>Gallu cynllunio gwersi a/neu weithgareddau effeithiol iawn sy'n datblygu'r hyn y mae dysgwyr ag ADY yn ei ddysgu mewn modd effeithiol. | amcanion y wers yn ystod y cyflwyniad.<br><br>Gallu cynllunio gwersi a/neu weithgareddau sy'n helpu dysgwyr ag ADY i ddysgu. |
| Themâu trawsgwricwlaidd | Mae'r darpar athro yn gwybod am egwyddorion dylunio ac arloesi'r cwricwlwm, yn eu deall ac yn ymgysylltu â nhw, ynghyd â datblygiad themâu trawsgwricwlaidd sy'n berthnasol i feysydd dysgu, ac yn cyfiawnhau penderfyniadau. | Cynllunio ac addysgu profiadau dysgu trawsgwricwlaidd ardderchog, gan wneud cysylltiadau ystyrlon perthnasol â MDPh/pynciau eraill, e.e. celf a rhifedd/hanes a llythrennedd.<br><br>Arwain y gwaith y gynllunio gweithgareddau ag athrawon a phynciau eraill.<br><br>Dangos dealltwriaeth wedi'i gwreiddio o waith dylunio'r cwricwlwm.<br><br>Sicrhau bod bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd | Cynllunio ac addysgu profiadau dysgu trawsgwricwlaidd priodol, gan wneud cysylltiadau perthnasol â MDPh/pynciau eraill, e.e. gwyddoniaeth a rhifedd/hanes a llythrennedd.<br><br>Cynllunio gweithgareddau ag athrawon eraill o bynciau eraill.<br><br>Dangos dealltwriaeth sefydledig o waith dylunio'r cwricwlwm.<br><br>Sicrhau bod y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da ym mhob cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd. | Cynllunio ac addysgu profiadau dysgu trawsgwricwlaidd, gan wneud cysylltiadau boddhaol â MDPh/pynciau eraill e.e. daearyddiaeth a rhifedd/celf a FfCD.<br><br>Dechrau cynllunio gweithgareddau ag athrawon eraill o bynciau eraill.<br><br>Dangos dealltwriaeth newydd o waith dylunio'r cwricwlwm.<br><br>Sicrhau bod y mwyafrif o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd ym mhob cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ardderchog ym mhob cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd. | | |

# Addysgeg: Dylanwadu ar ddysgwyr - creu tueddiadau cadarnhaol gan ddysgwyr

| Elfennau | Disgrifyddion SAC | Disgrifiad o ymarfer a all fod yn 'Rhagori ar Ddisgwyliadau' | Disgrifiad o ymarfer a all fod 'Ar y Trywydd Iawn gyda Sawl Maes Cryfder' | Disgrifiad o ymarfer a all fod 'Ar y Trywydd Iawn' |
|---|---|---|---|---|
| Herio a disgwyliadau | Mae'r darpar athro yn rhoi lefelau priodol o her a disgwyliadau ar gyfer yr amrywiaeth o alluoedd a nodweddion myfyrwyr, gan gymell y dysgwyr i gyflawni. | Dangos disgwyliadau wedi'u gwreiddio o ddysgu ac ymddygiad pob un o'r dysgwyr, gyda lefel berthnasol o her a chysondeb mewn perthynas â rheolau dosbarth.<br><br>Cynllunio a chynnal gweithgareddau perthnasol sy'n herio pob un o'r dysgwyr ac yn ennyn eu diddordeb.<br><br>Defnyddio amrywiaeth wedi'i gwreiddio o ddulliau cyfathrebu i ennyn diddordeb y dysgwyr a'u cymell, e.e. clip fideo, clip sain, apiau, tôn y llais, amrywiaeth eang o adnoddau wedi'u cynllunio'n dda.<br><br>Disgwyliadau uchel o bob dysgwr, ni waeth beth fo'u hil, credo, rhywedd, | Dangos disgwyliadau sefydledig o ddysgu ac ymddygiad pob un o'r dysgwyr, e.e. gyda lefel berthnasol o her a thrwy sefydlu rheolau dosbarth.<br><br>Cynllunio a chynnal gweithgareddau sy'n herio ac yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r dysgwyr.<br><br>Defnyddio amrywiaeth sefydledig o ddulliau cyfathrebu i ennyn diddordeb y dysgwyr a'u cymell, e.e. clip fideo, clip sain, apiau, tôn y llais, amrywiaeth o adnoddau wedi'u cynllunio'n dda.<br><br>Disgwyliadau uchel o'r rhan fwyaf o'r dysgwyr, ni waeth beth fo'u hil, credo, rhywedd, cyfeiriadedd | Dangos disgwyliadau newydd o ddysgu ac ymddygiad pob un o'r dysgwyr drwy gynllunio lefelau priodol o her a sicrhau bod rheolau'n glir.<br><br>Cynllunio a chynnal gweithgareddau sy'n herio'r rhan fwyaf o'r dysgwyr.<br><br>Defnyddio amrywiaeth newydd o ddulliau cyfathrebu i ennyn diddordeb y dysgwyr a'u cymell, e.e. clipiau fideo, clipiau sain, apiau, tôn y llais, adnoddau wedi'u paratoi'n dda.<br><br>Disgwyliadau uchel o'r rhan fwyaf o'r dysgwyr, ni waeth beth fo'u hil, credo, rhywedd, cyfeiriadedd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cyfeiriadedd rhywiol a statws economaidd gymdeithasol. | rhywiol a statws economaidd gymdeithasol. | rhywiol a statws economaidd gymdeithasol. |
| Gwrando ar ddysgwyr | Mae'r darpar athro yn dangos parodrwydd i geisio ac ystyried safbwyntiau dysgwyr a gwrando arnynt, er mwyn ymgysylltu â nhw a'u hannog fel cyfranogwyr gweithredol yn eu gwaith dysgu eu hunain. | Gwrando ar y dysgwyr yn y dosbarth ac ymateb gyda dealltwriaeth, yn emosiynol ac yn ddeallusol.<br><br>Hwyluso trafodaeth ar faterion sy'n benagored, yn gymhleth, yn ddadleuol neu'n emosiynol lle y bo'n briodol.<br><br>Gwneud defnydd ardderchog o farn y dysgwyr wrth gynllunio neu werthuso addysgu a dysgu, e.e. diwrnod cynllunio topigau. | Gwrando ar y dysgwyr yn y dosbarth ac ymateb yn briodol, yn emosiynol ac yn ddeallusol.<br><br>Gallu hwyluso trafodaeth effeithiol iawn ar gyfer y dosbarth cyfan ar amrywiaeth o dopigau.<br><br>Gwneud defnydd da o safbwyntiau'r dysgwyr wrth gynllunio neu werthuso addysgu a dysgu e.e. diwrnod cynllunio topigau. | Dangos rhywfaint o dystiolaeth o wrando ar y dysgwyr yn y dosbarth ac ymateb yn briodol weithiau, yn emosiynol ac yn ddeallusol.<br><br>Dechrau hwyluso trafodaeth effeithiol ar gyfer y dosbarth cyfan.<br><br>Gwneud defnydd boddhaol o farn y dysgwyr wrth gynllunio neu werthuso addysgu a dysgu, e.e. diwrnod cynllunio topigau. |
| Dysgwyr yn arwain y gwaith dysgu | Wrth gynllunio a chyflwyno, mae'r darpar athro yn dangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd annog y dysgwyr i adfyfyrio ar eu dysgu eu hunain. | Creu cyfleoedd i'r dysgwyr hunanasesu ac asesu cymheiriaid yn gyson ac yn effeithiol yn ystod sesiynau llawn a nifer o gyfleoedd bach i drafod yn ystod y wers. | Creu cyfleoedd i'r dysgwyr hunanasesu ac asesu cymheiriaid yn rheolaidd ac yn effeithiol yn ystod sesiynau llawn ac wrth gwblhau'r gweithgaredd.<br><br>Cynnwys y dysgwyr yn rheolaidd wrth gynllunio amcanion dysgu. | Dechrau arbrofi gydag amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr hunanasesu ac asesu cymheiriaid yn effeithiol yn ystod y sesiwn gloi.<br><br>Dechrau cynnwys dysgwyr wrth gynllunio amcanion dysgu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cynnwys y dysgwyr yn gyson ac yn effeithiol wrth gynllunio amcanion dysgu. | | |
| Ymdrech a gwydnwch cyson gan ddysgwyr | Mae'r darpar athro yn annog ac yn sicrhau hunangymhelliant a hunangyfeiriad ymysg y dysgwyr wrth iddynt ddysgu. | Cynllunio gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb yn gyson sy'n annog dysgu annibynnol, ac sy'n meithrin blaengaredd y dysgwyr.<br><br>Cymell y dysgwyr yn gyson i ddyfalbarhau, i weld problemau fel heriau, nid rhwystrau, ac i ofyn am help pan fydd angen.<br><br>Creu amgylchedd dysgu sy'n gwerthfawrogi ac yn dathlu gwaith caled a chyflawniad yn gyson. | Cynllunio gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb a dysgu annibynnol yn rheolaidd.<br><br>Cymell dysgwyr yn rheolaidd i ddyfalbarhau, i weld problemau fel heriau, nid rhwystrau, ac i ofyn am help pan fydd angen.<br><br>Creu amgylchedd dysgu sy'n gwerthfawrogi ac yn dathlu gwaith caled a chyflawniad yn rheolaidd. | Gallu cynllunio rhai gweithgareddau sy'n annog dysgu annibynnol.<br><br>Weithiau, ysgogi dysgwyr i ddyfalbarhau ac i ofyn am help pan fydd angen.<br><br>Dechrau creu amgylchedd dysgu sy'n gwerthfawrogi ac yn dathlu gwaith caled a chyflawniad. |
| Adfyfyrio ar ddysgu | Wrth gynllunio, mae'r darpar athro yn dangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd annog y dysgwyr i adfyfyrio ar ymddygiadau ac agweddau at ddysgu, a'u gwerthuso. | Sicrhau bod yr holl ddysgu yn adfyfyriol a bod y dysgwyr yn dod yn ymwybodol o'r modd maent wedi dysgu a'r hyn maent wedi'i ddysgu cyn iddynt adael yr ystafell ddosbarth. | Sicrhau bod y rhan fwyaf o'r dysgu yn adfyfyriol a bod y dysgwyr yn dod yn ymwybodol o'r modd maent wedi dysgu a'r hyn maent wedi'i ddysgu cyn iddynt adael yr ystafell ddosbarth. | Dechrau sicrhau bod rhywfaint o'r dysgu yn adfyfyriol a bod y dysgwyr yn ymwybodol o'r hyn maent wedi'i ddysgu cyn iddynt adael yr ystafell ddosbarth.<br><br>Dechrau rhoi'r adnoddau sydd eu hangen i'r dysgwyr i'w galluogi i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Rhoi'r adnoddau sydd eu hangen fwyaf ar y dysgwyr yn gyson i'w galluogi i gynllunio ac adfyfyrio ar eu dysgu, e.e. rhestrau gwirio, cyfarwyddiadau a dulliau trefnu.<br><br>Cyflwyno sesiynau cloi yn gyson sy'n annog y dysgwyr i hunanfonitro yr hyn maent yn ei ddysgu. | Rhoi'r adnoddau sydd eu hangen ar y mwyafrif o'r dysgwyr yn rheolaidd i'w galluogi i gynllunio ac adfyfyrio ar eu dysgu, e.e. rhestrau gwirio, cyfarwyddiadau a dulliau trefnu.<br><br>Cyflwyno sesiynau cloi yn rheolaidd sy'n annog y dysgwyr i hunanfonitro yr hyn maent yn ei ddysgu. | gynllunio ac adfyfyrio ar eu dysgu, e.e. rhestrau gwirio, cyfarwyddiadau a dulliau trefnu.<br><br>Weithiau, cyflwyno sesiynau cloi sy'n annog y dysgwyr i hunanfonitro yr hyn maent wedi'i ddysgu. |
| Deilliannau dysgu a llesiant | Mae'r darpar athro yn codi ymwybyddiaeth o'r modd y mae profiadau dysgu o ansawdd uchel a deilliannau perfformiad yn arwain at ddysgu gwell ac ymdeimlad cryfach o lesiant. | Sicrhau yn gyson bod cynnydd pob un o'r dysgwyr wedi'i gysylltu â'u llesiant.<br><br>Creu amgylchedd dysgu sy'n annog y dysgwyr i gefnogi ei gilydd ac i gydweithio<br><br>Sicrhau bod pob tasg yn cynnwys lefel briodol o her a chefnogaeth, ac yn arwain at lwyddiant a chynnydd i bob un o'r dysgwyr. | Sicrhau yn rheolaidd bod cynnydd y rhan fwyaf o'r dysgwyr wedi'i gysylltu â'u llesiant.<br><br>Creu amgylchedd dysgu sy'n annog y dysgwyr i gefnogi ei gilydd ac i gydweithio.<br><br>Sicrhau bod y rhan fwyaf o'r tasgau yn cynnwys lefel briodol o her a chefnogaeth sy'n arwain at lwyddiant a chynnydd i'r rhan fwyaf o'r dysgwyr. | Weithiau, sicrhau bod cynnydd y mwyafrif o'r dysgwyr wedi'i gysylltu â'u llesiant.<br><br>Dechrau creu amgylchedd dysgu sy'n annog y dysgwyr i gydweithio.<br><br>Dangos rhywfaint o dystiolaeth o gynllunio tasgau sy'n cynnwys lefel briodol o her a chefnogaeth, ac yn arwain at lwyddiant a chynnydd i'r mwyafrif o'r dysgwyr. |

# Cydweithio - sicrhau bod addysgeg effeithiol yn cael ei rhannu

| Elfennau | Disgrifyddion SAC | Disgrifiad o ymarfer a all fod yn 'Rhagori ar Ddisgwyliadau' | Disgrifiad o ymarfer a all fod 'Ar y Trywydd Iawn gyda Sawl Maes Cryfder' | Disgrifiad o ymarfer a all fod 'Ar y Trywydd Iawn' |
|---|---|---|---|---|
| Ceisio cyngor a chymorth | Mae'r darpar athro yn ceisio cymorth gan amrywiaeth o ffynonellau ffurfiol ac anffurfiol ac yn ymgysylltu â nhw. Mae hyn yn cynnwys arsylwi ac addysgu tîm, ynghyd â dangos lefelau cynyddol o annibyniaeth. | Drwy gychwyn trafodaethau adfyfyriol, mynd ati i geisio cyngor ac adborth (o arsylwadau gwersi, deialog broffesiynol ac ati) a mynd ati'n effeithio i wella ei ymarfer ei hun a'i sgiliau ehangach yn annibynnol. | Drwy fynd ati i gyfrannu at drafodaethau adfyfyriol, gwneud defnydd effeithiol o gyngor ac adborth i wella ei ymarfer ei hun drwy addysgu tîm a chydgynllunio â Mentoriaid, cymheiriaid a gweithwyr proffesiynol eraill. | Drwy ymateb i achosion o ymholi, rhoi cyngor ac adborth a dechrau cymryd camau tuag at wella ei ymarfer ei hun.<br><br>Dechrau gwneud cynnydd boddhaol drwy addysgu tîm a chydgynllunio â Mentoriaid. Adfyfyrio ar ei ymarfer ei hun a, lle y bo'n briodol, ceisio cyngor gan y Mentor. |
| Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol | Caiff gwaith trefnus ac adeiladol gydag amrywiaeth o gydweithwyr i wella profiad y dysgwyr ei wneud yn gyson fel rhan o ymarfer yr athro. Caiff adfyfyrio ar y gwaith o ddatblygu arbenigedd ei strwythuro fel proses bersonol neu gydweithredol, fel y bo'n briodol. | Meithrin cydberthnasau pwrpasol â'r Mentor â'r gymuned addysgu a dysgu ehangach drwy gydweithredu ar gyfraniadau gwerthfawr i gymuned yr ysgol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. | Meithrin cydberthnasau adeiladu â'r Mentor ac, wrth i gyfleoedd godi, yn y gymuned addysgu a dysgu ehangach.<br><br>Ymgysylltu lle bo'n bosibl â phrosesau datblygu'r cwricwlwm, cynlluniau gwelliant a gwaith | Meithrin cydberthynas broffesiynol effeithiol â'r Mentor a chydweithwyr.<br><br>Ymgysylltu'n briodol â phrosesau datblygu'r cwricwlwm yn yr ysgol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mynd ati i ymgysylltu ym mhrosesau datblygu'r cwricwlwm, cynllunio gwelliant ac adolygu proffesiynol. | proffesiynol i adolygu a datblygu'r ysgol. | |
| Cefnogi a datblygu eraill | Mae'r athro yn meithrin cydberthnasau o ansawdd uchel â chydweithwyr er mwyn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgwyr yn yr ysgol. | Meithrin cydberthnasau pwrpasol â'r Mentor a'r gymuned dysgu ehangach.<br><br>Chwarae rôl arweiniol drwy gyflwyno syniad newydd, cyfres o wersi, addysgeg neu broses a gaiff ei mabwysiadu ac sy'n gwella addysgu a dysgu ar draws cyfnodau/yr ysgol. | Cymryd rhan weithredol mewn gwaith dysgu proffesiynol gydag eraill, gan ymgysylltu â gwaith adfyfyrio, dysgu ac ymarfer grŵp.<br><br>Gallu chwarae rhan weithredol mewn nosweithiau rhieni a chyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd tîm.<br><br>Cyfrannu at yr hyn a ddysgir drwy rannu profiadau llwyddiannus â chydweithwyr, e.e. drwy ddisgrifio profiad dysgu mewn cyfarfod tîm. | Cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol ag eraill.<br><br>Gallu trafod addysgu a dysgu mewn lleoliad mwy anffurfiol o bosibl ag aelodau o staff heblaw'r Mentor/tiwtor.<br><br>Dangos tystiolaeth o rannu profiadau dysgu â chyfoedion. |
| Galluogi gwelliant | Mae enghreifftiau o welliant mewn deilliannau i ddysgwyr ar ôl i'r athro geisio cyngor a'i roi ar waith. | Wedi gwella ei ymarfer ei hun o ganlyniad i adfyfyrio beirniadol annibynnol.<br><br>Wedi nodi rhwystr at ddysgu a llwyddo i'w ddileu yn annibynnol drwy gymhwyso damcaniaeth ac | Wedi addasu ymarfer presennol a mabwysiadu strategaethau newydd sy'n arwain at ddeilliannau gwell i ddysgwyr.<br><br>Yn dilyn trafodaethau adfyfyriol, wedi nodi rhwystr at ddysgu a llwyddo i'w | Wedi rhannu enghreifftiau o ddysgu proffesiynol â chydweithwyr er mwyn cefnogi perfformiad a deilliannau gwell i ddysgwyr. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ymchwil i ymarfer, gan ddeall y cysylltiad yn glir.<br><br>Wedi gwerthuso ei lwyddiant gyda data clir i brofi hyn. | ddileu gan ddefnyddio dull addysgegol neu adnodd gwahanol. | Wedi nodi myfyriwr sydd â rhwystr at ddysgu, a thrafod ffyrdd o ddileu hyn gyda'i fentor/athro dosbarth.<br><br>Wedi gwneud gwelliannau i'w ymarfer ei hun gan ddilyn cyngor efallai. |

## Dysgu proffesiynol - mynd ag addysgeg effeithiol yn ddyfnach

| Elfennau | Disgrifyddion SAC | Disgrifiad o ymarfer a all fod yn 'Rhagori ar Ddisgwyliadau' | Disgrifiad o ymarfer a all fod 'Ar y Trywydd Iawn gyda Sawl Maes Cryfder' | Disgrifiad o ymarfer a all fod 'Ar y Trywydd Iawn' |
|---|---|---|---|---|
| Gwaith darllen a chanfyddiadau ymchwil ehangach | Mae'r darpar athro yn dangos dealltwriaeth cynyddol hyderus o ddamcaniaethau ac ymchwil i asesu, addysgeg, datblygiad plant a'r glasoed a dysgu sy'n berthnasol i gynllunio ac ymarfer o ddydd i ddydd. | Dangos dealltwriaeth soffistigedig o ymchwil i ddysgu, addysgeg, asesu a datblygiad plant a'r glasoed a defnyddio hyn yn effeithiol i wella deilliannau i bron pob un o'r dysgwyr.<br><br>Tystiolaeth helaeth o'r modd y mae dechreuadau gwersi/ cynlluniau gwersi/ cyfres o wersi yn dangos dull strwythuredig (e.e. dangosiad, nodi camsyniadau) yn arwain at weithgareddau wedi'u cynllunio'n dda. | Dealltwriaeth gadarn o ymchwil i ddysgu, addysgeg, asesu a datblygiad plant a'r glasoed ac yn dechrau cymhwyso ymchwil a damcaniaeth i'w ymarfer ei hun, gan wella deilliannau i'r rhan fwyaf o'r dysgwyr.<br><br>Wedi cyfeirio, naill ai ar lafar neu mewn cynlluniau gwersi/wrth adfyfyrio, at ei ddefnydd o'r syniadau hyn a nodi'r modd y mae hyn wedi effeithio ar y dysgwr. | Dealltwriaeth foddhaol o ymchwil i ddysgu, addysgeg, asesu a datblygiad plant a'r glasoed, ac yn ceisio ei chymhwyso i'w ymarfer ei hun.<br><br>Ymwybodol o'r termau a ddefnyddir yn y deunydd TAR ar-lein, e.e. asesiad crynodol a ffurfiannol. |
| Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol | Mae gan yr darpar athro ddealltwriaeth wybodus o gyfraniad ymchwil, yn cynnwys ymchwil weithredol ar raddfa fach, i ddatblygiad ymarfer. | Wedi rhoi cylch ymchwil weithredol ar raddfa fach ardderchog ar waith, wedi dadansoddi deilliannau dysgwyr ac wedi adfyfyrio'n feirniadol ar ei ymarfer ei hun. | Wedi rhoi cylch ymchwil weithredol ar raddfa fach ar waith, wedi dadansoddi deilliannau dysgwyr ac wedi adfyfyrio ar ei ymarfer ei hun. | Gydag arweiniad gan y Mentor, wedi rhoi cylch ymchwil weithredol ar raddfa fach ar waith, wedi dadansoddi deilliannau dysgwyr ac wedi adfyfyrio ar ei ymarfer ei hun. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gallu deall ymchwil eraill a gwerthuso'n feirniadol ei pherthnasedd i'w ymarfer ei hun a'r cyd-destun. | Casglu data perthnasol o'r ystafell ddosbarth, yn cynnwys data arsylwi, tystiolaeth o ddysgu, a data cyrhaeddiad meintiol, a'u defnyddio i wella perfformiad y dysgwyr. | Deall sut i gasglu data perthnasol o'r ystafell ddosbarth, yn cynnwys data arsylwi, tystiolaeth o ddysgu, a data cyrhaeddiad meintiol. |
| Dysgu proffesiynol parhaus | Mae'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn dylanwadu ar adfyfyrio beirniadol a dysgu parhaus yr athro ac mae'n ddatblygiadol wrth hybu twf proffesiynol pellach. | Cyflwyno tystiolaeth o'i gynnydd yn rheolaidd i'r PDP ynghyd â sylwadau sy'n feirniadol, yn ddadansoddol ac wedi'u cysylltu â damcaniaeth ac ymchwil.<br><br>Pennu ei dargedau proffesiynol ei hun yn seiliedig ar y pwyntiau pwysicaf a godwyd o arsylwadau blaenorol, a chysylltu'r rhain<br><br>ag ymchwil. | Gallu defnyddio'r PDP i adfyfyrio ar ei gynnydd ei hun a, gyda'i fentoriaid a'i diwtoriaid, pennu targedau heriol ar gyfer datblygu yn y dyfodol.<br><br>Pennu ei dargedau proffesiynol ei hun yn seiliedig ar y pwyntiau pwysicaf a godwyd o arsylwadau blaenorol, ac ati.<br><br>Gwneud defnydd da o'i PDP ei hun wrth drafod ei gynnydd gyda'i fentor. | Dechrau defnyddio'r PDP i adfyfyrio ar ei gynnydd ond yn dibynnu ar ei fentor a/neu ei diwtor i gytuno ar dargedau.<br><br>Lanlwytho tystiolaeth briodol o'i gynnydd i'r PDP a gallu awgrymu ffyrdd o ddatblygu ei ymarfer. |
| Sgiliau iaith Gymraeg | Mae ymrwymiad i ddatblygu sgiliau personol yn raddol o ran y defnydd o'r Gymraeg. | Mynd ati i nodi cyfleoedd ac yn ymrwymedig i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn achlysurol ac yn | Gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth, e.e. defnyddio amrywiaeth ehangach | Gwneud cynnydd da o ran y defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth, e.e. datblygu a defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | thematig yn gyson yn yr ystafell ddosbarth a gyda chydweithwyr.<br><br>Dangos dealltwriaeth wedi'i gwreiddio o sut i addysgu sgiliau iaith i'r grŵp/grwpiau blwyddyn perthnasol. | o eiriau ac ymadroddion achlysurol yn gyson a chyflwyno rhywfaint o eirfa thematig.<br><br>Dangos dealltwriaeth sefydledig o sut i addysgu sgiliau iaith i'r grŵp/grwpiau blwyddyn perthnasol. | gyfarch, trafod y tywydd, cwblhau'r gofrestr a/neu agor a chloi gwersi gyda rhywfaint o hyder.<br><br>Dechrau dangos dealltwriaeth newydd o sut i addysgu sgiliau iaith i'r grŵp/grwpiau blwyddyn perthnasol. |

## Arloesedd - datblygu addysgeg

| Elfennau | Disgrifyddion SAC | Disgrifiad o ymarfer a all fod yn 'Rhagori ar Ddisgwyliadau' | Disgrifiad o ymarfer a all fod 'Ar y Trywydd Iawn gyda Sawl Maes Cryfder' | Disgrifiad o ymarfer a all fod 'Ar y Trywydd Iawn' |
|---|---|---|---|---|
| Cynnig arbenigedd | Mae'r darpar athro yn modelu repertoire o ddulliau addysgu, wrth i arbenigedd ymddangos a ffynnu, er mwyn llywio a gwella datblygiad eraill. | Wedi dylanwadu ar ymarfer ei fentor a'r ysgol ehangach.<br><br>Ystyriwyd bod yr ymarfer yn ddigon llwyddiannus i chwarae rhan bwysig mewn ffyrdd newydd o weithio. | Dangos amrywiaeth o addysgegau sy'n canolbwyntio ar ddysgu ac sydd wedi'u haddasu i anghenion y dysgwyr.<br><br>Rhannu ymarfer da iawn â chyfoedion a chydweithwyr yn yr ysgol sy'n treialu'r dull gweithredu yn eu hystafelloedd dosbarth. | Dangos amrywiaeth briodol o addysgegau sy'n canolbwyntio ar ddysgu ac sydd wedi'u haddasu i anghenion rhai o'r dysgwyr.<br><br>Rhannu ymarfer effeithiol â chyfoedion a'r Mentor. |
| Datblygu technegau newydd | Ymchwil ar ddatblygiad gwybyddol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol yn cael effaith gadarnhaol ar addysgeg. Gall yr athro ddangos sut y defnyddir craffter proffesiynol a dadansoddiad beirniadol wrth lunio ymarfer datblygol. | Wedi datblygu ffyrdd newydd effeithiol iawn o weithio o ganlyniad i ddadansoddi ymddygiadau, dysgu ac emosiynau'r dysgwyr, wedi'u cysylltu ag ymchwil a damcaniaeth addysgol.<br><br>Gallu egluro'n glir pam y mae wedi addasu dull gweithredu penodol wedi'i ategu gan dystiolaeth o ffynonellau perthnasol. | Wedi datblygu ffyrdd newydd o weithio o ganlyniad i adfyfyrio ar ddulliau gweithredu perthnasol a'u rhoi ar waith i gefnogi ymddygiad, dysgu ac emosiynau'r dysgwyr o ganlyniad i'w ddealltwriaeth o ymchwil a damcaniaeth. | Dechrau datblygu ffyrdd newydd o weithio o ganlyniad i ystyried ymchwil a damcaniaeth addysgol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwerthuso effaith newidiadau i ymarfer | Mae'r darpar athro yn mynd ati i geisio cymorth a chyngor gan gydweithwyr wrth ddatblygu dulliau gweithredu arloesol yn yr ystafell ddosbarth fel y gellir gwerthuso, dadansoddi a rhannu eu heffaith. | Adfyfyrio'n feirniadol, dadansoddi a datrys problemau yn effeithiol iawn, fel unigolyn ac fel aelod o dîm.<br><br>Dangos dealltwriaeth wedi'i gwreiddio o sut i ddehongli amrywiaeth o ddata ansoddol a meintiol a thystiolaeth arall i werthuso effaith dull gweithredu newydd ar ddeilliannau dysgu, yn cynnwys sgoriau profion cenedlaethol blynyddol a gweithdrefnau asesu mewnol. | Gallu datrys problemau yn effeithiol drwy gasglu amrywiaeth o ddata llawn gwybodaeth a dangos dealltwriaeth sefydledig o werth data a thystiolaeth arall wrth werthuso effaith newidiadau i ymarfer, e.e. ar sgoriau profion rhifedd a darllen blynyddol. | Dechrau datrys problemau sy'n codi yn yr ystafell ddosbarth.<br><br>Casglu data digonol a meddu ar ddealltwriaeth newydd o'r modd y gall tystiolaeth werthuso effaith newidiadau mewn ymarfer, e.e. ar sgoriau profion darllen blynyddol. |

## Arweinyddiaeth - helpu i ddatblygu addysgeg effeithiol

| Elfennau | Disgrifyddion SAC | Disgrifiad o ymarfer a all fod yn 'Rhagori ar Ddisgwyliadau' | Disgrifiad o ymarfer a all fod 'Ar y Trywydd Iawn gyda Sawl Maes Cryfder' | Disgrifiad o ymarfer a all fod 'Ar y Trywydd Iawn' |
|---|---|---|---|---|
| Cymryd cyfrifoldeb drosoch chi'ch hun | Mae'r darpar athro yn dangos agweddau ac ymddygiadau proffesiynol, gan feithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r dysgwyr, rhieni/gofalwyr a chydweithwyr, sy'n dangos ymrwymiad personol i egwyddorion sylfaenol tegwch a sicrhau potensial pob dysgwr. | Gwneud cyfraniadau sylweddol at feysydd eraill o fywyd yr ysgol, e.e. creu gweithgaredd allgyrsiol parhaus gyda deilliannau diriaethol fel Gwobrau Crest.<br><br>Dangos dealltwriaeth fanwl o ddarpariaeth gyfartal wedi'i thargedu'n benodol at grwpiau dan anfantais fel disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, disgyblion sy'n derbyn gofal, disgyblion Mwy Abl a Thalentog a disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.<br><br>Sicrhau bod bron pob un o'r dysgwyr yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. | Gwneud cyfraniad da at feysydd eraill o fywyd yr ysgol, e.e. cymryd cyfrifoldeb am gynnal gweithgareddau allgyrsiol.<br><br>Dangos dealltwriaeth dda iawn o ddarpariaeth gyfartal wedi'i thargedu'n benodol at grwpiau dan anfantais fel disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, disgyblion sy'n derbyn gofal, disgyblion Mwy Abl a Thalentog a disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.<br><br>Sicrhau bod y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. | Gwneud cyfraniad boddhaol at feysydd eraill o fywyd yr ysgol, e.e. cefnogi gweithgareddau allgyrsiol.<br><br>Dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o ddarpariaeth gyfartal wedi'i thargedu'n benodol at grwpiau dan anfantais fel disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, disgyblion sy'n derbyn gofal, disgyblion Mwy Abl a Thalentog a disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.<br><br>Sicrhau bod y mwyafrif o'r dysgwyr yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Arfer cyfrifoldeb corfforaethol | Mae'r athro yn gwybod beth yw'r cyfrifoldebau cytundebol, bugeiliol, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a phroffesiynol ac yn eu deall. | Dangos gwybodaeth fanwl am bolisïau fel diogelu, mesurau gwrthfwlio a gweithdrefnau cysylltiedig.<br><br>Dealltwriaeth ardderchog o'r modd y mae ysgolion yn rhoi polisïau'r llywodraeth ar waith, e.e. Cwricwlwm i Gymru 2022. | Deall paramedrau polisïau ysgol fel diogelu, cynhwysiant, addysgu a dysgu a gweithio'n effeithiol iawn oddi mewn iddynt.<br><br>Dealltwriaeth dda iawn o'r modd y mae ysgolion yn rhoi polisïau'r llywodraeth ar waith, e.e. y Fframwaith Cymhwysedd Digidol. | Dangos gwybodaeth briodol am bolisïau fel diogelu, iechyd a diogelwch ac asesu.<br><br>Gwybodaeth briodol am y modd y mae ysgolion yn rhoi polisïau'r llywodraeth ar waith, e.e. y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. |
| Arwain cydweithwyr, prosiectau a rhaglenni | Dangosir dealltwriaeth yr darpar athro o arwain dysgu, a'i ymrwymiad at hyn, drwy brofiadau cydweithredol mewn ysgolion ac mewn cyd-destunau eraill. | Arsylwi cydweithwyr yn rheolaidd yn ei ysgol ei hun ac mewn ysgolion eraill fel rhan o'i rôl fel arweinydd addysgol, ac adfyfyrio'n feirniadol ar y modd y gellir ymgorffori dulliau gweithredu gwahanol mewn ymarfer proffesiynol.<br><br>Deall strwythurau proffesiynol yr ysgol a gweithio oddi mewn iddynt.<br><br>Mynd i gyfarfodydd staff perthnasol a chyfarfodydd eraill yn rheolaidd ac adfyfyrio'n feirniadol ar eu perthnasedd a'u heffaith. | Manteisio ar gyfleoedd i arsylwi ar amrywiaeth o gydweithwyr fel rhan o'i rôl fel arweinydd addysgol yn yr ysgol, sy'n effeithio ar ei ymarfer proffesiynol ei hun.<br><br>Gweithio o fewn strwythurau proffesiynol yr ysgol gyda lefelau cynyddol o annibyniaeth.<br><br>Mynd i gyfarfodydd staff perthnasol yn rheolaidd ac adfyfyrio ar eu perthnasedd a'u heffaith.<br><br>Dealltwriaeth sefydledig o'r modd y gall pennu targedau wella safonau. | Dechrau arsylwi ar rai cydweithwyr yn eu rolau fel arweinwyr addysgol yn yr ysgol.<br><br>Gweithio o fewn strwythurau proffesiynol yr ysgol yn ôl cyfarwyddyd y Mentor.<br><br>Mynd i gyfarfodydd staff perthnasol yn rheolaidd.<br><br>Dealltwriaeth newydd o'r modd y gall pennu targedau wella safonau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Dealltwriaeth wedi'i gwreiddio o'r modd y gall pennu targedau wella safonau. | | |
| Cefnogi rolau arweinyddiaeth ffurfiol | | Dangos dealltwriaeth wedi'i gwreiddio o natur cyfrifoldebau o fewn adrannau a thimau a rhyngddynt yn yr ysgol.<br><br>Mabwysiadu ethos a gweledigaeth yr ysgol a chymhwyso pob polisi yn gyson wrth ymarfer, e.e. addysgu a dysgu, rhoi adborth, cynhwysiant. | Dangos dealltwriaeth sefydledig o natur cyfrifoldebau o fewn adrannau a rhyngddynt yn yr ysgol.<br><br>Mabwysiadu ethos a gweledigaeth yr ysgol a chymhwyso'r rhan fwyaf o'r polisïau yn rheolaidd wrth ymarfer, e.e. addysgu a dysgu, rhoi adborth, cynhwysiant. | Dangos dealltwriaeth newydd o natur cyfrifoldebau o fewn adrannau a thimau a rhyngddynt yn yr ysgol.<br><br>Dechrau mabwysiadu ethos a gweledigaeth yr ysgol a chymhwyso rhai polisïau wrth ymarfer, e.e. addysgu a dysgu, rhoi adborth, cynhwysiant. |

# Atodiad 7

## Pennu targedau CAMPUS

Mae gan y myfyrwyr ofynion y mae'n rhaid iddynt eu bodloni ar bob lefel er mwyn symud ymlaen i lefel nesaf y cwrs. Ar Lefel 3, y gofyniad yw cyrraedd y safonau sy'n ofynnol i gael 60 credyd Meistr a'r safonau proffesiynol ar gyfer SAC.

Defnyddir y term 'targedau' i ddisgrifio'r camau llai y mae angen i darpar athrawon eu cymryd i symud tuag at gamau cynnydd mwy. Fel arfer, caiff targedau o'r fath eu trafod yn fanylach mewn cyfarfod Mentor.

Mae dau fath o darged:




Defnyddir yr acronym CAMPUS i ddisgrifio dimensiynau pennu targedau da. Y chwe dimensiwn yw:

- **C**yraeddadwy
- **A**mserol
- **M**esuradwy

- **P**enodol
- **U**chelgeisiol
- **S**ynhwyrol

Yn gyffredinol, dylai targedau sicrhau bod pawb sy'n rhan o hyfforddiant myfyriwr (fel sy'n briodol) yn canolbwyntio ar agweddau pwysig ymarfer yr darpar athro y mae angen eu datblygu ymhellach.

**C – Cyraeddadwy**

Mae'n bwysig pennu targedau a nodau synhwyrol ond heriol i'r darpar athro weithio tuag atynt. Mae'n debygol mai hwn fydd y nodwedd targed symlaf i'w sicrhau. Mae'n cynnwys ystyried yr amserlen dan sylw a'r dasg a osodir.

Mae hefyd yn demtasiwn pennu gormod o lawer o dargedau neu gelu nifer y targedau drwy bennu sawl targed o fewn un. Mae p'un a yw targed yn gyflawnadwy ai peidio hefyd yn dibynnu i raddau helaeth ar gyd-destun. Dylai myfyrwyr deimlo y gallant gyflawni eu targedau a bydd gallu gwneud hynny yn gwella eu hyder, hyd yn oed os oeddent yn heriol.

**A – Amserol**

Nid oes gan darpar athrawon gyfnod amhenodol i gyflawni targedau. Dylai'r cyfnod dan sylw ar gyfer cyflawni targed fod yn glir i bawb dan sylw. Gallai hyn fod erbyn y sesiwn nesaf â'r Mentor neu erbyn diwedd y profiad ysgol. Neu, mae'n bosibl y bydd yn rhaid cyflawni targed ar unwaith, a'i gynnal, fel presenoldeb neu brydlondeb.

**M – Mesuradwy**

Efallai mai dyma yw nodwedd anoddaf pennu targedau er mwyn cyflawni mewn perthynas â datblygiad proffesiynol.Mae mesuradwy yn cyfeirio at ystadegau a chanlyniadau rhifyddol. Ni ellir mesur llawer o'r hyn y mae athrawon yn ei wneud yn hawdd, ond heb ddangosyddion cyflawniad, mae'n anodd gwybod pryd y bydd y myfyriwr yn sicrhau llwyddiant.

Felly, mae'n bwysig ystyried beth fydd y dangosyddion hyn wrth bennu targedau, gan y bydd hyn yn rhan bwysig o'r broses o adolygu cynnydd. Mae dangosyddion cyflawniad targedau math 'tasg' yn amlwg – bydd naill ai wedi'i wneud neu ddim. Gallai targedau eraill ddibynnu ar dystiolaeth gan athrawon eraill, gwaith cynllunio a gwerthuso'r darpar athro neu efallai y bydd angen cael sgwrs â'r darpar athro.

Yn anad dim, mae gan yr enghreifftiau o dargedau penodol feini prawf cyflawniad amlwg. Nid oes gan y rhan fwyaf o'r enghreifftiau amhenodol ddangosyddion cyflawniad clir neu mae ganddynt ddangosyddion nad ydynt yn ddigon clir heb drafodaeth bellach.

**P - Penodol**

Mae targedau penodol yn egluro'r hyn y mae angen ei gyflawni.

Gallai enghreifftiau o dargedau penodol gynnwys:

- Cymryd rhan mewn darpariaeth allgwricwlaidd fel clybiau gwyddoniaeth er mwyn cael cipolwg ar y cyfraniad a wna hyn i fywyd ysgol a'r gydberthynas rhwng athrawon a'u disgyblion.

- Gwahaniaethu deilliannau dysgu wrth i chi gynllunio
- Ymchwilio a defnyddio ystod ehangach o strategaethau ar gyfer asesu dealltwriaeth disgyblion.
- Datblygu cydberthynas fwy cadarnhaol gyda'ch dosbarthiadau drwy ddefnyddio enwau'r disgyblion, dysgu am eu diddordebau, ac adeiladu ar y rhain wrth gynllunio
- Cyrraedd gwersi yn brydlon

Wrth gwrs, gellir bod yn rhy benodol. Efallai na fydd llawer o werth i dargedau sy'n rhy benodol neu sydd â ffocws rhy gyfyngedig o ran datblygiad proffesiynol yr darpar athro, neu gall fod yn rhy anodd eu cyflawni. Fodd bynnag, nid yw targedau sy'n rhy gyffredinol neu amwys yn ddefnyddiol ychwaith.

Ymysg yr enghreifftiau o dargedau nad ydynt yn ddigon penodol mae:

- Parhau i ddatblygu eich rôl yn yr ysgol yn ystod eich blwyddyn addysgu gyntaf
- Datblygu ymhellach eich rôl fel tiwtor dosbarth
- Cadarnhau yr hyn a wnaed eisoes
- Gwella rheolaeth dosbarth

Ystyried y targed i 'wella rheolaeth dosbarth'. Mae rheolaeth dosbarth yn agwedd bwysig ar addysgu sy'n cynnwys sawl elfen. Nid yw'r targed hwn yn egluro pa agwedd ar reolaeth dosbarth y disgwylir i'r darpar athro ei gwella. Nid yw ychwaith yn glir faint o welliant a ddisgwylir. Gallai darpar athro cydwybodol bryderu'n ormodol am hyn gan deimlo na fydd byth yn gwella'n ddigonol, a gall darpar athro llai cydwybodol anelu at y gwelliant lleiaf gan gredu ei fod wedi cyrraedd y targed.

**U ac S – Uchelgeisiol … a Synhwyrol**

Dylai targedau fod yn berthnasol i'r darpar athro a'r Lefel y mae'r darpar athro yn gweithio arni. Er enghraifft, mae'r targed o bennu deilliannau gwahaniaethol yn briodol ar gyfer myfyriwr Lefel 3 ond nid ar gyfer myfyriwr Lefel 1. Mae hefyd angen i'r targed fod yn berthnasol i'r blaenoriaethau ar gyfer yr darpar athro. Nid yw'n briodol canolbwyntio ar fân faterion pan fydd angen mynd i'r afael â phroblemau llawer mwy.

# Atodiad 8

## Cwestiynau a awgrymir ar gyfer cyfarfodydd â myfyrwyr

Annogwch y myfyriwr i archwilio'r wers o'i safbwynt ef ond ceisiwch sicrhau nad yw'n bod yn negyddol. (Bydd yn ddefnyddiol cael cyfrif naratif o'r wers y gwnaethoch ei harsylwi, gydag amseroedd, oherwydd byddwch yn gallu adalw manylion). Gwrandewch yn barchus ar ymatebion y myfyriwr gan osgoi sylwadau beirniadol, hyd yn oed "mae hynny'n ddiddorol". Felly gallai'r cwestiynau cyntaf gynnwys:

- Beth oedd eich barn am y wers honno? Beth aeth yn arbennig o dda yn eich barn chi?
- A oes thema neu syniad diddorol wedi dod i'r amlwg y byddech yn hoffi eu hychwanegu neu eu hegluro?

Nesaf, bydd y ddeialog yn symud ymlaen i hunaniaeth, gwerthoedd ac egwyddorion. Gall gofyn i'r myfyriwr adolygu'r wers a nodi i ba raddau y cyrhaeddodd ei safonau ei hun ar gyfer addysgu effeithiol helpu i roi hwb i hyder, er enghraifft y ffordd yr helpodd y wers dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth i feithrin eu dealltwriaeth. Gall ateb cwestiynau o'r fath hefyd helpu'r myfyrwyr i nodi ffyrdd, drostynt eu hunain, y gallai eu haddysgu gydymffurfio'n well â'u gwerthoedd a'u hegwyddorion. Felly, mae'n bosibl mai yr ail gwestiwn y bydd pawb sy'n cymryd rhan yn y ddeialog yn ei ateb fydd:

- Ym mha ffyrdd y gwnaeth y wers honno alluogi'r dysgwyr i wneud cynnydd a sut ddigwyddodd hynny?

- Ydych chi wedi clywed rhywbeth roedd yn anghytuno ag ef? Os felly, cadarnhewch eich bod wedi'i ddeall yn gywir. Yna dywedwch pam.

Mae trydydd cam y ddeialog strwythuredig yn dechrau archwilio'r camau nesaf ymlaen o sefyllfa'r myfyriwr ar hyn o bryd. Mae'n gofyn i'r cyfranogwyr ystyried y cymhlethdodau neu'r anawsterau y maent wedi'u hwynebu yn eu hymarfer hyd yma a ffyrdd y byddent yn hoffi mynd i'r afael â'r rhain. Cywair y drafodaeth fydd parhau i wrando ar straeon ei gilydd, gan ystyried y camau nesaf yn hytrach na gorfodi barn. Felly, mae'n bosibl mai y trydydd cwestiwn y bydd pawb sy'n cymryd rhan yn y ddeialog yn ei ateb fydd:

A oes unrhyw agweddau ar eich ymarfer sy'n anodd neu'n gymhleth i chi? A oes gennych unrhyw deimladau cymysg neu ydych chi'n teimlo eich bod yn cael eich tynnu i gyfeiriadau gwahanol weithiau? Beth allai helpu?

Gallech gloi'r ddeialog drwy ofyn y canlynol i'r sawl sy'n cymryd rhan:

- A yw eich barn wedi newid dros amser mewn unrhyw ffordd?

neu

- A oes rhywbeth y mae rhywun wedi'i ddweud y byddech yn hoffi ei ddeall yn well?

neu

- Ydych chi wedi clywed rhywbeth a ysgogodd feddyliau neu deimladau newydd?

ac yn olaf

- Pa gamau nesaf yr hoffech eu cymryd?

Efallai y bydd y banc cwestiynau isod yn ddefnyddiol wrth gwrdd â'ch myfyrwyr i ddarparu tystiolaeth yn erbyn agweddau penodol ar y Safonau

| **Addysgeg** | |
| --- | --- |
| *Mireinio Addysgu* | Ystyriwch eich cynnydd ar ddechrau'r modiwl hwn, a'ch cynnydd nawr. Ble ydych chi'n teimlo eich bod wedigwneud y cynnydd mwyaf a sut ydych chi'n gwybod? |
| | Sut fyddech chi'n disgrifio eich perthynas â'ch dosbarth(iadau) CS/CA2/CA3/CA4/y dosbarth rydych chi'n teimlo'n fwyaf llwyddiannus gyda/dosbarth mwyaf heriol? |
| | Beth yw eich dulliau o gynllunio ar gyfer anghenion pob dysgwr yn eich dosbarth? Beth sydd wedi gweithio'n fwyafllwyddiannus i chi hyd yn hyn a pham? Beth ydych chi wedi'i nodi fel ffyrdd o wella'r agwedd hon ymhellach? |
| | A allwch siarad â mi drwy enghraifft o wers yr ydych wedi'i chynllunio, ei haddysgu a'i gwerthuso yn eich e- bortffolio ac sydd wedi'i chynnwys ar eich Proffil Datblygu Safonau (PDS). Pam wnaethoch chi ddewis y wers honfel darn o dystiolaeth a beth mae hyn yn ei ddangos am eich cynnydd mewn perthynas â'r safonau? |
| | Sut fyddech chi'n disgrifio'r amgylchedd dysgu rydych chi'n ceisio'i greu yn eich dosbarth(iadau)? Sut ydych chi'nanelu at gyflawni hyn ac i ba raddau ydych chi wedi cyflawni eich nodau? Pam/pam ddim? |
| | Allwch chi ddewis un 'digwyddiad beirniadol' rydych chi wedi'i brofi mewn perthynas â rheoli ymddygiad yn eichymarfer. Allwch chi ddisgrifio'r hyn a ddigwyddodd? Beth oeddech chi'n ei feddwl/teimlo ar y pryd? Pa gamau a gymerasoch a oedd, yn eich barn chi, yn gweithio'n dda yn y sefyllfa honno? Pa gamau a gymerwyd gennych y credwch y gellid bod wedi'u gwneud yn wahanol? Pam ydych chi'n meddwl bod y sefyllfa wedi digwydd? Beth allech chi ei wneud yn wahanol yn y dyfodol? |
| | A allwch roi enghraifft o amser rydych chi'n teimlo eich bod wedi defnyddio eich ystafell ddosbarth neu amgylchedd dysgu awyr agored yn arbennig o effeithiol ac a allwch egluro pa ystyriaethau yr oedd yn rhaid i chi eugwneud wrth gynllunio ac addysgu o fewn y gofod hwnnw? |

| | |
|---|---|
| | Sut mae cwestiynu effeithiol yn edrych yn eich ymarfer? Pa dystiolaeth yr ydych wedi'i defnyddio i'ch cefnogi igwestiynu disgyblion yn effeithiol ar gyfer dysgu? |
| | Sut ydych chi'n asesu gwybodaeth flaenorol eich dysgwyr cyn addysgu rhywbeth sy'n newydd iddyn nhw? |
| | A allwch roi enghraifft i mi o bwnc yr ydych wedi'i ddysgu lle'r oeddech yn rhagweld rhai camsyniadau a allai fodgan y dysgwyr a sut y gwnaethoch gynllunio ar gyfer hyn ymlaen llaw? |
| | Pa ddulliau ydych chi'n eu cymryd i'ch helpu i asesu dealltwriaeth eich dysgwyr yn ystod gwers? Allwch chi roi enghraifft o gyfnod lle gwnaethoch chi sylweddoli yn ystod y wers nad oedd nifer o ddysgwyr yn deall rhywbeth –sut oeddech chi'n gwybod a beth wnaethoch chi? |
| | A allwch roi enghraifft i mi lle rydych wedi cymryd rhan mewn ymchwil am asesu ar gyfer dysgu effeithiol a sutmae hyn wedi llunio neu lywio eich ymarfer mewn unrhyw ffordd? |
| | Sylwais eich bod wedi cyfeirio at y grŵp hwn o ddysgwyr fel eich dysgwyr 'gallu isel' – a allwch fyfyrio ar y defnyddo'r term hwnnw ac ystyried beth fyddai'r gwahaniaeth pe bai'ch yn cyfeirio at ddysgwyr gan ddefnyddio termau gwahanol e.e. bwlch cyrhaeddiad? |
| | Pa gyfleoedd yr ydych wedi'u cael i adrodd ar ddata cyrhaeddiad? Sut ydych chi wedi defnyddio data i lywio eichaddysgu? |
| | A allwch roi enghraifft o adeg lle rydych wedi adrodd yn ôl i riant neu ofalwr ar gynnydd dysgu eu plentyn? Bethoedd eich prif ystyriaethau? |
| | A allwch roi enghraifft o amser lle'r oeddech yn cynnwys rhieni/gofalwyr i gefnogi canlyniad dysgu penodol? |
| *Datblygu Dysgu* | Sut mae eich profiad o fewn eich ysgol wedi eich cefnogi i ddatblygu eich dealltwriaeth o bedwar dibenCwricwlwm i Gymru? |
| | A allwch fyfyrio ar sut yr ydych wedi defnyddio'r datganiad 'Beth sy'n bwysig' yn eich pwnc/mewn AoLE penodol asut y mae wedi llunio a llywio eich ymarfer? |

| | |
|---|---|
| | A allwch ddewis un enghraifft o wers yr ydych wedi'i chynnwys yn eich e-bortffolio lle rydych yn teimlo eich bod wedi tynnu ar un o'r 12 egwyddor addysgeg sy'n sail i CiG. Siaradwch â mi drwy'r ffordd y mae'r wers yn enghreifftio egwyddor a sut yr oeddech yn anelu at gyflawni hyn. Beth aeth yn dda? Beth sydd angen ei ddatblyguo hyd? |
| | Rhannwch enghraifft o adeg lle newidiodd astudio uned ar-lein ddull blaenorol neu newid eich cynllunio ar gyfergwers. Beth oedd yr uned? Sut wnaeth effeithio ar eich ymarfer? |
| | Dewiswch un darn o dystiolaeth o'ch proffil datblygu safonau. Beth mae hyn yn ei ddangos am eich ymarfer mewnperthynas â'r disgrifyddion yr ydych wedi'i gysylltu ag ef? |
| | Dywedwch wrthyf am adeg lle'r oeddech yn arbennig o falch o'ch dull o ddatblygu sgiliau dysgwyr yn / eich sgiliaueich hun mewn... (cymhwysedd digidol / llythrennedd / rhifedd / datblygu'r Gymraeg...) |
| | Beth mae'n ei olygu i chi fabwysiadu dull cyson o ymgorffori'r pedwar diben mewn ffordd gyfannol? A ydych wedidarllen unrhyw ymchwil neu ddamcaniaeth benodol  sydd wedi eich helpu i lunio'r dull hwn? |
| | A allwch roi enghraifft o adeg lle'r oeddech yn teimlo bod cael gwybodaeth bwnc ddiogel wedi effeithio ar y fforddy dewisoch addysgu pwnc? Gallai fod yn enghraifft o adeg lle'r oeddech yn teimlo'n hyderus iawn, neu'n adeg lle gwnaethoch nodi bod angen datblygu eich gwybodaeth ymhellach. |
| | Sut ydych chi'n defnyddio eich gwybodaeth pwnc a'ch dealltwriaeth o addysgeg i lunio'r ffordd rydych chi'ncynllunio, addysgu  ac asesu dysgu eich disgyblion? |
| | A allwch roi enghraifft o adeg lle rydych wedi defnyddio cyd-destunau dilys bywyd go iawn i gefnogi dysgu eichdisgyblion? Pa effaith a gafodd hyn a sut oeddech chi'n gwybod? |
| *Dylanwadu ar Ddysgwyr* | Dywedwch wrthyf am ddosbarth/disgybl lle rydych wedi gorfod cynllunio'n ofalus ar gyfer eu hymgysylltiad yn eichgwersi. Beth, yn eich barn chi, a allai fod wedi effeithio ar eu hymgysylltiad a sut y gwnaethoch fynd i'r afael ag ef? |
| | A allwch roi enghraifft i mi o adeg lle rydych wedi cynllunio ar gyfer camsyniadau dysgwyr am bwnc? |

| | |
|---|---|
| | Dangoswch enghraifft i mi yn eich e-bortffolio o amser rydych wedi bwriadu defnyddio amrywiaeth o ddulliaucyfathrebu gyda dysgwyr i gefnogi eu dealltwriaeth. |
| | Pa ddull ydych chi'n ei gymryd i fyfyrio ar eich addysgu a dysgu eich disgyblion? Ydych chi'n defnyddio unrhywoffer myfyriol i'ch cefnogi chi a sut ydych chi'n sicrhau eich bod yn myfyrio'n feirniadol? |
| | Disgrifiwch pa strategaethau rydych chi'n eu defnyddio i feithrin perthynas ymddiriedus, barchus rhyngoch chi a'chdysgwyr. |
| | Sut ydych chi'n gosod ac yn cynnal disgwyliadau uchel ar gyfer eich disgyblion? |
| | Allwch chi siarad â mi drwy enghraifft o'ch e-bortffolio lle rydych wedie (dewiswch o'r isod):<br>- darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu dysgu eu hunain<br>- defnyddio siarad effeithiol yn yr ystafell ddosbarth i gefnogi dysgwyr i fyfyrio ar beth a sut maent yn dysgu<br>- hwyluso trafodaeth sy'n benagored a/neu'n gymhleth, yn ddadleuol neu'n emosiynol. |
| | Beth mae'n ei olygu i'ch dysgwyr ddod yn wydn? Sut ydych chi'n cynllunio ar gyfer hyn? |
| | A allwch roi enghraifft o adeg lle gwnaethoch sylweddoli yn ystod y wers nad oedd lefel yr her a osodwyd ynbriodol i'ch dysgwyr. Sut oeddech chi'n gwybod? Beth wnaethoch chi? |
| | Beth fu eich dull mwyaf llwyddiannus o ddatblygu asesu ar gyfer dysgu yn eich addysgu hyd yn hyn? |
| **Cydweithio** | |
| | A allwch roi enghraifft o adeg lle y gwelsoch arfer athro arall a newidiodd neu a effeithiodd ar eich ymarfer eichhun? |
| | Meddyliwch am adeg lle rydych wedi dod o hyd i agwedd ar eich ymarfer yn heriol neu'n wynebu problem o ryw fath. Eglurwch sut aethoch ati i chwilio am ffyrdd o ddatblygu eich ymarfer o ganlyniad. Sut y gwnaethoch sicrhaubod hyn yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth? |

| |
|---|
| Dewiswch ddarn o dystiolaeth o'ch Proffil Datblygu Safonau. Sut mae hyn yn dangos eich dull o gydweithio yn eichymarfer? |
| Ar gyfer myfyrwyr cyflogedig – ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r ffordd rydych chi'n gweithio gyda staff eraill yn yr ysgol fel myfyriwr TAR? Pam? |
| Ydych chi wedi cael cyfle i gyflwyno syniad, dull neu broses newydd yn eich ysgol? NEU Pe gallech gyflwyno syniad,dull neu broses newydd i'ch ysgol, beth fyddai hynny a pham? |
| Ydych chi wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn noson rieni / cyfarfod tîm / gweithgaredd datblygu ysgol? |
| Allwch chi nodi amser lle rydych chi wedi cymhwyso'ch dysgu am ddamcaniaeth i'ch ymarfer? Pa morllwyddiannus oedd hyn a sut ydych chi'n gwybod? |
| A fu amser lle bu'n rhaid i chi ymateb i ddarn heriol o gyngor gan gydweithiwr? |
| Beth yw'r enghraifft o gydweithio rydych chi'n fwyaf balch ohono'r tymor hwn? Gallai hyn fod yn gyfraniad igyfarfod ysgol, gan weithio gyda grŵp bach o gydweithwyr, neu weithio gydag unigolyn arall yn eich ysgol. |
| Sut ydych chi wedi gweithio gyda staff yn eich ysgol i ddatblygu eich dealltwriaeth eich hun o ddulliau'r ysgol oddatblygu'r cwricwlwm a chyfrannu atynt? |
| Y tymor hwn, byddwch chi a'ch mentor wedi gweithio gyda'ch gilydd drwy gylch astudio gwersi. Beth oedd eich dewis faes ffocws a pham? Allwch chi ddweud ychydig wrthyf am y gwersi a ddysgoch gyda'ch gilydd? Pa ddulliau agymerasoch i fyfyrio ar addysgu a dysgu a sut wnaethoch chi werthuso llwyddiant eich dulliau gweithredu? |
| Pa gyfleoedd datblygiad proffesiynol ydych chi wedi cymryd rhan yn ystod y modiwl hwn? Pa effaith y mae hynwedi'i chael ar eich ymarfer? |
| Pa mor llwyddiannus ydych chi'n teimlo eich bod wedi bod wrth ymateb i adborth gan eraill a nodi'r camau nesafar gyfer eich datblygiad eich hun? |
| A allwch roi enghraifft o adeg lle mae gweithio gyda chydweithiwr arall wedi arwain at gynnydd yn eich hyder neuwedi gwella maes o'ch ymarfer? |

| | |
|---|---|
| | Wrth i chi symud ymlaen i'ch modiwl nesaf / i'ch cyfnod ymsefydlu, beth yn eich barn chi fydd yn newid neu'ndatblygu am y fforddd rydych chi'n ceisio cymorth gan eraill ar hyn o bryd? |
| Dysgu Proffesiynol | |
| | Pa ddarn newydd o ymchwil neu ddamcaniaeth yr ydych wedi ymgysylltu ag ef yn ddiweddar sydd wedi caeleffaith ar y ffordd yr ydych yn meddwl am fater addysgol neu agwedd ar eich ymarfer? |
| | Siaradwch â mi drwy rywbeth rydych wedi'i ddysgu am ddatblygiad plant/glasoed sydd wedi cael effaith sylweddolar y ffordd y byddech yn mynd ati i addysgu pwnc i ddisgyblion yn eich pwnc (uwchradd) neu yn eich cyfnod (cynradd). |
| | Drwy gyfeirio at wers rydych wedi'i dysgu sydd wedi'i chynnwys yn eich e-bortffolio, myfyrio ar enghraifft o ddullasesu ffurfiannol effeithiol yr ydych wedi'i gymryd. |
| | Ar gyfer myfyrwyr TAR1 a TAR2 – sut ydych chi'n meddwl bod cymryd rhan mewn astudio gwersi eleni wedi eichhelpu i baratoi ar gyfer eich astudiaeth lefel radd Meistr TAR3? |
| | Ar gyfer myfyrwyr TAR3 – allwch chi ddweud wrthyf am eich astudio ar raddfa fach?<br>- Pa bwnc wnaethoch chi ei ddewis a pham?<br>- Sut wnaethoch chi gynllunio ar gyfer eich casglu data?<br>- Beth wnaethoch chi ei ddysgu am gynnydd disgyblion?<br>Sut wnaeth eich ystyriaeth o ymchwil lywio eich meddwl o amgylch yr astudiaeth hon? |
| | Tynnwch ar gyfres o wersi sydd wedi'u cynnwys yn eich e-bortffolio, a allwch siarad â mi am sut yr oeddech yn cynllunio ac yn dysgu gyda chynnydd disgyblion mewn golwg a sut y ceir tystiolaeth o hyn ar draws eich cyfres owersi. |
| | Dewiswch adnodd yr ydych wedi'i gyflwyno i'ch e-bortffolio yr ydych yn fwyaf balch ohono ac, os yn bosibl, un yr ydych wedi'i greu eich hun. Pam oeddech chi'n falch o'r adnodd hwn? Beth oedd y rhesymeg dros yr adnodd a phamor effeithiol oedd ei ddefnydd? Sut ydych yn gwybod? |
| | Ar gyfer myfyrwyr TAR3 - Sut ydych chi wedi dechrau ymgyfarwyddo â'ch Pasbort Dysgu Proffesiynol? Sut ydych chi a'ch mentor yn defnyddio'r Proffil Datblygu Safonau ar hyn o bryd i'ch cefnogi i bontio i'r PDP / i osod targedauar gyfer datblygu / fel offeryn i fyfyrio ar gynnydd? |

| |
|---|
| Pa mor drefnus ydych chi wrth gasglu tystiolaeth yn erbyn y safonau? Sut ydych chi a'ch mentor yn sicrhau eichbod yn defnyddio'r safonau proffesiynol mewn ffordd gyfannol ac yn osgoi dull 'ticio blwch'?<br>A allwch ddangos darn o dystiolaeth i mi o'ch Proffil Datblygu Safonau sydd, yn eich barn chi, yn ddull cyfoethog achyfannol o ddangos tystiolaeth o'ch ymarfer? Pa feysydd o'r safonau y mae'n eu dangos a pham? |
| Pan ddechreuoch chi'r TAR, ble oeddech chi ar gontinwwm y Gymraeg? Sut mae eich taith Gymraeg bersonol wedidatblygu ers hynny? |
| Pe bawn yn siarad â disgybl yn un o'ch dosbarthiadau, beth fyddent yn ei ddweud wrthyf am eich dull o ymdrin â'udatblygiad iaith Gymraeg yn eu gwersi gyda chi? |
| Sut ydych chi wedi ymgysylltu â Fframwaith Asesu'r Gymraeg a pha dargedau ydych chi a'ch mentor wedi cytuno igefnogi eich datblygiad? |
| Pa strategaethau ydych chi'n eu defnyddio i helpu i gynllunio ar gyfer dull dwyieithog pan fyddwch chi'n addysgupwnc newydd neu anghyfarwydd? |
| Sut ydych chi wedi gwella eich medrau llythrennedd eich hun / eich disgyblion yn y modiwl hwn? |
| Sut ydych chi wedi gwella eich medrau rhifedd eich hun / eich disgyblion yn y modiwl hwn? |
| Beth oedd eich enghraifft fwyaf arloesol o addysgu a dysgu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd digidol y modiwl hwn? |
| Beth ydych chi wedi mwynhau dysgu amdano'r mwyaf yn eich ysgol yn y modiwl hwn? Beth ydych chi wedimwynhau dysgu amdano'r lleiaf yn eich ysgol yn y modiwl hwn? Pam? |
| I ba raddau ydych chi'n cysylltu damcaniaeth ag ymarfer yn rheolaidd i'ch helpu chi:<br>- Cynllunio gwersi<br>- Gwneud penderfyniadau yn ystod gwers<br>- Myfyrio ar wersi naill ai mewn gwerthusiadau neu mewn trafodaeth gyda chydweithwyr eraill (e.e.mentor)<br>- I gwblhau eich Gweithgareddau Ymarfer Dysgu neu eich Asesiad Diwedd Modiwl |

| | |
|---|---|
| | - Datrys problem neu nodi gweithred ar gyfer gwella |
| Arloesedd | |
| | Gan gyfeirio at y gwersi yn eich e-bortffolio, a allwch roi enghraifft o ddull creadigol yr oeddech yn arbennig o falchohono? |
| | Sut mae eich repertoire o dechnegau addysgu wedi datblygu yn ystod y modiwl hwn? Beth sydd wedi eich helpu iddatblygu? Sut mae eich astudiaeth uned / GYD / astudiaeth ar raddfa fach neu astudio wers wedi eich helpu i ddatblygu hyn? |
| | Dywedwch wrthyf am rywbeth rydych chi'n ei ddarllen a'ch helpodd i ddeall yn well ffordd benodol y mae disgyblyn ymddwyn mewn gwers. |
| | A allwch roi enghraifft o adeg lle rydych wedi rhannu syniad, dull neu broses addysgeg newydd gyda chydweithiwrarall yn eich ysgol? |
| | Ydych chi wedi darllen am ddamcaniaeth neu ddarn o ymchwil y credwch y gallai fod angen ei herio neu graffuarno ymhellach? Os felly, beth oedd e a pham? |
| | Ble ydych chi'n teimlo eich bod wedi gwneud y cynnydd mwyaf yn ystod y modiwl hwn? Sut ydych chi'n gwybod? Beth yw eich maes mwyaf arwyddocaol i'w ddatblygu? Sut ydych chi'n gwybod? Pa gynllun sydd gennych ar waith iddatblygu hyn? |
| | Ar gyfer myfyrwyr cyflogedig – a oes unrhyw 'arferion' yr oeddech wedi'u datblygu yn eich rôl flaenorol yr ydych wedi canfod bod angen i chi eu herio ymhellach yng ngoleuni astudio uned / theori / ymchwil? |
| | Dewiswch un dosbarth rydych chi wedi gweithio gyda nhw yn ystod y modiwl hwn. Sut wnaethoch chi gasglu dataam gynnydd disgyblion cyn i chi ddechrau eu haddysgu / yn ystod eich gwersi / ar ôl eich gwersi a sut wnaeth hyn lywio eich addysgu? |
| | A fu amser lle bu'n rhaid i chi wneud newidiadau sylweddol i'ch gwers arfaethedig yn ystod yr addysgu? Beth wnaethoch chi a pham? |
| | Sut fyddech chi'n disgrifio'r cynnydd rydych chi wedi'i wneud o ran gallu defnyddio'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ymchwil a damcaniaeth yn ystod yr amser rydych chi'n mynd ati i addysgu disgyblion? |

| Arweinyddiaeth | |
|---|---|
| | Sut ydych chi'n meddwl y byddai eich mentor yn disgrifio eich perthynas â'ch disgyblion / gyda'ch dosbarth mwyafheriol / gyda staff eraill? |
| | Beth mae tegwch yn ei olygu i chi yn eich ymarfer? Allwch chi ddangos hyn gydag enghreifftiau? |
| | Sut ydych chi'n cyfrannu at bywyd ysgol y tu allan i addysgu eich dosbarth(iadau)/pwnc eich hun? |
| | A allwch roi enghraifft o adeg lle'r oedd deall polisi ysgol yn bwysig iawn wrth ymdrin â sefyllfa? |
| | Pa mor dda ydych chi'n teimlo eich bod wedi dod i baratoi at addysgu Cwricwlwm i Gymru yn ystod y modiwl hwn?Beth sydd wedi eich helpu i deimlo fel hyn? Beth ydych chi'n dal i deimlo bod angen i chi ei wneud? |
| | A oes unrhyw feysydd polisi ysgol yr ydych chi neu'ch mentor yn credu bod angen i chi ddatblygu eichdealltwriaeth ohonynt ymhellach? |
| | Sut fyddech chi'n cefnofi ddisgybl sydd wedi wynebu aflonyddu neu driniaeth annheg gan ddisgyblion eraill yn eich dosbarth e.e. pe bai sylw hiliol neu sylw homoffobig yn cael ei wneud? |
| | Beth mae'n ei olygu i fod yn arweinydd dysgu fel athro dosbarth? |
| | A oes gan eich ysgol arwyddair neu weledigaeth? Sut ydych chi'n anelu at ymgorffori hyn yn eich ymarfer neu fodeli gwerthoedd ar gyfer eich dysgwyr? |
| | Ymweliad TAR2 (Cyflogedig) - Sut mae eich profiad mewn ysgol arall wedi eich helpu i fyfyrio ar eich arferion eich hun yn eich lleoliad ysgol Cyflogi arferol? A oes unrhyw beth wedi eich herio? A oes enghreifftiau o arfer yr hoffecheu rhannu â chydweithwyr?<br><br>(Myfyrwyr rhan-amser yn Ysgol B) – Ym mha ffyrdd y mae eich dau brofiad ysgol hyd yma yn gwrthgyferbynnu?Beth wnaethoch chi ei ddysgu yn Ysgol A sydd wedi eich helpu yn Ysgol B? A oes dull a ddatblygwyd gennych ynYsgol A yr ydych wedi gorfod ei newid neu ei addasu nawr rydych yn Ysgol B? |

| | |
|---|---|
| | Beth, yn eich barn chi, yw'r rhwystrau mwyaf i ddysgwyr yng nghyd-destun presennol eich ysgol? A oes unrhyw faterion penodol  y mae'r ysgol wedi'u nodi? |
| | Sut ydych chi'n hyrwyddo hawliau plant yn eich ymarfer? Allwch chi roi unrhyw enghreifftiau i'w dangos? |

# Atodiad 9

## Cwestiynau a awgrymir ar gyfer cyfarfodydd hyfforddi

Isod, ceir rhestr o gwestiynau a allai fod yn ddefnyddiol i'w defnyddio fel sail neu ysgogiad ar gyfer trafodaeth adfyfyriol gyda'ch mentoriaid.

**Gofynnwch gwestiynau effeithiol sy'n:**

- galluogi'r Mentor(iaid) i gael eglurdeb, dealltwriaeth a phersbectif.
- herio ffordd bresennol o feddwl. Ysgogi ffordd o feddwl ddyfnach neu amgen (gallai fod yn gysylltiedig â'r cwricwlwm, dull ac ethos yr ysgol, ffordd o feddwl yr unigolyn)
- annog y Mentor i adolygu ei archwiliad o sgiliau ac i adfyfyrio ar ei ddatblygiad proffesiynol yn y rôl.
- gofyn i'r Mentor(iaid) archwilio opsiynau.
- gofyn i'r Mentor archwilio ffeithiau, ffyrdd o feddwl a theimladau.
- galluogi'r Mentor i ystyried materion o safbwynt gwahanol.
- tynnu sylw at adnoddau perthnasol – cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol
- galluogi'r Mentor i gynllunio a gweithredu.
- archwilio natur ac ansawdd cymorth, heriau a chyfleoedd yn yr ysgol ac ar y rhaglen i'r Mentor.

Fel Tiwtor Ymarfer, dylech osgoi gofyn cwestiynau arweiniol a all awgrymu ateb rydych yn meddwl y dylai'r Mentor ei roi.

Gofynnwch gwestiynau agored sy'n canolbwyntio ar atebion, fel:

- Beth sy'n mynd yn dda? Pam?
- Pa gynnydd rydych wedi'i wneud? Sut wnaethoch chi hynny?
- Beth fyddech chi'n hoffi ei gyflawni o'r sesiwn hon?
- Beth fyddai'n ei olygu i gyflawni llwyddiant?
- Sut y gallwch weithio tuag at hyn?
- Pwy neu beth all eich helpu?
- Pryd yn y gorffennol ydych chi wedi cyflawni deilliant cadarnhaol?
- Sut wnaethoch chi hynny?
- Dywedwch am eich profiad gyda... Sut oeddech chi'n teimlo am hynny ac ati?
- Beth yw'r ffordd arall o edrych ar hyn?
- Beth ydych chi'n ei feddwl o hyn?
- Gadewch i ni dorri hyn i lawr, beth yw'r peth cyntaf sydd angen i chi ei wneud?
- Beth allwch chi ddweud wrth X i gael hyn i symud?
- Pa adnoddau / cymorth ydych chi'n meddwl sydd eu hangen arnoch?
- Pryd fyddwn ni'n cwrdd nesaf?
- Beth fyddwch chi wedi'i wneud y tro nesaf y byddwn ni'n cwrdd?

# Atodiad 10

## Canllawiau E-portffolio

Dylai'r canllawiau canlynol roi gwybodaeth i chi am ba fathau o dystiolaeth y dylech allu eu lleoli o fewn e-Bortffolio eich myfyriwr:

| Beth sy'n mynd ble? | What goes where? |
|---|---|
| Canllaw syml ar gyfer storio eich tystiolaeth ymarfer dysgu yn y Ffolder Addysgu Personol a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol | A simple guide to storing your practice evidence in your Personal Teaching Folder and Professional Learning Passport |
| Dilynwch y canllawiau yn Cychwyn  Arni i greu Ffolder Addysgu ar eich OneDrive personol gyda'r Brifysgol Agored. Dylech rannu y ffeil hon gyda'ch:<br>• Tiwtor Cwricwlwm<br>• Mentor<br>• Cydlynydd Ysgol<br>• Tiwtor Ymarfer | Please follow the guidance in Getting Started to create a Teaching Folder on your OU personal OneDrive. This file should be shared with your:<br>• Curriculum Tutor<br>• Mentor<br>• School Coordinator<br>• Practice Tutor |
| Mae'r Ffolder Addysgu Personol ar gyfer eich gweithgarwch ymarfer dysgu dyddiol tra bod eich Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP)  yn gofnod mwy ffurfiol o dystiolaeth a bydd yn Rhan 2 o'ch Asesiad Diwedd Modiwl (ADM). | Your Personal Teaching Folder is for day-to-day practice learning activity whilst your Professional Learning Passport (PLP) is a more formal record of evidence and will be Part 2 of your End of Module Assessment (EMA). |

| | |
|---|---|
| Gofynnwn yn garedig i chi greu'r system ffolder ganlynol yn eich Ffolder Addysgu | We kindly request you create the following folder system in your Personal Teaching |

| | |
|---|---|
| Personol ar gyfer agweddau pwysig eich ymarfer dysgu: | Folder to cover key aspects of your practice learning: |

- 01 Amserlen & Cofnod amser
- 02 Cynllunio a Gwerthuso
- 03 Cymraeg
- 04 Tystiolaeth Ffurfiol
- 05 Cofnodlyfr Dysgu Academaidd

- 01 Timetable & Timesheet
- 02 Planning and Evaluation
- 03 Cymraeg - Welsh
- 04 Formal Evidence
- 05 Academic Learning Journal

| | |
|---|---|
| Sicrhewch fod gennych ffolder ar wahân ar gyfer Blwyddyn 1 ( TAR 1 & 2) a Blwyddyn 2 (TAR 3).<br><br>Gweler y dudalen nesaf am fanylion pellach o'r hyn y dylech ei gynnwys ym mhob ffolder. Yn dilyn hynny mae manylion am y PDP. | Make sure you have a separate folder to cover Year 1 (PGCE 1 & 2) and Year 2 (PGCE3).<br><br>See next page for further details on what to include in each folder followed by details on the PLP. |

| Ffolder Addysgu Personol | Personal Teaching Folder |
|---|---|
| **01 – Amserlen & Cofnod Amser**<br><br>Eich amserlenni ymarfer dysgu – dylech ddiweddaru yr amserlen bob tro y byddwch yn newid neu'n cynyddu eich dyletswyddau addysgu. | **01 – Timetable & Timesheet**<br><br>Your practice learning timetables – an updated timetable should be uploaded every time you make a change to or increase your teaching duties. |
| **02 – Cynllunio a Gwerthuso**<br><br>Pob cynllun gwers a gwerthusiad, gydag adnoddau i gyd-fynd. | **02 – Planning and evaluation**<br><br>All of your lesson plans and evaluations, with accompanying resources.<br><br>Medium term plans and Early Learning provision planning (if relevant). |

| | |
|---|---|
| Cynlluniau tymor canol a chynllunio ar gyfer darpariaeth yn y Dysgu Cynnar (os yw'n berthnasol).<br><br>Wrth i chi addysgu mwy o wersi bydd y dystiolaeth yn cynyddu felly gwnewch yn siŵr eich bod yn drefnus. Yn ddelfrydol bydd gennych ffolder ar wahân i bob wythnos o'r ymarfer dysgu. | As your teaching increases so will your evidence therefore ensure that you are organised. Ideally, have a separate folder for each week of practice learning. |
| **03 – Cymraeg – Welsh**<br><br>Eich holl dystiolaeth ar gyfer fframwaith y Gymraeg. Dim ond tystiolaeth ddethol fydd yn mynd yn y PDP. | **03 – Cymraeg – Welsh**<br><br>All your Welsh language framework evidence. Only selected evidence will be placed in your PLP. |
| **04 – Tystiolaeth Ffurfiol**<br><br>Yma gallwch gadw'r ffurflenni fydd yn cael eu rhoi yn y tab Tystiolaeth Ffurfiol o fewn y PDP. Dylech uwchlwytho tystiolaeth ffurfiol ar unwaith i'ch PDP. Mae'n hanfodol bod eich tiwtor cwricwlwm yn gallu gweld y ffurflenni allweddol hyn e.e.<br><br>Arsylwadau Gwersi<br><br>Ffurflenni Adolygu Ymarfer<br><br>Adroddiad Ymarfer Dysgu<br><br>Dylech gadw eich Ffurflen Targedau yma hefyd, fel dogfen fyw, yn barod i'w lanlwytho i'r PDP cyn cyflwyno pob ADM. | **04 – Formal Evidence**<br><br>Here you can keep forms that will be placed in the Formal Evidence tab of the PLP. You should upload formal evidence immediately to your PLP. It is essential that your Curriculum Tutor is able to view these key forms e.g.<br><br>Lesson Observations<br><br>Practice Review Forms<br><br>Practice Learning Report<br><br>You should also keep your Targets Form here, as a live document, ready to upload to the PLP prior to each EMA submission. |

| 05 – Cofnodlyfr Dysgu Academiadd | 05 – Academic Learning Journal |
|---|---|
| Dylech greu dogfen fyw fel cofnod o'ch dysgu (fel y trafodir yn Cychwyn Arni). Yn y cofnodlyfr hwn byddwch yn adfyfyrio ar eich astudiaeth modiwl. Ar adegau penodol yn ystod yr unedau astudio, gofynnir i chi ymgysylltu â'ch cofnodlyfr a myfyrio ar y syniadau a'r materion a drafodwyd. Bydd hyn yn eich helpu i gysylltu theori (h.y. o'ch astudiaethau) ag ymarfer yn yr ysgol. | You should set up a live document as a learning journal (as discussed in Getting Started). This journal is where you will note your module study reflections. At key points during the units of study you will be asked to engage with your journal and reflect on the ideas and issues discussed. This will help you link theory (i.e. from your studies) and practice in school. |

| Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) |
|---|
| Cofiwch wasgu'r botwm 'ARBED/SAVE' lliw glas yn gyson (ochr chwith) |
| Croeso – gweler y ddolen i ganllawiau'r CGA ar ddefnyddio'r PDP ar y diwedd. Cliciwch ar flwyddyn eich TAR er mwyn cael mynediad at orolwg o fodiwl/flwyddyn. |
| Manylion myfyrwyr |
| Awdits/Archwiliadau (Cymraeg) – Tystiolaeth wedi ei dethol mewn perthynas â'ch datblygiad yn y Gymraeg (lawrlwythwch, llenwch a diweddaru'r archwiliad yn adran Fframwaith y Gymraeg y tab Awdits/Archwiliadau). |

| Professional Learning Passport (PLP) |
|---|
| Remember to regularly press the blue SAVE button (top left) |
| Welcome – see the link to the EWC guidance on using the PLP at the end. Click on your PGCE year to access a module/year overview. |
| Student details |
| Audits (Cymraeg/Welsh) – Selected evidence in relation to your progress in your Welsh language development (download, fill in and update the audit in the Welsh Language Framework section of the Audits tab). |

| | |
|---|---|
| Awdits/Archwiliadau (cymwyseddau eraill ) – gwybodaeth bynciol, llythrennedd/rhifedd, cymhwysedd digidol. Dylid llwytho tystiolaeth o gwblhau ar ddechrau'r modiwl. Dylech ailedrych ar eich archwiliadau cychwynnol ar ddiwedd Blwyddyn 1 ac ar ddiwedd Blwyddyn 2. Wrth i chi ailedrych ar eich archwiliadau bydd hyn yn llywio eich lleoliad targed a'ch trafodaethau mentora. | Audits (other competencies) – subject knowledge, literacy/numeracy, digital competence. Evidence of completion should be loaded up at the beginning of the module. You should revisit your initial audits at the end of Year 1 and at the end of Year 2. The process of revisiting your audits will also inform your target-setting and mentor discussions. |
| Safonau Proffesiynol - Tystiolaeth ddethol yn erbyn y *Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth* – gallai hyn fod yn gynllun gwers/adnodd neu weithgaredd rydych chi wedi eu creu/arsylwadau gwersi ffurfiol neu anffurfiol gan fentor neu dystiolaeth gweithgaredd dysgu athro/ymarfer arall (darperir canllawiau pellach mewn perthynas â faint o dystiolaeth y dylech ei llwytho i fyny yn y Llyfr Gwaith Safonau Proffesiynol ar gyfer pob modiwl). | Professional Standards - Selected evidence against the *Professional Standards for Teaching and Leadership* – this might be a lesson plan/resource or activity you have created/formal or informal lesson observation by mentor or another teacher/practice learning activity evidence (further guidance in relation to the amount of evidence you should upload is provided in the Professional Standards Workbook for each module). |
| Tystiolaeth Ffurfiol: Arsylwadau Gwers Ffurfiol - Holl arsylwadau gwers ffurfiol gan eich mentor, cydlynydd ysgol a’r tiwtor ymarfer yn yr adran Tystiolaeth Ffurfiol. | Formal Evidence: Lesson Observations - All formal lesson observations by mentor, School Coordinator and Practice Tutor in this part of the Formal Evidence section. |
| Tystiolaeth Ffurfiol: Ffurflenni Adolygu Ymarfer – Pob ffurflen adolygu ymarfer. | Formal Evidence: Practice Review Forms – All practice review forms. |

| | |
|---|---|
| Tystiolaeth Ffurfiol: Adroddiad Arferion Dysgu - Mae eich Adroddiadau Arferion Dysgu yn mynd yn yr adran hon o fewn Tystiolaeth Ffurfiol. | Formal Evidence: Practice Learning Report - Your Practice Learning Reports go into this section of the Formal Evidence section. |
| Tystiolaeth Ffurfiol: tystiolaeth ychwanegol - Cynllunio gwersi a gwerthuso i gefnogi arsylwadau gwersi ffurfiol. | Formal Evidence: Additional evidence - Lesson planning and evaluation to support formal lesson observations. |

-

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru